
Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial

Adolygiad o Dirweddau
Dynodedig yng Nghymru
Adroddiad Terfynol


Yr Athro Terry Marsden

John Lloyd-Jones

Dr Ruth Williams

CYMRU

Parciau Cenedlaethol & AHNE



© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2014.
Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
Ebrill 2014

Rhagair y Cadeirydd.....	4
Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion.....	7
Pennod 1. Cyflwyniad.....	27
Pennod 2. Sut aethom ati i gasglu tystiolaeth ar gyfer Cam Dau.....	31
Pennod 3. Ymatebion i'r cais am dystiolaeth.....	35
Pennod 4. Cyd-destun sy'n newid i Dirweddau Dynodedig Cymru.....	37
Pennod 5. Llywodraethu Tirweddau Dynodedig Cymru – y Model Presennol	55
Pennod 6. Egwyddorion a Dibenion Tirweddau Dynodedig Cymru.....	103
Pennod 7. Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru.....	113
Pennod 8. Fframwaith Llywodraethu Newydd ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru	129
Atodiad	
Atodiad i. Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru..... Argymhellion Cam Un	166
Atodiad ii. Cais am gyfraniadau tystiolaeth Cam Dau	170
Atodiad iii. Sesiynau casglu tystiolaeth Cam Dau.....	172
Atodiad iv. Astudiaethau Achos.....	176
Atodiad v. Llyfryddiaeth.....	227
Atodiad vi. Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol a dangosyddion Adroddiadau ar Gyflwr y Parciau	235
Atodiad vii. Diagram Ilif Arian.....	242
Atodiad viii. Diagram Ilif Rheoli Contractau	243
Atodiad ix. Diagram Ilif Rheoli Datblygiadau Cynllunio.....	244
Atodiad x. Diagram Ilif Gorfodaeth Cynllunio.....	245

Rhagair y Cadeirydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf bûm yn gweithio, ynghyd ag aelodau'r panel, Dr Ruth Williams a John Lloyd Jones, i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar adolygiad annibynnol o Dirweddau Dynodedig Cymru. Mae'r Gweinidog "eisiau sicrhau bod ein tirweddau dynodedig yn y sefyllfa orau i fodloni'r heriau cyfredol a heriau'r dyfodol, ac adeiladu ar eu statws sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol".

Ein gwaith, a'r hyn y cawsom ein hannog i'w wneud, oedd creu dull parhaol a llawn gweledigaeth o alluogi'r ardaloedd hyn sy'n bwysig yn genedlaethol i ymateb i heriau ac amodau gwahanol iawn i'r hyn a'u hwynebai pan gawsant eu sefydlu'n gyntaf yn y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel. Mae'r ffaith eu bod yn dal yno ac yn cael eu gwerthfawrogi cymaint gan gynifer o bobl ynddi ei hun yn dystiolaeth o weledigaeth ac arloesedd eu sylfaenwyr yn y cyfnod hwnnw, ac er y cafwyd rhai addasiadau technegol o ran eu statws yn ystod y cyfnod a ddilynodd, mae'n bwysig parchu llwyddiant parhaus y dynodiadau dros y trigain mlynedd neu fwy ers eu sefydlu.

Er eu llwyddiant, ac yn wir yn rhannol o'i herwydd, rydym wedi cytuno â'r Gweinidog ei bod yn bwysig ac yn amserol i ni feithrin ymagwedd annibynnol, ffres, mwy hirdymor a llawn gweledigaeth tuag at y dibenion sy'n sail i'w statws gwarchoddedig, a'u trefniadau llywodraethu cyffredinol ar yr adeg hon. Mae cydbwysu eu hamcanion gwreiddiol deulol o warchod eu harddwch naturiol ac annog mynediad iddynt gan y cyhoedd yr un mor bwysig yn awr ag yn y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel; adeg pan welwyd yn glir fod angen ymestyn a diogelu hawliau tramwy cyhoeddus i'n tirweddau mwyaf annwyl a nodedig. Mae'r hawliau cyhoeddus a'r gofynion hyn yr un mor bwysig o hyd, ond mae tirweddau dynodedig yn wynebu heriau eraill newydd, heriau y gellid dadlau eu bod yn fwy cymhleth, nad oeddent yn bodoli saith deg o flynyddoedd yn ôl.

Caiff y rhain eu crynhoi yn yr adroddiad terfynol hwn ac maent i'w gweld yn yr amrywiaeth eang o dystiolaeth a gawsom yn ysgrifenedig ac ar lafar; ac maent yn cwmpasu'n glir rôl ehangach y lleoedd hyn fel asedau tirwedd amgylcheddol a naturiol a gydnabyddir yn rhyngwladol, eu harwyddocâd diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol byw a bywiog, a'u rôl bosibl yn parhau i ddiwallu anghenion y cyhoedd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ynghyd ag ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy a llesiant, mae angen i ni sicrhau

bod yr offer gan ein tirweddau mwyaf annwyl i gynnal a gwella eu rôl ar gyfer y cenedlaethau i ddod, fel eu bod yn gallu profi ac elwa o'r rhain i'r un graddau.

Yn ystod yr adolygiad, gwelodd y panel ei bod hi'n hen bryd edrych o'r newydd ar ddibenion a threfniadau llywodraethu tirweddau dynodedig Cymru. Mae o leiaf dri rheswm am hyn. Yn gyntaf, mae graddfa a chymhlethdod yr heriau amgylcheddol (megis newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth) sydd bellach yn ein hwynebu yn yr 21ain ganrif yn hollol wahanol i'r rhai a welwyd yn syth wedi'r rhyfel pan sefydlwyd y dynodiadau hyn yn gyntaf. Mae'n rhaid i'r tirweddau dynodedig chwarae rhan flaenllaw ac arloesol er mwyn cyflawni ac adfer byd carbon isel, a byd ôl-garbon wedyn, y bydd angen iddo esblygu dros yr ychydig ddegawdau nesaf (gweler y Gymdeithas Frenhinol, Gorffennaf 2015). Yn ail, mae maint yr anghydraddoldebau gofodol a chymdeithasol ym maes lles, iechyd, addysg a mynediad at hamdden awyr agored yn galw am lawer mwy gan y tirweddau dynodedig o ran gwella defnydd ehangach a mwy amrywiol o'u hasedau naturiol a ffisegol. Yn drydydd, ac mewn perthynas uniongyrchol â'r ddau bwynt cyntaf, mae angen i'r ardaloedd hyn fod yn gartref i gymunedau gwledig llawer mwy ffyniannus, lle gellir cadw, hyfforddi a denu pobl ifanc â chartrefi a swyddi cynaliadwy.

Mae'r tirweddau dynodedig bellach yn llawer mwy nag 'ysgyfaint gwyrdd' goddefol i boblogaethau trefol; fel y nodwn yn ein gweledigaeth, maent yn **'ffatrioedd llesiant'** newydd, dynamig a chynhyrchiol.

Dechreuodd y panel ar ei waith gyda hyn mewn cof a mynd ati i gynhyrchu'r adroddiad rydych yn ei ddarllen yn awr. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno pob un o ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad, yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion cam 1 sy'n gysylltiedig â natur y Dynodiadau a'u Dibenion a'u Dyletswyddau; a cham dau, sydd wedi adolygu trefniadau llywodraethu, swyddogaethau cynllunio a chynrychiolaeth effeithiol ac atebolrwydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi casglu ystod eang o dystiolaeth yn sail i'n canfyddiadau a'n hargymhellion, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi hidlo cyfres o Egwyddorion sydd wedi llywio'r newidiadau i'r Dibenion. Yna, nodwyd Gweledigaeth newydd ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol, sy'n creu 25% o arwynebedd tir Cymru. Mae'r adrannau olaf yn nodi'n fanwl y trefniadau Llywodraethu a argymhellir ar gyfer cyflawni'r Weledigaeth hon.

Rydym yn argymhell Fframwaith Llywodraethu Tirweddau Cenedlaethol newydd a chynhwysfawr ar gyfer ein Tirweddau Cenedlaethol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Rydym yn

cymeradwyo'r argymhellion hyn i'r Gweinidog, ac yn credu y byddant yn gwella perfformiad y tirweddau drwy gyfrannu'n llawnach tuag at agenda bolisi ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar draws y meysydd amgylcheddol, iechyd a lles, economaidd, datblygu cymunedol ac addysg. Byddant hefyd yn gwella cyfranogiad ac atebolrwydd yn genedlaethol ac yn lleol ac ar draws ystod ehangach o grwpiau amrywiol.

Drwy gydol cam cyntaf yr adolygiad cawsom ein taro gan frwdfrydedd amrywiaeth eang o randdeiliaid ynglŷn â'r ymdrech hon. Maent hefyd yn adleisio'r statws unigryw ac amlwg sydd i dirweddau dynodedig ym mywyd diwylliannol Cymru a'r DU.

Diolchiadau

Unwaith eto, hoffwn ganmol ysbryd cydweithredol, ymroddiad gwaith a chrebwyll profiadol fy nghydweithwyr, Dr Ruth Williams a John Lloyd Jones wrth gytuno ar yr argymhellion ar y cyd.

Mae'r Adolygiad, yn ei gyfanrwydd, wedi elwa'n fawr o'r diddordeb a gynhyrchodd ymhlith y cyhoedd a'r cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Hoffai'r panel ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu am eu gwybodaeth, eu profiad a'u brwdfrydedd ynghylch pob un o'n tirweddau dynodedig.

Mae'r panel hefyd yn dymuno cydnabod y cymorth ysgrifenyddol ardderchog a gafodd gan dîm Tirweddau Dynodedig Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Greg Pycroft, Ieuan Llŷr Jones ac Emily Kennedy. Hoffem hefyd ddiolch i Dr Marc Adams am y gefnogaeth ymchwil a ddarparodd yn ystod yr ail gam a'r Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy (PLACE) ym Mhrifysgol Caerdydd lle y cynhaliwyd y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd.



Yr Athro Terry Marsden

Cadeirydd

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol a Argymhellion

Cafodd Yr Adolygiad o Dirluniau Dynodedig yng Nghymru ei gomisiynu gan Carl Sargeant AC, Gweinidog dros Gyfoeth Naturiol yn 2014 i “sicrhau bod ein tirweddau dynodedig yn y sefyllfa orau i fodloni'r heriau cyfredol a heriau'r dyfodol, ac adeiladu ar eu statws sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol”.

Roedd hefyd am i ni ystyried y trefniadau llywodraethu a rheoli o'r wyth tirwedd ddynodedig Cymru; sut y byddai unrhyw ddyfodol gorff/gyrff llywodraethu yn hyrwyddo, cydweithio a gweithio ar y cyd orau wrth osgoi dyblygu a sut y byddai unrhyw gorff llywodraethu yn y dyfodol yn atgyfnerthu atebolrwydd lleol a gwneud penderfyniadau gorau. Gofynnwyd i ni hefyd ystyried rôl yr Awdurdodau Parciau


Cenedlaethol yn y dyfodol fel awdurdodau cynllunio ac i ystyried hyrwyddo amrywiaeth ar fyrddau'r cyrff sy'n rheoli'r'r ardaloedd hyn.

Roedd hefyd am i ni ystyried y trefniadau llywodraethu a rheoli o'r wyth dirweddau dynodedig Cymru; sut y byddai unrhyw dyfodol gorff/gyrff llywodraethu yn hyrwyddo, cydweithio a gweithio ar y cyd orau tra'n osgoi dyblygu a sut y byddai unrhyw gorff llywodraethu yn y dyfodol yn atgyfnerthu atebolrwydd lleol a gwneud penderfyniadau gorau. Gofynnwyd i ni hefyd ystyried rôl yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y dyfodol fel awdurdodau cynllunio ac i ystyried hyrwyddo amrywiaeth ar fyrddau y cyrff sy'n rheoli y'r ardaloedd hyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd ystod eang o dystiolaeth, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i seilio ein canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn cael eu nodi yn fanylach yn y Penodau canlynol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfres o argymhellion sy'n bodloni gofynion a osodwyd gan y Gweinidog ac maent yn gysylltiedig (gweler Ffigur i). Rydym wedi cynhyrchu cyfres o egwyddorion

Ffigur i: Llywodraethu o egwyddorion i ddarpariaeth



arweiniol sydd wedi, yn ei dro, hysbysodd y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud i Ddibenion dirweddau dynodedig yng Nghymru. Yna, byddwn yn amlinellu Gweledigaeth newydd ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol, sy'n cynrychioli 25% o arwynebedd tir Cymru, ac yn olaf byddwn yn gosod ein hargymell er mwyn darparu'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfres o argymhellion sy'n bodloni y gofynion a osodwyd gan y Gweinidog ac maent yn gyd gysylltiedig (gweler Ffigur i). Rydym wedi cynhyrchu cyfres o **Egwyddorion** arweiniol sydd wedi, yn ei tro, goleuo y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud i **Ddibenion** dirweddau dynodedig yng Nghymru. Yna, goswyd allan **Gweledigaeth** newydd ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol, sy'n cynrychioli 25% o arwynebedd tir Cymru, a yn olaf osodwyd ein Fframwaith Llywodraethu argymhellir ar gyfer cyflwyno.

Mae ein safbwynt o ein tirweddau dynodedig wedi newid, maent yn parhau i fod, mewn rhyw ystyr, y 'ysgyfaint gwyrdd' goddefol ar gyfer y poblogaethau trefol, ond mae hefyd ganddynt y potensial i fod yn 'ffatrïoedd o les' deinamig a chynhyrchiol. Mae ein hargymhellion yn helpu ein tirweddau dynodedig sylweddoli'r potensial hwn ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ganiatáu'r ¼ hon o Gymru i gyfranni ar gyfer y Genedl yn ei gyfanrwydd.

Y Egwyddorion

Argymhelliad 1

Ein hegwyddorion arweiniol:

- **Mae angen i ni edrych ar y dibenion o fewn amserlen tymor canolig i dymor hir, er mwyn sicrhau'r un dilyniant yn y dyfodol ag a gafwyd dros y trigain mlynedd diwethaf.**
- **Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio dibynnu gormod ar y gorffennol wrth ffurfio gweledigaeth newydd ddiwygiedig ar gyfer y tirweddau dynodedig sy'n cydnabod yr heriau sylweddol maent yn eu hwynebu yn y dyfodol.**
- **Cysoni'r dibenion i gydnabod bod y ddau ddynodiad wedi bod yn gweithredu mewn gwirionedd ac i wahanol raddau y tu hwnt i'w cylch gwaith gwreiddiol ers cryn amser.**

- Y dylai unrhyw newidiadau i ddibenion fod yn rhai parhaol, a chilir ac yn debygol o sicrhau ac ymgorffori'r flaenoriaeth a roddwyd o dan 'Egwyddor Sandford', gan roi blaenoriaeth i'r diben cyntaf. Daeth yn glir hefyd, pe byddai nifer y dibenion yn cynyddu, (a) y byddai'n rhaid i'r rhai eraill roi blaenoriaeth i'r gyntaf mewn achos o wrthdaro clir; ac, yr un mor bwysig, (b) byddai'r gweddill yn cydatgyfnerthu a rhwymo i gyflawni'r cyntaf. Mae'r dull hwn, sef "Sandford Uwch", yn cysylltu ac integreiddio unrhyw ddibenion ychwanegol.
- Roedd dadl gref hefyd dros ailystyried y dyletswyddau statudol ar gyrff cysylltiedig er mwyn eu hegluro a'u cryfhau. Dylai hyn sicrhau bod y cyrff tirweddau dynodedig eu hunain a'r sefydliadau cenedlaethol a lleol perthnasol – gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau a Llywodraeth Cymru – yn cydymffurfio â'r dibenion a'r ddyletswydd.
- Sylweddoli pwysigrwydd rhwymedigaethau rhyngwladol; y gwersi a'r cyfleoedd maent yn eu rhoi i Gymru.
- Sicrhau bod y dibenion yn gallu parhau i fodloni rhwymedigaethau rhyngwladol a safonau cadwraeth natur a gwarchod tirweddau e.e. categorïau IUCN a'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, ac annog eu cyrff perthnasol i gynnal a rhagori ar y rhwymedigaethau a'r safonau hynny.
- Ymdrechu i gael dibenion sy'n barhaol ac y gellir eu defnyddio mewn ardaloedd eraill yn y dyfodol, yn cynnwys ardaloedd morol.
- Dylai unrhyw newidiadau a argymhellir i gyfeiriad a/neu eiriad y dibenion gael eu gwneud yn y cyd-destun eu bod yn: (a) glir, manwl, diamwys a chyson; (b) yn hawdd i'w deall ac yn cyfleu cyfeiriad clir; (c) yn gadarn yn gyfreithiol a thechnegol.
- Dylai unrhyw newidiadau a argymhellir sicrhau cydbwysedd doeth rhwng darparu diben cyson cyffredinol, ac annog a dathlu amrywiaeth naturiol a diwylliannol y teulu o dirweddau gwarchodedig eu hunain.
- Parhau i ystyried cryfder a gwerth y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a pheidio â thanseilio eu manteision ledled Cymru.
- Osgoi cyfaddawdu y lleoedd hyn drwy osod unrhyw faich ychwanegol diangen ar bwrs y wlad; a gwella effeithlonrwydd arian cyhoeddus lle bo'n bosibl.
- Dehongli'r dibenion a'r dyletswyddau mewn ffyrdd sy'n cyflawni ar draws agenda bolisi Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r egwyddorion arweiniol hyn.

Argymhelliad 2

Ni ddylid cael un dynodiad yn unig.

Y Pwrpasau

Argymhelliad 3

Dylid cael UN set o ddibenion statudol ac un ddyletswydd statudol gysylltiedig ar gyfer y ddau ddynodiad.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r enwau "Parciau Cenedlaethol" ac "Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol" (AHNE) fel prif ddynodiadau "Tirweddau Cenedlaethol Cymru".

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyfundrefn enwi gyson a chadarn, a'r enw ar y ddau ddynodiad gyda'i gilydd fydd:

"Tirweddau Cenedlaethol Cymru"

Bydd "Parc Cenedlaethol" ac "Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol" yn "Ddynodiadau Cyfwerth"

Byddai gan y Dynodiadau Cyfwerth yr un dibenion a dyletswyddau statudol

Argymhelliad 6

Dylai fod *TRI* diben statudol *CYDGLOËDIG* ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE.

sef:

“Gwarchod a gwella'r dirwedd unigryw a rhinweddau morweddol yr ardal¹.”

(Diben Cadwraeth)

“Hybu lles ffisegol a meddyliol drwy fwynhau a deall tirwedd yr ardal.”

(Diben Lles Dynol)

“Hybu ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad economaidd a chymunedol yn seiliedig ar reoli adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.”

(Diben Rheoli Adnoddau Cynaliadwy)

Argymhelliad 7

Bydd Egwyddor Sandford, sy'n cadarnhau blaenoriaeth y diben cadwraeth, yn cael ei defnyddio ar draws yr holl dirweddau dynodedig.

Argymhelliad 8

Dylai fod un Ddyletswydd Statudol newydd sy'n dileu'r geiriad gwan “rhoi sylw i” yn y ddyletswyddau cyfredol ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol, a chyflwyno un ddyletswydd eglur yn eu lle:

“Cyfrannu at gyflawni tri diben y Tirweddau Cenedlaethol.”

¹ Pan fo 'tirwedd' yn cynnwys holl amgylchedd naturiol yr ardal, ynghyd â'i bioamrywiaeth, setliadau dynol ac agweddau diwylliannol. Mae'n bwysig iawn pwysleisio arwyddocâd datblygu elfennau diogelu bioamrywiaeth ac adfer yn y Diben Cadwraeth a hyrwyddo cynnydd tuag at fodloni safonau rhyngwladol y Confensiwn Bioamrywiaeth Rhyngwladol nad ydynt wedi'u bodloni yng Nghymru eto. Mae hwn hefyd yn cynnwys diffiniad y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (Cyngor Ewrop, 2000) o dirwedd fel 'ardal, wedi'i dehongli gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol'. (Erthygl 1a.) Ac mae'n cymryd yr eir ati i wella 'camau gweithredu i warchod a chynnal arwyddocâd neu nodweddion tirwedd, a gyfiawnheir gan ei gwerth treftadol sy'n deillio o'i chyfluniad naturiol ac/neu o weithgarwch dynol' (erthygl 1d).

Y Weledigaeth

Mae angen i'r weledigaeth i lywyddu a rhoi cyfeiriad i lywodraethu ar aml-lefel ag deinamig am y lleoedd arbennig hyn. Yna gall y Tirweddau Cenedlaethol cael eu lleoli fel lleoedd arloesol ag arweiniol ar gyfer dal ac integreiddio'r economi amgylcheddol, ag y nodau lles a chynaliadwyedd, ac yn eu gosod fel canolfannau rhanbarthol ar gyfer datblygu gwledig cynaliadwy a darparwyr gwasanaethau ecosystem.

Argymhelliad 9

Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Mae Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwerthfawrogi gan y genedl fel "ffatrioedd llesiant" pwysig sy'n gwella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy eu tri diben. Mae eu nodweddion arbennig yn cael eu cynnal, eu gwella a'u gwerthfawrogi yn eang. Maent yn ardaloedd ar gyfer cydweithredu arloesol yn seiliedig ar leoedd, sy'n mynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru, ac sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel arweinwyr ym maes datblygu cynaliadwy.

Argymhelliad 10

Dylai'r 'ffatrioedd llesiant' a ragwelwyd gennym, Tirweddau Cenedlaethol Cymru, ddatblygu ac ysgogi mwy o bartneriaethau menter lleol, tai fforddiadwy cynaliadwy, ynni gwyrdd a mentrau manwerthu.

Argymhelliad 11

Bydd adeiladu ar y mentrau datblygu cymunedol mewn Tirweddau Cenedlaethol yn galw am barhau cyllid sbarduno ar gyfer prosiectau integredig sy'n cyfrannu at eu tri chyd-ddiben integredig.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso Tirweddau Cenedlaethol Cymru i ddod yn ganolfannau swyddogol ar gyfer arloesi ac yn gatalyddion ar gyfer datblygu rhanbarthol yn y Gymru wledig, o fewn eu terfynau amgylcheddol.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall ac y bydd Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020' Llywodraeth Cymru - ar y cyd, ac yn unigol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Tirweddau Cenedlaethol yn rhan o'r holl waith cynllunio a datblygu seilwaith yng Nghymru megis y Cynllun Buddsoddi yn y Seilwaith Cenedlaethol, Strategaeth Twf Gwyrdd a'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol.

Argymhelliad 15

Mae angen i'r Tirweddau Cenedlaethol ddeall eu heconomiâu lleol a rhanbarthol yn well, ac yn enwedig eu heconomiâu twristiaeth.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso'r Tirweddau Cenedlaethol i gyflawni ei hagenda 'Twf Gwyrdd' a sefydlwyd ar briodas rhwng tirweddau eithriadol a datblygu cynaliadwy.

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru hybu'r Tirweddau Cenedlaethol fel enghreifftiau blaenllaw i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ym meysydd datblygu cynaliadwy, iechyd a thwristiaeth yn benodol.

Argymhelliad 18

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru uwchraddio eu polisiau iechyd a llesiant i gydfynd â'r ail ddiben newydd. Gellid cysylltu hyn â hygyrchedd gwell ac ehangach ac elfennau'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy.

Argymhelliad 19

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru ymgymryd â mwy o arbrofion yn ymwneud ag iechyd a llesiant mewn perthynas â datblygu a chyrraedd rhannau o'r boblogaeth a chymunedau trefol a gwledig sy'n heriol. Gellid cyflwyno'r rhain ar y cyd â byrddau iechyd lleol.

Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ymestyn y Tirweddau Cenedlaethol arfordirol i gynnwys ardaloedd morol cyfagos a mabwysiadu dull integredig o reoli adnoddau arfordirol yn yr ardaloedd hyn.

Argymhelliad 21

Dylai rheolwyr Tirweddau Cenedlaethol sicrhau bod rhan ganolog i ddefnyddwyr arfordirol yn eu prosesau cynllunio ar gyfer rheoli'r arfordir.

Argymhelliad 22

Dylid cymhwyso model llwyddiannus Fforwm Arfordir Sir Benfro yn fwy eang ar draws ardaloedd arfordirol y Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 23

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru ddehongli ac ymgorffori argymhellion 9 i 22 uchod yn ddangosyddion a thargedau ar gyfer Cymru gyfan at ddibenion cynllunio prosesau rheoli ac adrodd ar lesiant.

Fframwaith Llywodraethu

Fframwaith Llywodraethu Newydd ar Gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Er mwyn 'gwireddu potensial' y Tirweddau Cenedlaethol Cymru, i fynd i'r afael â'r rhwystrau a gwendidau ac i gyrraedd yn ffit gorau posibl rhwng y sefydliad o ddibenion a dyletswyddau - rydym yn argymhell fframwaith newydd o lywodraethu. Mae'r fframwaith yn cwmpasu pob un o'r wyth o'r cyrff rheoli tirwedd ddynodedig ac rydym yn gobeithio y byddant i gyd yn gweld ei werth ac yn cyfrannu at ei lwyddiant.

Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r Fframwaith Llywodraethu newydd canlynol ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru, fel y'i portreadir yn Ffigurau 16 ac 19 ac fel y'i disgrifir yn fanwl ym mhob un o'n Hargymhellion 25 i 69 sy'n dilyn.

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE: Model ar gyfer cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn lleol

Rydym yn credu bod hunaniaeth statudol a addaswyd yn seiliedig ar y model Awdurdod Diben Sengl ar gyfer Parciau Cenedlaethol a'r dull llywodraethu aml-model hyblyg ar gyfer AHNE yw'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer meithrin mwy o gynrychiolaeth leol a rhanbarthol, rheoli ac atebolrwydd. Maent yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol ar gyfer cydbwyso amcanion

cenedlaethol yn effeithiol ag ystyriaethau lleol. Dylai'r dull hwn hefyd darparu'r cyrff tirwedd ddynodedig gyda chyfleoedd pellach i ddenu cyllid ac adnoddau allanol ychwanegol.

Argymhelliad 25

Cadw'r model awdurdod lleol un diben ar gyfer rheoli Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 26

Cadw a datblygu modelau rheoli AHNE hyblyg.

Argymhelliad 27

Bydd angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE ystyried sut y maent yn ailstrwythuro eu hunain er mwyn cyflawni'r tri diben newydd.

Argymhelliad 28

Dylai Llywodraeth Cymru leihau'r baich rheoliadol anghymesur ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer awdurdodau lleol mwy o faint a mwy cymhleth.

Argymhelliad 29

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r gallu i ymgeisio am gyllid o ystod ehangach o ffynonellau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE.

Arweinyddiaeth: Newid radical mewn gwaith a diwylliant sefydliadol a rhyngasiantaethol

Rydym yn awyddus i newid y diwylliant sefydliadol llywodraethu o'r tirweddau a ddynodwyd o un o "barch" i un yn fwy atebol ac arloesol sy'n gwella pwerau "meddal" sy'n bodoli eisoes i gynnull.

Argymhelliad 30

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol' fel y dangosir yn Ffigur 17.

Argymhelliad 31

Dylai'r 8 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r cyrff AHNE sefydlu 'Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol Cymru' llai ymyrrol fel y dangosir yn Ffigur 18.

Argymhelliad 32

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol a'r rhanddeiliaid perthnasol drwy'r Bwrdd Partneriaeth a'r Pwyllgor Cenedlaethol i gytuno, a chadw dan arolwg 'Strategaeth Tirweddau Cenedlaethol Cymru' drosfwaol.

Tirweddau Cenedlaethol a Llywodraeth Genedlaethol

O ystyried pwysigrwydd cenedlaethol y tirweddau a ddynodwyd i Gymru rydym yn rhagweld proffil llawer uwch ar eu cyfer yn y Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym hefyd yn rhagweld ymgysylltu Gweinidogol uniongyrchol â'r Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 33

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar Gynlluniau Partneriaeth statudol pob un o Dirweddau Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

Argymhelliad 34

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth iddo esblygu ei bensaernïaeth fewnol ei hun, ystyried y berthynas rhyngddo a Thirweddau Cenedlaethol Cymru i sicrhau cymaint ag y bo modd o graffu ac atebolrwydd.

Argymhelliad 35

Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau a dangosyddion perfformiad ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru sy'n deillio o'r Nodau Llesiant ac yn cyd-fynd â hwy.

Adrodd a Chynllunio Integredig

Mae'n amserol ac yn fwy effeithlon i integreiddio gofynion cynllunio o ddatblygiadau deddfwriaethol diweddar i UN ymarferiad Cynllunio Partneriaeth statudol sy'n ymgorffori, yn ei chanol, y Cynllun Partneriaeth statudol, ond hefyd yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â lles a rheoli adnoddau naturiol.

Argymhelliad 36

Dylai bod yna Un ymarfer cynllunio partneriaeth statudol ar gyfer pob un o'r tirweddau dynodedig.

Argymhelliad 37

Dylai Cynllun Partneriaeth statudol ardal integreiddio'r cynllun rheoli, cynllun llesiant a datganiadau ardal adnoddau naturiol cyfredol.

Partneriaethau Lleol

Mae rheolaeth lwyddiannus o'r ardaloedd arbennig yn dibynnu ar bartneriaethau cynhyrchiol gyda phawb sydd yn effeithio arnynt. Rydym am iddynt fod hyd yn oed yn fwy perthnasol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, a fydd yn gofyn am wella ac ymgysylltu lleol gwell ag effeithiol rhwng yr holl rhanddeiliad perthnasol.

Argymhelliad 38

Dylid sefydlu 'Partneriaethau' wedi'u creu'n ffurfiol ym mhob un o'r Parciau Cenedlaethol i fod yn rhan agos o'r gwaith o baratoi a chyflwyno'r Cynllun Partneriaeth statudol.

Argymhelliad 39

Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a ddylai gadeirio Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 40

Dylai fod perthynas wedi'i chytuno'n ffurfiol rhwng Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Argymhelliad 41

Dylai'r AHNE barhau i ddatblygu eu modelau gweithio mewn partneriaeth ddibynadwy, ond nid ydym yn teimlo y byddai dull 'un ateb addas i bawb' o fudd i'r AHNE.

Meithrin perthynas ochrol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol

Bydd NRW yn ffynhonnell bwysig o gyngor proffesiynol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a dylai'r tirweddau dynodedig elwa. Wrth i awdurdodau lleol mwy o faint yn dod i'r amlwg gallai cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhyngddynt a'u AHNE fod yn rhy fregus, felly mae'n hanfodol sicrhau cysylltiadau cryf parhaus rhwng awdurdodau lleol ac AHNE. Rydym yn dymuno i atgyfnerthu a lledaenu arferion da sydd eisoes yn bodoli ar draws pob un o'r wyth tirwedd ddynodedig.

Argymhelliad 42

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru lunio rhestr gynhwysfawr o'u pŵerau a'u dyletswyddau statudol mewn perthynas â thirweddau dynodedig Cymru a sicrhau ei bod ar gael i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 43

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys ac yn hyrwyddo'r tirweddau dynodedig ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol.

Argymhelliad 44

Bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw i'r Cynlluniau Partneriaeth statudol wrth gynnal eu hymarferion cynllunio yn eu hardaloedd.

Argymhelliad 45

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu data ac yn darparu cyngor proffesiynol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'r Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 46

Dylai awdurdodau lleol atgyfnerthu a lledaenu eu harferion cydweithio gorau yn yr AHNE ar draws pob un o'r wyth Parc Cenedlaethol a'r AHNE.

Blaengynllunio a Rheoli Datblygu

Fe ddarganfyddom fod yr achos dros gael gwared ar bwerau cynllunio'r APC yn an-berswadiol, yn seiliedig ar hen enghreifftiau nad oedd yn adlewyrchu profiad cyfoes ac yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiad. Bydd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sy'n rheoli'r dirwedd o 20% o Gymru yn angen i fod yn fwy integredig wrth gyflawni eu tri phwrpas. Er y bydd cynllunio yn parhau i fod un arf ymhlith y sawl sy'n ofynnol i gyflawni'r dibenion newydd, bydd yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn dosbarthu cysondeb ar draws ein Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 47

Dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu polisi cynllunio strategol a'u swyddogaethau rheoli datblygiadau cynllunio.

Argymhelliad 48

Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu a chefnogi cyngor cynllunio cyn gwneud cais gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 49

Dylai'r Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol gydgysylltu a helpu i rannu cost hyfforddiant ac addysg mewn materion cynllunio defnydd tir, yn enwedig ar gyfer cyflawni'r dibenion newydd.

Argymhelliad 50

Cyrff AHNE i ddod yn ymgylgoreion statudol ar geisiadau cynllunio gydag effaith sylweddol bosibl ar nodweddion arbennig eu hardaloedd.

Argymhelliad 51

Datblygu a sicrhau adnoddau ar gyfer system o gyngor cynllunio annibynnol ar gyfer AHNE ledled Cymru.

Argymhelliad 52

Datblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau cynllunio'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru.

Cynrychiolaeth leol ac amrywiaeth

Rydym am fanteisio ymhellach ar botensial ac angerdd y pwysigrwydd cenedlaethol a chyfleoedd lleol mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE, er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth mewn gwneud penderfyniadau, ac i adeiladu pontydd cryfach rhwng y tirweddau a ddynodwyd a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.

Argymhelliad 53

Dylai pob Awdurdod Parc Cenedlaethol gynnwys: ½ Cynghorwyr Sir wedi'u henwebu, ¼ cynrychiolwyr y budd cenedlaethol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru drwy gystadleuaeth agored, a ¼ cynrychiolwyr y budd lleol wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored gan yr aelodau a restrir uchod.

Argymhelliad 54

Dylai prosesau recriwtio a phenodi ar gyfer aelodau 'budd cenedlaethol' a 'budd lleol' Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gynnwys arfer gorau i sicrhau amrywiaeth ymysg aelodaeth yr Awdurdod.

Argymhelliad 55

Datblygu a sefydlu'r camau cadarnhaol sydd wedi'u profi eisoes gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y tri Pharc Cenedlaethol er mwyn cynyddu amrywiaeth yn eu Hawdurdodau, hynny yw, dulliau Mosaic, mentora a Llysgennad.

Argymhelliad 56

Dylai Llywodraeth Cymru ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol ymhlith aelodau awdurdodau lleol mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol er mwyn cynyddu cynrychiolaeth leol. Felly dylai Cynghorwyr a benodir i Awdurdodau Parciau

Cenedlaethol gynrychioli wardiau oddi mewn i ffin y Parc Cenedlaethol neu wardiau sy'n pontio'r ffin. [Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990.]

Argymhelliad 57

Dylid cael trefniadau adrodd ffurfiol rhwng Cynghorwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'u prif awdurdod lleol.

Argymhelliad 58

Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgor ffurfiol i oruchwylio rheolaeth yr AHNE ac i ddirprwyo cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros baratoi Cynllun Rheoli AHNE i'r Pwyllgor hwn (ond heb ddirprwyo ei gyfrifoldebau o dan ei ddyletswydd i ddibenion yr AHNE a chyflawni agweddau perthnasol ar y Cynllun Rheoli). Rydym yn argymhell ailenwi hwn yn 'Bwyllgor Cyflenwi AHNE' yn hytrach na'r enw arferol: Cydbwyllgor Ymgynghorol.

Argymhelliad 59

Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i bob Pwyllgor Cyflenwi AHNE i gynnwys o leiaf un aelod Cabinet o bob awdurdod lleol cyfansoddol, o leiaf ddau gynrychiolydd budd cenedlaethol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru drwy gystadleuaeth agored, ac o leiaf ddau gynrychiolydd budd lleol wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored gan weddill yr aelodau.

Argymhelliad 60

Dylai Llywodraeth Cymru ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol rhwng aelodau awdurdodau lleol ym mhwyllgorau ffurfiol AHNE er mwyn cynyddu cynrychiolaeth leol. Felly dylai Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i bwyllgorau ffurfiol AHNE (yn ogystal ag aelodau'r cabinet yn adran Rx uchod) gynrychioli wardiau oddi mewn i ffin yr AHNE,

neu sy'n pontio'r ffin. [Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990.]

Argymhelliad 61

Dylai'r prosesau penodi aelodau 'budd cenedlaethol' a 'budd lleol' pwyllgorau cyflenwi AHNE gynnwys arferion gorau o ran cydraddoldeb i sicrhau amrywiaeth ymysg aelodaeth y Pwyllgor.

Argymhelliad 62

Dylai'r AHNE fynd ati i ddysgu gwersi o raglenni peilot Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'u defnyddio i gynyddu amrywiaeth ymysg aelodaeth eu Pwyllgorau Cyflenwi. (Gallai Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol Cymru hwyluso dysgu o'r fath.)

Argymhelliad 63

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i fod yn gynghorydd allweddol i Bwyllgorau Cyflenwi AHNE.

Argymhelliad 64

Dylid cael trefniadau adrodd ffurfiol rhwng y Cynghorwyr ar Bwyllgorau Cyflenwi AHNE a'u prif awdurdodau lleol.

Trefniadau ariannu

Rydym yn credu y mae angen symleiddio'r trefniadau ariannu ar gyfer y cyrff dynodedig. Mae perfformiad effeithiol yn gofyn digon o gymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, i gyflawni dros dirweddau dynodedig. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae'r AHNE yn arbennig yn

agored i gael eu cyllid gwaelodlin danseilio oherwydd natur ddewisol eu llywodraeth leol a chyllid NRW.

Argymhelliad 65

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r dyraniad grant craidd blynyddol i bob un o Dirweddau Cenedlaethol Cymru, a thrwy hynny gael gwared ar ardollau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol.

Argymhelliad 66

Dylai Llywodraeth Cymru frigidorri'r dyraniad craidd ar gyfer mentrau cydweithredol a chenedlaethol strategol a phenodol (sy'n cael eu dyrannu drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a grantiau cystadleuol fel y Gronfa Natur ar hyn o bryd).

Argymhelliad 67

Dylai Llywodraeth Cymru reoli atebolrwydd am gyllid craidd drwy broses adolygu flynyddol wedi'i gweinyddu yn ôl meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig â'r Nodau Llesiant a Chynlluniau Partneriaeth statudol y cyrff Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 68

Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd i ddenu ffynonellau ariannu allanol. Bydd hyn yn galw am newid yn strwythurau rheoli mewnol a swyddogaeth y cyrff hyn ac yn achos AHNE, eu perthynas â'u hawdurdodau lleol partner.

Argymhelliad 69

Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd i gynhyrchu eu ffrydiau refeniw eu hunain drwy ddatblygu ystod ehangach o daliadau am wasanaethau

ecosystemau yn unol â'u dibenion. Bydd eu gallu i ddefnyddio a denu cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a chyllid cysylltiedig o'r Undeb Ewropeaidd yn bwysig.

Fframwaith Llywodraethu newydd ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Mae'r fframwaith llywodraethu newydd yn ganlyniad o'r dystiolaeth a dderbyniwyd a'r ystyriaeth ofalus o'r panel dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn credu bod yn ei strwythurau a'r prosesau y mae'n eu darparu fframwaith cadarn ar gyfer darparu yn fwy effeithiol perfformiad, arweinyddiaeth a chyfeiriad, llais, atebolrwydd ac effeithlonrwydd cyhoeddus o'r ardaloedd tirwedd, ac yn hyn y mae'n ymgorffori ymagwedd llawer mwy seiliedig ar bartneriaeth gyda mwy o gynrychiolaeth. Mae'n caniatáu ar gyfer cyflwyno clir o'r set ddiwygiedig o ddibenion ac, yn ein barn ni, bydd yn cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad yn y Tirweddau Cenedlaethol.

Pennod 1.

Cyflwyniad

1.1 Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

- 1.1.1 Cawsom ein comisiynu i gynnal yr adolygiad hwn gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant AC mewn datganiad cabinet ysgrifenedig (Llywodraeth Cymru, 2014f). Yn y datganiad hwnnw, pwysleisiodd y Gweinidog ei fod “eisiau sicrhau bod ein tirweddau dynodedig yn y sefyllfa orau i fodloni'r heriau cyfredol a heriau'r dyfodol, ac adeiladu ar eu statws sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol”.
- 1.1.2 Aelodau'r panel adolygu oedd yr Athro Terry Marsden (Cadeirydd), Dr Ruth Williams a John Lloyd Jones.
- 1.1.3 Crëwyd wyth tirwedd ddynodedig statudol yng Nghymru - y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) - gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wedi newid dros y degawdau ers y Ddeddf wreiddiol. Dywedodd y Gweinidog fod cymaint o newid wedi digwydd fel ei bod hi'n bryd, yng nghyd-destun datblygiadau polisi eraill yng Nghymru;

“gwerthuso a deall yn well a yw'r dynodiadau, y dibenion, y trefniadau rheoli a'r modd y maent yn llywodraethu tirweddau dynodedig yn bodloni'r heriau a wynebir heddiw ac yn y dyfodol.” (Llywodraeth Cymru, 2014f)

- 1.1.4 Dynododd y Gweinidog hefyd ei fod am weld tirweddau dynodedig yn datblygu yn:

“enghreiffiau rhyngwladol o gynaliadwyedd, yn dirluniau byw ac ynddynt gymunedau gwledig cryf a bywiog, cyfleoedd hamdden awyr agored eang, ecosystemau ffyniannus a bioamrywiaeth gyfoethog.” (Ibid)

Dywedodd hefyd ei fod yn credu bod potensial gan dirweddau dynodedig Cymru i brofi atebion newydd i heriau cynaliadwyedd mewn cymunedau gwledig bregus.

1.1.5 O'r dechrau un, rhannwyd yr adolygiad yn ddau gam. Edrychai'r cam cyntaf ar swyddogaethau'r tirweddau dynodedig, a'r ail gam oedd ystyried y weledigaeth a threfniadau llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru.

1.2 Adroddiad Cam Un

1.2.1 Cyflwynwyd adroddiad cam un (Marsden et al, 2015) i'r Gweinidog ar 31 Ionawr 2015 a chyfarfu'r Panel ag ef ar 2 Chwefror i drafod y canfyddiadau.

1.2.2 Roedd adroddiad cam un yn cynnwys chwe argymhelliad yn ymwneud â rôl a swyddogaeth tirweddau dynodedig Cymru. Mae'r crynodeb gweithredol a'r argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad i.



Cysylltu cymunedau ac ysgolion lleol â thirweddau a bywyd gwylt lleol drwy brosiect Awel Môn yn AHNE Ynys Môn.

1.3 Cylch Gwaith Cam Dau

1.3.1 Comisiynwyd yr ail gam gan y Gweinidog mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 3 Mawrth, a chyhoeddwyd ail ddatganiad ysgrifenedig y diwrnod canlynol (Llywodraeth Cymru, 2015f).

1.3.2 Nododd y llythyr a'r datganiad mai'r cylch gwaith ar gyfer cam dau oedd ystyried:

- adolygu trefniadau llywodraethu a rheoli'r tirweddau dynodedig;
- sut byddai unrhyw gorff/gyrff rheoli yn hybu cydweithredu a gweithio ar y cyd yn y ffordd orau, gan osgoi dyblygu
- sut byddai unrhyw gorff rheoli yn y dyfodol yn cadarnhau atebolrwydd a phenderfyniadau lleol yn y ffordd orau. *“(Llywodraeth Cymru, 2015f)*

Ynghyd â'r tri mater cyffredinol hwn sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu tirweddau dynodedig, roedd y Gweinidog eisiau i'r adolygiad ganolbwyntio ar ddau fater ychwanegol yn ystod yr ail gam:

“rhaid i'ch ystyriaeth llywodraethu cwmpasu rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn y dyfodol fel awdurdodau cynllunio. *(Ibid)*

Ac

“Yn eich ystyried o gynrychiolaeth ac atebolrwydd dylech roi sylw i gydbwysedd fwrdd o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.” *(Ibid)*

- 1.3.3 Yn ogystal ag ystyried gweledigaeth a threfniadau llywodraethu tirweddau dynodedig, mae'r adroddiad terfynol hwn yn ailystyried y chwe argymhelliad a nodwyd yn adroddiad cam un, ac yn sgil tystiolaeth yr ail gam, yn ystyried a oes angen eu diwygio.

1.4 Yr Adroddiad Terfynol

- 1.4.1 Gan adlewyrchu adroddiad cam un, mae ein hadroddiad terfynol yn nodi cyd-destun ehangach y Parciau Cenedlaethol, yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'u trefniadau llywodraethu. Rydym wedi diweddarau'r datblygiadau deddfwriaethol a'r datblygiadau polisi yr adroddwyd yn eu cylch yn gynharach eleni ac rydym wedi cynnwys yn ein hadroddiad yr ymchwil a gomisiynwyd i nodi model llywodraethu presennol tirweddau dynodedig yng Nghymru. Cyn belled ag y gwyddom, mae'n waith unigryw, ac yn cynnig y status quo – ffordd o gymharu â modelau llywodraethu cenedlaethol a rhyngwladol eraill a llinell sylfaen ar gyfer cymharu a chyferbynnu ein hargymhellion.

- 1.4.2 Rydym wedi nodi ein methodoleg aml-ddull ar gyfer cam dau cyn cyflwyno dadansoddiad byr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law rhwng mis Mawrth a mis Mehefin eleni.
- 1.4.3 Mae'r dull hwn wedi llywio ein penodau olaf lle rydym yn nodi ein hargymhellion. Mae Pennod 6 yn dychwelyd at yr argymhellion a wnaed gennym yng ngham un ac edrychwn arnynt eto yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddaeth i law yn yr ail gam. Mae'r bennod olaf ond un, sef Pennod 7, yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru, ac mae'r bennod olaf, sef Pennod 8, yn amlinellu'r modd y gellir cyflawni'r weledigaeth honno.
- 1.4.4 Gyda'i gilydd, rydym wedi nodi dull newydd mwy trylwyr ac integredig o reoli tirweddau dynodedig yng Nghymru – dull sy'n cydnabod pwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y lleoedd arbennig hyn ac sy'n sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn gallu diwallu'r galwadau lluosog y mae disgwyl iddynt eu hateb.

Sut aethom ati i gasglu tystiolaeth ar gyfer Cam Dau

2.1 Ein dull

- 2.1.1 Ffariwyd methodoleg aml-ddull a oedd yn cynnwys ymchwil yn y swyddfa, cais am dystiolaeth, cyfarfodydd â rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru a mynychu cyfarfodydd o fewn y tirweddau dynodedig.
- 2.1.2 Cynhaliwyd ail gam yr adolygiad rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2015. Cynhaliwyd cyfnod casglu tystiolaeth cam dau rhwng diwedd mis Mawrth 2015, pan anfonwyd y cais am dystiolaeth at ystod eang o randdeiliaid, a chanol mis Mehefin. O ddiwedd mis Mai, canolbwyntiai gwaith y panel adolygu fwyfwy ar ddadansoddi tystiolaeth, ffurfio ein casgliadau a'n hargymhellion, a chynhyrchu'r adroddiad hwn.
- 2.1.3 Yn ogystal, comisiynwyd gwaith ymchwil gennym, a gyflwynir ym Mhennod 5, sy'n rhoi'r "sefyllfa bresennol", sef model cyfredol trefniadau llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru. Roedd angen hwn gan i ni ddod yn ymwybodol yn fuan nad oedd gennym ddarlun cydlynol o'r trefniadau llywodraethu presennol yng Nghymru, a bod angen gwrthrychol i osod llinell sylfaen o dystiolaeth ynglŷn â sut oedd y systemau llywodraethu presennol yn gweithio. Roedd y sefyllfa a fodolai yn cynnwys ymchwil yn y swyddfa yn bennaf, gan gasglu deunydd o ystod eang o ffynonellau ar y we, yn cynnwys tirweddau dynodedig Cymru a gweddill y DU, Llywodraeth Cymru a chyrrff anllywodraethol. Gwnaed ymholiadau pellach am dystiolaeth hefyd, yn bennaf gan y teulu o Dirweddau Dynodedig, yn ogystal â'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd gan randdeiliaid. Yn benodol, roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys: astudiaethau achos o arfer gorau, gwybodaeth am gynrychiolaeth ar bwyllgorau partneriaeth/cydbwyllgorau AHNE yn ogystal â manylion am sefyllfa ariannol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Cafodd y data hwn ei gyfosod mewn nifer o ffyrdd yn ogystal â chael ei drafod o fewn y bennod ac mae'n cynnwys: siartiau llif perthynol sy'n dangos y berthynas rhwng systemau llywodraethu sefydliadol a dadansoddiad ar ffurf tabl o agweddau ariannol ac agweddau allweddol eraill o dirweddau dynodedig.

- 2.1.4 Mae Pennod 5 yn nodi'r dystiolaeth yn yr adrannau allweddol canlynol: llywodraethu ariannol, cynllunio llywodraethu, llywodraethu'r amgylchedd naturiol, a chynrychiolaeth mewn tirweddau dynodedig. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys adrannau sy'n darparu: crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd gan dirweddau dynodedig yn eu hastudiaethau achos o arfer gorau, cyflwyno'r modelau llywodraethu amgen a amlygwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r panel a thrafodaeth o'r dirwedd deddfwriaethol sy'n esblygu yng Nghymru a'i heffeithiau posibl ar lywodraethu tirweddau dynodedig. Mae rhan olaf yr adran yn defnyddio egwyddorion llywodraethu da yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) fel fframwaith i amlygu'r themâu a'r materion allweddol sy'n codi o'r dystiolaeth a adolygwyd.
- 2.1.5 Anfonwyd cais am dystiolaeth at y rhanddeiliaid ac roedd yn agored i ymatebion gan y cyhoedd. Tyfodd y rhestr bostio rhwng dechrau mis Hydref 2014 a chanol mis Mawrth 2015 wrth i rhanddeiliaid newydd â diddordeb mewn tirweddau dynodedig a'n gwaith ddod i gysylltiad â ni.
- 2.1.6 Roedd gan y rhanddeiliaid 9 wythnos (rhwng 24 Mawrth a 29 Mai) i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'n cais am dystiolaeth cam dau ar ffurf gohebiaeth gan yr Athro Terry Marsden, nodyn yn pennu cylch gwaith cam dau, y cwestiynau a lywiai'r cam hwn, sydd wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod, a datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog.
- 2.1.7 Pennwyd dyddiad cau ar gyfer y cais am dystiolaeth er mwyn i'r panel allu ystyried a myfyrio ar y cyfraniadau ysgrifenedig cyn cytuno ar y rhestr derfynol o wahoddedigion i sesiynau tystiolaeth rhanddeiliaid cam dau.
- 2.1.8 Adlewyrchwyd dull o weithredu tebyg i gam un hefyd yn ein penderfyniad i gynnal sesiynau briffio ar bolisi a deddfwriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru. Trefnwyd nifer o sesiynau drwy gydol y cyfnod casglu tystiolaeth, yn cwmpasu ystod lawer mwy eang o feysydd polisi na cham un, gan adlewyrchu rôl drawsbotffolio tirweddau dynodedig yng Nghymru. Cyfeirir at y sesiynau, y meysydd polisi a'r swyddogion yn Atodiad iii.
- 2.1.9 Cyfarfu'r panel â swyddogion tirweddau dynodedig yn gynnar yn ystod y cyfnod casglu tystiolaeth, ac eto yn rhinwedd eu swyddogaethau Parciau Cenedlaethol Cymru a

Chymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi i'w cyflwyniadau ysgrifenedig ddod i law.

- 2.1.10 Yn gynnar yn ystod y cyfnod casglu tystiolaeth, daeth yn amlwg fod model yr Alban ar gyfer Parciau Cenedlaethol yn un uchel ei barch ar gyfer llywodraethu tirweddau dynodedig. Felly, cynhaliodd y panel fideogynadledau gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, Scottish Natural Heritage, Association for the Protection of Rural Scotland a dau Awdurdod Parc Cenedlaethol yr Alban (gweler y rhestr lawn yn Atodiad iii). Cynhaliwyd y rhain er mwyn trafod a sicrhau gwell dealltwriaeth o'r model a sefydlwyd yn ddiweddarach yn yr Alban, ei gyflawniadau, a'i gryfderau a'i wendidau cymharol.
- 2.1.11 Hefyd, cynhaliwyd telegynhadledd gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Europarc, Carol Richie, i drafod modelau a dulliau llywodraethu ar draws Ewrop. Cyfarfu'r panel hefyd â'r Grŵp Symonds cymwys a phrofiadol iawn, a oedd yn cynnwys arweinwyr presennol a chyn-arweinwyr o'r sector tirweddau dynodedig.
- 2.1.12 Wrth i gam dau fynd rhagddo, daeth yn amlwg y byddem eisiau gwneud sylwadau ar rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i berthynas â'r tirweddau dynodedig. Felly, trefnwyd cyfarfod â'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC a allodd ein goleuo, fel cyn-Lywydd ac Aelod Cynulliad presennol, ynglŷn â chyfryngau a llwybrau cyfansoddiadol ar gyfer diwygio.
- 2.1.13 Trefnwyd ail gyfarfod gyda'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Peter Davies. Roedd y cyfarfod blaenorol wedi'i gynnal ddiwedd mis Tachwedd. Rhoddodd cyfarfod canol mis Gorffennaf gyfle i ni drafod a phrofi ein canfyddiadau drafft.
- 2.1.14 Roedd y panel hefyd yn awyddus i gael profiad uniongyrchol o drefniadau llywodraethu'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE a mynychodd aelodau unigol gyfarfodydd gyda phob un ond un o'r tirweddau dynodedig rhwng dechrau mis Mai a chanol mis Gorffennaf 2015. Mynychwyd saith cyfarfod i gyd ledled Cymru, gan ei gwneud yn bosibl i aelodau'r panel gyfarfod ag unigolion sy'n ymwneud â thirweddau dynodedig ar lefel leol, a'u hannerch a chael eu holi ganddynt. Mae'r rhestr lawn o gyfarfodydd i'w gweld yn Atodiad iii.

2.2 Cwestiynau i gyfranwyr

- 2.2.1 Mae'r cwestiynau hyn yn deillio o, ac yn cydweddu â'r cylch gwaith penodol ar gyfer cam dau a bennwyd gan y Gweinidog ac maent yn cynnig fframwaith ar gyfer gofyn cwestiynau mwy penodol.

Tabl 1: Cwestiynau ac anogaethau i gyfranwyr ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig

1	<p>Beth yw'r trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer tirweddau dynodedig sy'n eu galluogi i fwrw ati i sicrhau canlyniadau uchelgeisiol yng Nghymru ac ar gyfer Cymru?</p> <p><i>I ateb y cwestiwn, efallai y byddwch eisiau ystyried ac ymateb i'r cwestiynau ychwanegol a pherthnasol hyn:</i></p>
2	<p>Yn sgil adroddiad cam un yr Adolygiad a'r argymhellion a datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (dyddiedig 4 Mawrth) beth yw eich gweledigaeth a'ch uchelgais ar gyfer cyfeiriad tirweddau dynodedig Cymru yn y tymor canolig i'r tymor hir?</p>
3	<p>O safbwynt llywodraethu, pa ffactorau sy'n rhwystro a/neu sy'n debygol o rwystro tirweddau dynodedig rhag cyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais a nodwch yn eich ymateb i gwestiwn 2?</p>
4	<p>O safbwynt llywodraethu, pa ffactorau fydd yn ei gwneud yn bosibl i dirweddau dynodedig gyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais a nodwch yn eich ymateb i gwestiwn 2?</p>
5	<p>A oes modelau/dulliau llywodraethu tirweddau dynodedig/ardaloedd gwarchoddedig eraill yr hoffech eu dwyn i sylw'r Panel Adolygu?</p>

Ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth

3.1 Tystiolaeth Ysgrifenedig

- 3.1.1 Erbyn diwedd cyfnod y cais am dystiolaeth, yn cynnwys pythefnos ychwanegol ar gyfer ymatebion y cawsom rybudd ymlaen llaw y byddent yn cyrraedd yn hwyr, daeth cyfanswm o 96 o ymatebion ysgrifenedig i law.
- 3.1.2 Roedd bron hanner y cyfanswm, 42 o ymatebion, yn dod o ardal Gŵyr neu'n ymwneud â'r ardal honno, a chawsant eu hysgrifennu mewn ymateb i un argymhelliad yn ein hadroddiad cam un – Argymhelliad 3 i newid yr enw “Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol” i “Tirweddau Cenedlaethol”. Roedd hi'n ymddangos bod yr ymatebwyr hyn yn credu mai polisi Llywodraeth Cymru oedd ein hargymhelliad mewn gwirionedd ac roeddent yn datgan eu gwrthwynebiad i'r cynnig.
- 3.1.3 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cael ein hadroddiad cam un ac nid oedd wedi mynegi barn ar unrhyw un o'i argymhellion cam un, yn cynnwys argymhelliad 3. Mae unrhyw gred i'r gwrthwyneb yn seiliedig ar gamddealltwriaeth. Fodd bynnag, daethpwyd â'r ymatebion hyn i sylw Llywodraeth Cymru gan ein bod eisiau i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o lefel y teimlad ynglŷn â'r mater hwn.
- 3.1.4 Daeth 54 o gyflwyniadau ysgrifenedig pellach i law, gan ymateb yn llawn neu'n rhannol i'r cwestiynau a ofynnai'r adolygiad yn ystod cais am dystiolaeth cam dau. Mae'r rhestr lawn o gyfranwyr ysgrifenedig i'w gweld yn Atodiad ii ac mae'r dadansoddiad yn ôl sector i'w weld yn Nhabl 2.
- 3.1.5 Er eu bod yn llai o ran nifer nag yng ngham un, mae'r Tabl yn dangos yr ystod eang o ddiddordebau sectoraidd a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth. Ceir llawer iawn llai o gyflwyniadau gan lywodraeth leol yng ngham dau, 9 yn lle'r 21 yng ngham un. Nid yw hyn yn syndod llwyr gan fod nifer fawr o gyflwyniadau gan gynghorau cymuned yng ngham un eisoes wedi cyffwrdd â materion yn ymwneud â llywodraethu a chynllunio.

Tabl 2: Cyfran yr ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad o wahanol sectorau (yn cyfateb i ddadansoddiad o ymatebion cam un mewn cromfachau)

Sector Cyhoeddus	10	(12)
3ydd Sector/Sector Elusennol	10	(17)
Sector Amaethyddol/Preifat	5	(5)
Unigolion Preifat	14	(8)
Llywodraeth Leol	9	(21)
Arall	6	(10)
Cyfanswm	54	(73)

Mae "Llywodraeth leol" yn golygu ymatebion gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol, cynghorau tref a chymuned a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae "Arall" yn cynnwys cymdeithasau proffesiynol ac ymddiriedolaethau archeolegol.

- 3.1.6 Efallai hefyd mai dyma'r rheswm dros y nifer is o ymatebion o'r Sector Elusennol a'r Trydydd Sector a'r categori "Arall". Nodwyd cynnwys perthnasol i lywodraethu'r ymatebion hynny ar y pryd, a llywiodd y safbwyntiau hyn ddatblygiad cwestiynau cam dau, yn ogystal â chael eu hystyried gyda gweddill tystiolaeth cam dau.
- 3.1.7 Yn ystod yr ail gam hwn, daeth nifer uwch o ymatebion i law gan unigolion preifat nag yn rhan un, i fyny i 14 o 8, sydd efallai'n dangos y diddordeb preifat a gynhyrchwyd gan ein canfyddiadau cam un a chynnwys cam dau.

Cyd-destun sy'n newid ar gyfer Tirweddau Dynodedig yng Nghymru

4.1 Diweddariad ers Cam Un

- 4.1.1 Mae'r bennod hon yn adeiladu ar y bennod gysylltiedig yn ein hadroddiad cam un, ac mewn sawl achos, mae'n ddiweddariad ohoni. Mae'r tirweddau dynodedig yng Nghymru yn bodoli mewn cyd-destun amlhaenog sy'n newid yn barhaus. Mae ffactorau cyd-destunol wedi dylanwadu ar ddatblygiad y tirweddau dynodedig ers creu'r deddfwriaeth sefydlu yn 1949 a bydd yn parhau i ddylanwadu ar eu datblygiad yn y dyfodol. Mae'r ffactorau hyn wedi llywio a llunio ein casgliadau a'n hargymhellion.
- 4.1.2 Gan adlewyrchu'r dull aml-ddull a nodwyd ym Mhennod 2, mae'r bennod hon wedi ei llywio gan ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys cylch gwaith a chylch gorchwyl a bennwyd gan y Gweinidog, cyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ein darllen cefndirol a thystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yng nghyfnod y cais am dystiolaeth. Mae gwybodaeth gyd-destunol bellach ar fodel cyfredol llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru yn dilyn ym Mhennod 5.

4.2 Cyd-destun deddfwriaethol hanesyddol

Tabl 3: Dibenion presennol y Parciau Cenedlaethol – a62(1) Deddf yr Amgylchedd 1995, a Diben AHNE - a82(1) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROWA) 2000

Dibenion Parciau Cenedlaethol
“gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal, ei bywyd gwyllt a'i threftadaeth ddiwylliannol...”
“hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hyn.”
Diben AHNE
“gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal.”

- 4.2.1 Mae'r tirweddau dynodedig statudol - y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE - yn gynnwys yr un oes wleidyddol wedi'r Ail Ryfel Byd a arweiniodd at sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r system gynllunio Gwlad a Thref.
- 4.2.2 Y ddeddfwriaeth a sefydlodd dirweddau dynodedig statudol yng Nghymru a Lloegr yw'r Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym 1949. Cafodd Parc Cenedlaethol cyntaf Cymru, Eryri, ei ddynodi ym 1951 – ymhlith yr haen gyntaf o dri dynodiad parc cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Yr AHNE cyntaf i'w dynodi yng Nghymru a Lloegr oedd Penrhyn Gŵyr ym 1956. Mae Tabl 3 uchod yn nodi dibenion y ddau ddynodiad. Mae dau ddiben i'r Parciau Cenedlaethol, ac un i'r AHNE.
- 4.2.3 Er iddi gael ei diwygio ers hynny, mae Deddf 1949 yn parhau i fod yn sylfaen ar gyfer gosod dibenion a dyletswyddau'r Parciau Cenedlaethol ac mae'r strwythur hwn wedi parhau. Cyflwynwyd nifer o ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth, fel arfer yn dilyn yn sgil adolygiadau "carreg filltir" ac yn seiliedig ar eu hargymhellion. Yn hanesyddol, roedd yr adolygiadau'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Arweiniodd adolygiad yr Arglwydd Sandford yn 1974 at sefydlu "Egwyddor Sandford", a oedd yn cadarnhau blaenoriaeth diben cyntaf y Parciau Cenedlaethol. Cafodd yr egwyddor rym yn statudol drwy a.11A(2) Deddf yr Amgylchedd 1995 (Bell a McGillivray, t.739, 2008).
- 4.2.4 Mae "Camu 'Mlaen: Adroddiad Panel Adolygu'r Parciau Cenedlaethol" dan gadeiryddiaeth yr Athro Ron Edwards (Edwards, 1991) yn cael ei ystyried fel yr ail adolygiad carreg filltir. Roedd yr adolygiad yn ailystyried pa mor briodol oedd dibenion y Parciau Cenedlaethol mewn cyd-destun a oedd wedi newid ers 1949. Roedd pobl yn deall materion amgylcheddol yn llawer gwell ac nid oedd cyrff cyhoeddus wedi ymrwymo'n glir i ddibenion y Parciau Cenedlaethol ar y pryd. Llywiodd Adolygiad Edwards ddiwygiadau i ddibenion y Parciau Cenedlaethol, gan gyflwyno'r cysyniad o dreftadaeth ddiwylliannol i'r diben cyntaf a diwygio'r ail ddiben i gynnwys "dealltwriaeth". Arweiniodd yr adolygiad hefyd at greu'r ddyletswydd lles economaidd a chymdeithasol, a.62(1) yn Neddf 1995, ac at sefydlu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau annibynnol.

4.2.5 Mae Prawf Silkin (datblygiad arwyddocaol arall ar gyfer tirweddau dynodedig) yn berthnasol i Barciau Cenedlaethol ac AHNE fel ei gilydd. Caiff ei alw hefyd yn “brif brawf datblygu” ac mae’n datgan na ddylai datblygiadau mawr ddigwydd yn y tirweddau dynodedig oni bai eu bod yn wirioneddol angenrheidiol, ac yn arbennig, eu bod er budd cenedlaethol. Cafodd y prawf ei bennu’n wreiddiol yn Natganiad 7 y Polisi Cynllunio sydd wedi ei ddisodli bellach gan Bolisi Cynllunio Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014) yng Nghymru a’r Fframwaith Polisi Cenedlaethol yn Lloegr. Mae’r ddau fframwaith cynllunio cenedlaethol yn nodi’r prawf yn yr un ffordd, gan ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu mawr gynnwys asesiad yn datgan:

- *yr angen am y datblygiad, gan gynnwys yn nhermau ystyriaethau cenedlaethol ac effaith rhoi caniatâd neu beidio â rhoi caniatad, ar yr economi leol;*
- *cost datblygu mewn man arall y tu allan i’r ardal ddynodedig neu’r cyfle i wneud hynny neu ddiwallu’r angen amdano mewn rhyw ffordd arall; ac*
- *unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd, y dirwedd a chyfleoedd hamdden, a’r graddau y gellid lleihau hynny...” (Llywodraeth Cymru, t.77, 2014)*

4.2.6 Ers setliad datganoli 1997 a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cynhaliwyd un adolygiad o’r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gan Land Use Consultants et al yn 2004. Paratowyd yr adolygiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru a’i amcanion oedd:

- i. asesu rôl gyffredinol y Parciau o ran cyflawni eu dau brif ddiben statudol a pha mor effeithiol yw eu dyletswydd,
- ii. ystyried sut i sicrhau bod y Parciau’n cyfrannu hyd eithaf eu gallu at gyflawni a hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy
- iii. ystyried pa gamau eraill y byddai’n ddefnyddiol i Awdurdodau’r Parciau eu cymryd i gyrraedd cymunedau sydd y tu hwnt i’w ffiniau er mwyn cefnogi cynhwysiant cymdeithasol
- iv. ystyried pa gamau y gallai Awdurdodau’r Parciau eu cymryd i ymgysylltu’n fwy effeithiol â’u cymunedau lleol

4.2.7 Mae AHNE, a arferai gael eu dynodi’n wreiddiol o dan Ddeddf 1949, yn cael eu dynodi bellach o dan a.82 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Deddf CROW) 2000. Yn wahanol i’r Parciau Cenedlaethol, cânt eu dynodi i un diben: gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal. Nid oes iddynt ddiben o ran hamdden statudol (Bell a

McGillivray, 2008). Cafwyd llai o adolygiadau a newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i AHNE ers 1949, sy'n golygu bod eu cynnwys yn yr adolygiad hwn yn garreg filltir bwysig ar gyfer y dynodiad hwn yn ein barn ni.

4.3 Cyd-destun Polisi

4.3.1 Roedd y cylch gwaith a gawsom gan y Gweinidog yn rhoi cyfeiriad polisi clir. Mae Llywodraeth Cymru eisiau datblygu a gwella eu galluoedd strategol, llunio polisi a chyflawni gweithredol yn y tirweddau dynodedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflawni dibenion tirweddau dynodedig.
- Sicrhau bod rhinweddau arbennig tirwedd ddynodedig yn cael eu gwarchod.
- Gwneud y defnydd gorau o botensial yr ardaloedd hyn.
- Cefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol.
- Dangos arferion da, yn enwedig o ran rheolaeth a chynaliadwyedd tirweddau.
- Datblygu ffyrdd clir a chyson o gydweithredu
- Sicrhau arweiniad cenedlaethol a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.
- Osgoi dyblygu a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd prin.
- Cadarnhau atebolrwydd a phenderfyniadau lleol.

4.3.2 Cyn yr adolygiad hwn, roedd y canllawiau strategol tymor byr i dymor canolig ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, ond nid AHNE, yn deillio o'r "Datganiad Polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru: Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007). Roedd hwn yn disodli Cylchlythyr 13/99 y Swyddfa Gymreig, a gyhoeddwyd ym 1999, gan ddiweddarau canllawiau i roi sylw i'r Parciau Cenedlaethol a'u hintegreiddio yn well yn agenda strategol Llywodraeth Cymru. Yn bwysig iawn, roedd "Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru" yn pennu gweledigaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru a oedd yn egluro eu lle yn glir yng Nghymru'r 21ain ganrif ac yn darparu amcanion ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

"Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn dirweddau gwarchoddedig o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnwys llawer o'r hyn sy'n wahanol ac yn arbennig am Gymru wledig, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol. Er yn wledig eu natur yn bennaf, mae'r Parciau yn cynnwys poblogaeth o dros 80,000 o breswylwyr, maent yn agos i gymunedau trefol pwysig ac mae ganddynt botensial sylweddol i gyfoethogi bywydau

pobl Cymru, ac ymwelwyr â Chymru a chyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles y cyhoedd ac at economi Cymru. Maent yn dirweddau byw, wedi'u ffurfio gan eu cymunedau dros filoedd o flynyddoedd. Maent yn lleoedd lle yr hyrwyddir datblygu cynaliadwy er budd yr amgylchedd, yr economi a chymunedau'r Parc. Maent yn lleoedd sy'n arbrofi gydag ymagweddau newydd mewn datblygu cynaliadwy a chadwraeth amgylcheddol, yn enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer Cymru ehangach, ac yn helpu i lunio ac arwain polisi ac arfer gwledig yn y dyfodol. Maent hefyd yn lleoedd lle y mae pawb a all ddylanwadu ar ddyfodol y Parciau yn cydweithio i warchod a gwella eu harddwch naturiol, eu bioamrywiaeth a'u hunaniaeth ddiwylliannol, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. O dan arweiniad yr Awdurdodau Parciau, mae'r ardaloedd arbennig hyn yn dod yn gynyddol gyfoethocach ac yn fwy amrywiol o ran tirwedd, bywyd gwylt a threftadaeth ac yn cael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi gan drawsdoriaid llawn cymdeithas.” (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007, t.3)

4.3.3 Gohiriodd Llywodraeth Cymru y gwaith o gynhyrchu diweddariad o'r Datganiad Polisi tra'r oedd yr adolygiad hwn ar y gweill. Yn hytrach na chanolbwyntio ar un dynodiad tirwedd statudol, roedd y datganiad polisi drafft hwnnw'n ymwneud, am y tro cyntaf, â Pharciau Cenedlaethol ac AHNE. Fel datganiad polisi 2007, mae'n ceisio integreiddio'r tirweddau dynodedig ymhellach i'w galluogi i gyflawni eu dibenion a chanlyniadau Llywodraeth Cymru.

4.3.4 *Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*

4.3.5 Gwnaeth Comisiwn 2014 ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Comisiwn Williams, nifer o argymhellion yn ymwneud ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ond nid yr AHNE. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4: Comisiwn 2014 ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus – argymhellion yn ymwneud ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Rhaid i APCau ddatblygu ffyrdd clir a chyson o gydweithio â'i gilydd, awdurdodau lleol, Croeso Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ar lawr gwlad, er mwyn osgoi achosion o ddyblygu a manteisio ar adnoddau ac arbenigedd prin.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sicrhau arweinyddiaeth a chydgyssylltu cenedlaethol a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ac arbenigedd.

Dylai'r Llywodraeth ystyried gwneud hynny drwy un awdurdod, tra'n cynnal hunaniaethau unigryw'r tri pharc.

Mae angen diwygio atebolrwydd ac aelodaeth APCau. Er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd a dulliau o wneud penderfyniadau yn lleol, rydym yn argymhell bod yn rhaid i aelodau APC a enwebwyd gan yr awdurdod lleol gynrychioli wardiau sy'n gyfan gwbl o fewn ardal y Parc neu, os nad yw hynny'n bosibl, yn rhannol o fewn ardal y Parc.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai ethol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn uniongyrchol yn cryfhau atebolrwydd o'r fath.

4.3.6 Mae'r argymhellion uchod yn amlwg yn berthnasol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac yn mynd i gael eu hystyried yn ystod yr ail gam. Mae'r adolygiad hefyd yn archwilio'r materion hyn mewn perthynas â'r AHNE. Ceir sawl egwyddor llywodraethu, uwchlaw'r ddau ddynodiad statudol, sy'n berthnasol wrth asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu presennol ac arfaethedig:

- Arweinyddiaeth
- Cydweithio a phartneriaeth
- Gweithredu ar raddfeydd priodol
- Gwella perfformiad, proses a gweithdrefn
- Cyfathrebu ac ymgysylltu
- Llywodraethu, atebolrwydd a chraffu


4.4 Cyd-destun deddfwriaethol cyfredol

4.4.1 Fel panel rydym yn llwyr ymwybodol fod tirweddau dynodedig yn wynebu newid sylweddol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd naill ai wedi'i rhoi mewn grym yn ddiweddar neu sydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

4.4.2 Drwy gyfarfodydd gyda swyddogion cyfrifol Llywodraeth Cymru, roeddem yn awyddus i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ysgogiadau polisi, y bwriadau wrth wraidd y gwahanol ddeddfau a'r effeithiau posibl a lluosog ar y tirweddau dynodedig.

- 4.4.3 Mae cynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cwmpasu agenda uchelgeisiol ar gyfer diwygio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus sy'n bellgyrhaeddol ac yn drwyadl. Ar hyn o bryd, mae'r agenda hon yn cwmpasu pum maes deddfwriaethol ac yn darparu cyd-destun deddfwriaethol newydd arwyddocaol y bydd yn rhaid i'r tirweddau dynodedig integreiddio o'i fewn.
- 4.4.4 Casglodd y panel dystiolaeth gan swyddogion yn adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru a oedd ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu pob un o'r meysydd deddfwriaethol. Hefyd, adolygodd y panel y memoranda esboniadol a oedd ar gael i'r cyhoedd eu craffu (mae Bil Diwygio Llywodraeth Leol (Cymru) eto i gael ei gyflwyno). Mae Ffigur 1 yn darparu cynrychioliad ar ffurf diagram o agweddau allweddol tair deddfwriaethol a'r modd y byddant yn cydberthyn. Fe'i lluniwyd o'r dystiolaeth a gafwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r memoranda esboniadol ar gyfer pob Deddf a/neu Fil.
- 4.4.5 *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*
- 4.4.6 Bwriad y Ddeddf yw gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y ddeddfwriaeth ystyried a chynllunio ar gyfer y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy gydgyssylltiedig o weithredu.

Ffigur 1: Y rhyngweithio rhwng 3 Deddf/Bil deddfwriaethol diwygio cyhoeddus allweddol



4.4.7 Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu saith o nodau llesiant y bydd yr holl gyrff cyhoeddus a restrwyd yn gweithio tuag atynt. Mae'r nodau wedi'u rhestru yn Nhabl 5.

Tabl 5: y Nodau Llesiant, a.4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus.	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth.	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

4.4.8 O'r trafodaethau a gawsom gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar draws ystod eang o agendâu polisi, deallwn y bydd y nodau trosfwaol hyn yn dylanwadu'n sylweddol ar sector cyhoeddus Cymru dros y tymor canolig i'r tymor hir.

4.4.9 Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi fframwaith adrodd cenedlaethol ar gyfer llesiant (a.10 i 13) a mecanwaith darparu lleol, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys pedwar aelod statudol – awdurdodau lleol; awdurdodau tân ac achub Cymru; Byrddau Iechyd Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru a gall wahodd partneriaid eraill i ymuno â'r bwrdd, a allai gynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae'n aneglur ar y cam hwn a fydd AHNE yn rhyngweithio â'u Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a sut y byddant yn gwneud hynny. Mae arweiniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ddatblygu felly mae'n bosibl y daw hyn yn fwy eglur o ganlyniad. Bydd gofyn i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu asesiad o lesiant lleol, sy'n cynrychioli'r sylfaen dystiolaeth leol i lywio'r gwaith o greu cynlluniau llesiant lleol, gan nodi'r amcanion ar gyfer cyflawni nodau datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant yn lleol.

4.4.10 *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*

4.4.11 Rhoddwyd Deddf Cynllunio (Cymru) mewn grym yn ddiweddar, a derbyniodd gydsyniad brenhinol ar ddechrau mis Gorffennaf 2015. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno ystod o fesurau gyda'r nod o foderneiddio'r system gynllunio yng Nghymru, sy'n:

- Darparu fframwaith cyflawni modern ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio, yn cynnwys caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar nifer gyfyngedig o geisiadau cynllunio.
- Ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i system sy'n dilyn y cynllun. Mynd i'r afael â diffygion a nodwyd ar lefel genedlaethol a lefel strategol drwy ddileu Cynllun Gofodol Cymru (sic) a rhoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ei le a chyflwyno darpariaethau a fyddai'n ei gwneud yn bosibl paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn ôl yr angen.
- Sicrhau y caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu cyflawni a'u hadolygu'n rheolaidd fel y byddant yn parhau i fod yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio.
- Gwella'r ffordd y caiff y system rheoli datblygu ei gweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn ategu'r broses o roi Cynlluniau Datblygu Lleol ar waith, gan gynnwys cyflwyno

darpariaethau i geisio sicrhau mwy o gysondeb o ran cyngor cyn gwneud cais a bod cyngor cyn gwneud cais ar gael.

- Gwella gweithgarwch ymgysylltu ymhellach drwy ei gwneud yn haws i ddinasyddion ddylanwadu ar ddyfodol eu cymunedau drwy gyflwyno ymgynghoriad statudol cyn gwneud cais ar gyfer ceisiadau cynllunio arwyddocaol.
- Ailwampio'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio gan gynnwys cyflwyno darpariaethau a fyddai'n ei gwneud yn bosibl safoni trefniadau a gweithdrefnau pwyllgorau cynllunio a phrosesau dirprwyo i swyddogion ledled Cymru.
- Moderneiddio'r system gorfodaeth cynllunio er mwyn sicrhau bod achosion o dorri mesurau rheoli cynllunio yn cael eu hunioni'n effeithlon.
- Symleiddio'r broses apeliadau cynllunio.

4.4.12 Y brif agwedd ar y Ddeddf a allai effeithio ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yw'r pŵer a roddir i Weinidogion o dan a.41 i'w gwneud yn bosibl i gydbwyllgorau cynllunio ddatblygu swyddogaeth reoli datblygiadau yn ardaloedd y Parciau Cenedlaethol, yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (a.41(7)).

4.4.13 Agwedd arall o bwys yw bod a.14(2) yn newid a.72 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a oedd wedi atal Gweinidogion Cymru yn y gorffennol rhag gallu cyfarwyddo Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i lunio Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gydag awdurdod lleol arall.

4.4.14 Nid yw'r Ddeddf yn effeithio'n uniongyrchol ar yr AHNE ar wahân i newidiadau'n deillio o dynhau'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol a'r modd y mae'n rhyngweithio â deddfwriaeth arall a drafodir yn y bennod hon.

4.4.15 *Bil yr Amgylchedd (Cymru)*

4.4.16 Adeg ysgrifennu'r ddogfen hon mae'r Bil wedi ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n destun craffu cam un gan Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o fesurau'n ymwneud ag adrodd ar, a llunio polisi'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru ac yn anelu i wneud hyn drwy ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

4.4.17 Y prif newid dyletswydd sydd wedi'i gynnwys yn y Bil yw disodli a.40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus roi sylw dyledus i warchod bioamrywiaeth wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Bydd dyletswydd ecosystemau yn cymryd lle'r ddyletswydd hon o dan a.6(1) y Bil.



Gweithio mewn cydweithrediad â busnesau lleol i ddatblygu syniadau arloesol cynaliadwy. Cafodd prototeip tai fforddiadwy Tŷ Solar ei ddatblygu ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

4.4.18 Nod y Bil hefyd yw gosod dyletswydd statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn darparu asesiad llinell sylfaen o dystiolaeth o sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru, a fydd wedyn yn llywio'r Polisi Adnoddau Naturiol sydd i'w lunio gan Weinidogion Cymru yn y deg mis yn dilyn etholiad cyffredinol yng Nghymru. Y bwriad yw i'r Polisi Adnoddau Naturiol ddarparu'r cyfeiriad strategol er mwyn gallu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy Ddatganiadau Ardal a gaiff eu cynhyrchu gan CNC.

4.4.19 Datganiadau ardal yw mecanwaith allweddol y Bil. Gellir eu llunio ar gyfer gofod o unrhyw faint sy'n addas i ddiffinio'r ecosystem sydd i'w rheoli. Defnyddir datganiadau ardal hefyd i helpu CNC, "os yw hynny'n gyson ag unrhyw ddyletswydd statudol benodol, i integreiddio, ad-drefnu a symleiddio unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu

strategaethau a gaiff eu paratoi ganddo” (Llywodraeth Cymru, t.33, 2015b). Mae datganiadau ardal yn cael eu gweld hefyd fel ffynonellau gwybodaeth ar gyfer llywio cynlluniau llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac fel adnodd i helpu i gydgyssylltu cydweithredu gwell a gweithredu gan gyrrff gwahanol er mwyn rheoli adnoddau’n gynaliadwy.

4.4.20 *Bil Llywodraeth Leol (Cymru)*

4.4.21 Mae'r Bil yn caniatáu ar gyfer peth gwaith paratoadol penodol er mwyn galluogi rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol. Mae'r dystiolaeth a gafodd y panel, a gadarnhawyd drwy gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, yn awgrymu y bydd nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn gostwng o'r 22 presennol i naill ai 8 neu 9. Bydd hyn yn creu cynghorau a wardiau cyngor mwy o faint. Disgwylir i hyn arwain at lai o Gynghorwyr ar fyrddau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n cael eu hethol gan breswylwyr yn y Parciau Cenedlaethol oherwydd deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gynnal cydbwysedd gwleidyddol ymhlith eu haelodau (a.15 Llywodraeth Leol a Thai 1989).

4.4.22 *Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)*

4.4.23 Cyflwynwyd y Bil hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2015 ac mae ar y cam cyntaf ar hyn o bryd. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau sy'n:

- Caniatáu i Weinidogion Cymru ddod â gwaith heb ei awdurdodi ar henebion cofrestredig i ben ar unwaith a'i gwneud yn haws i roi camau ar waith yn erbyn rhai sydd wedi difrodi neu ddinistrio henebion;
- Galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os yw adeilad rhestredig dan fygythiad yn sgil gwaith heb ei awdurdodi a rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt ymdrin ag adeiladau hanesyddol sy'n galw am waith ar frys i'w diogelu rhag dirywiad pellach;
- Ei gwneud hi'n haws i berchnogion neu ddatblygwyr greu defnydd newydd cynaliadwy i adeiladau hanesyddol heb eu rhestru drwy lacio'r amodau ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag eu rhestru;
- Creu cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol Cymru;
- Caniatáu i berchnogion asedau hanesyddol drafod trefniadau partneriaeth gydag awdurdodau cydsynio am gyfnodau o flynyddoedd, gan ddileu'r angen i ailadrodd

ceisiadau am ganiatâd ar gyfer gwaith tebyg ac annog trefn fwy cyson a chydlynol o reoli'r adeiladau neu'r henebion;

- Sicrhau dyfodol mwy sefydlog i gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru sy'n darparu gwybodaeth a chynghor manwl ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd;
- Gwneud strwythurau sy'n bodoli eisoes ar gyfer dynodi asedau hanesyddol sy'n bwysig yn genedlaethol yn fwy agored a thryloyw drwy gyflwyno proses ymgynghori ffurfiol â pherchnogion a sefydlu mecanwaith ar gyfer adolygu penderfyniadau;
- Sefydlu panel annibynnol i gynghori ar bolisi a strategaeth amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

4.5 Cyd-destun Rhyngwladol

4.5.1 Mae'r Gweinidog wedi mynegi ei ddymuniad i weld tirweddau dynodedig Cymru yn datblygu'n enghreifftiau rhyngwladol o gynaliadwyedd. Er mwyn gwneud hynny, mae gwerthfawrogiad o'r cyd-destun rhyngwladol wedi'i gynnwys yn yr adolygiad hwn. Yn ein gwaith yn casglu tystiolaeth, rydym wedi dod o hyd i wersi o fodolau argymelledig o arfer gorau o'r tu hwnt i Gymru, ac wedi eu harchwilio a dysgu ohonynt.

4.5.2 Mae cydnabyddiaeth ryngwladol o statws gwarchoddedig a dynodedig, dan oruchwyliaeth yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), a'r Undeb Ewropeaidd wedi gosod meincnodau pwysig ar gyfer statws parhaus tirweddau dynodedig Cymru, yn enwedig ond nid yn unig ym meysydd cadwraeth, tirweddau a bioamrywiaeth.

4.5.3 Yr Alban

4.5.4 Pan aeth ati i ddynodi ei thirweddau, dilynodd yr Alban drywydd gwahanol i Gymru a Lloegr. Mae ganddi Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol, sy'n cyfateb i AHNE, a chafodd ei Pharciau Cenedlaethol eu creu gan Lywodraeth yr Alban yn fuan wedi iddi gael ei sefydlu, yn Neddf Parciau Cenedlaethol (Yr Alban) 2000. Er bod dau ddiben i'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, mae gan Barciau Cenedlaethol yr Alban bedwar diben neu "nod" – mae'r rhain wedi'u rhestru yn Nhabl 6 isod. Mae'r ddau ddiben ychwanegol yn hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol ac yn hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy yr ardal.

Gwarchod a gwella treftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal;

Hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yr ardal;

Hybu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd, yn cynnwys mwynhad ar ffurf hamdden, o rinweddau arbennig yr ardal;

Hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy cymunedau'r ardal.

4.5.5 *Ymhellach i ffwrdd*

4.5.6 Mae tirweddau dynodedig Cymru yn bodoli mewn cyd-destun byd-eang ac Ewropeaidd datblygol. Yn ei adroddiad "Putting Nature on the Map" (2014) mae'r IUCN yn egluro bod rhwymedigaethau rhyngwladol, yn fwy diweddar, wedi dylanwadu ar ddatblygiad ardaloedd gwarchodedig. Mae rhai'n deillio o'r ffaith fod Llywodraeth y DU yn aelod o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a chytundebau eraill, yn arbennig: y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Confensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO, Rhaglen Dyn a'r Biosffer UNESCO, Confensiwn Gwlyptiroedd Ramsar a rhaglen Geobarciau UNESCO. Deillia rhwymedigaethau rhyngwladol yn ymwneud â nodi, dynodi a gwarchod safleoedd o'n haelodaeth o'r UE hefyd. Mae llawer o'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau i'w gweld o fewn y tirweddau dynodedig.

4.5.7 Mor ddiweddar â 2014 cafodd tirweddau dynodedig Cymru eu dosbarthu'n ffurfiol gan yr IUCN fel ardaloedd gwarchodedig categori V, gan sicrhau eu lle o fewn system fyd-eang o diroedd a dyfroedd a reolir am resymau cadwraeth. Mae'r IUCN wedi nodi chwe mantais yn sgil y system ddosbarthu hon, ac maent i'w gweld yn Nhabl 7. Mae'n bosibl eu bod yn ddull o fesur a yw tirweddau dynodedig yn ateb her y Gweinidog i ddatblygu'n enghreifftiau rhyngwladol o gynaliadwyedd, ac adrodd ar hynny.

Darparu fframwaith i gasglu a thrafod data, gan arwain at well data, adroddiadau mwy credadwy a dull mwy dibynadwy o fesur cynnydd tuag at gyflawni targedau rhyngwladol.

Helpu i gyflawni mesurau cadwraeth natur ar lefel genedlaethol mewn sawl ffordd, fel cefnogi strategaethau cenedlaethol ar gyfer diogelu bywyd gwylt, cynllunio dulliau cadwraeth ar raddfa tirwedd, a chynnwys natur mewn cynlluniau datblygu.

Helpu i ddatgelu'r amrywiaeth o ddulliau o reoli ardaloedd gwarchoddedig a sut y gallant ategu ei gilydd mewn system ardaloedd gwarchoddedig genedlaethol..

Darparu dull cyson yn fyd-eang ar gyfer gwarchod y tir a'r môr yn seiliedig ar amcanion rheoli.

Helpu i nodi'r holl randdeiliaid amrywiol sy'n ymwneud â pherchnogaeth a rheoli ardaloedd gwarchoddedig, yn cynnwys ardaloedd a warchodir gan y wladwriaeth a mathau eraill o berchnogaeth a llywodraethu.

Gwella'r cyfathrebu a'r ddealltwriaeth rhwng pawb sy'n gweithio ym maes cadwraeth.

Tabl 7: Manteision system Gategoriâu Rheoli Ardaloedd Gwarchoddedig yr IUCN. Ffynhonnell: IUCN.

- 4.5.8 Mae'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn ddatblygiad rhyngwladol arall a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU yn 2007. Arwyddocâd y Confensiwn hwn yw ei ddiffiniad o "Dirwedd" fel:

"Mae ardal, fel y canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad o weithredu a rhyngweithiad ffactorau naturiol a/neu ddynol. "

(Cyngor Ewrop, Pennod 1, Erthygl 1a.)

- 4.5.9 Mae'r Confensiwn yn cydnabod pwysigrwydd pob tirwedd, ond mae hefyd yn darparu fframwaith rhyngwladol ar gyfer hybu trefniadau gwarchod, rheoli a chynllunio tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol yn ogystal â chyfnewid gwybodaeth a chymorth ledled Ewrop. Mae'n cynnig dull sy'n canolbwyntio ar bobl o gysoni trefniadau rheoli amgylcheddol gyda heriau economaidd-gymdeithasol cyfoes, gan helpu pobl a chymunedau i ailgysylltu â lleoedd.
- 4.5.10 Mae tirweddau dynodedig Cymru yn gweithredu o fewn, ac yn cyfrannu at rwydwaith Ewropeaidd ehangach o ardaloedd gwarchoddedig a sefydliadau cysylltiedig, a elwir ar y cyd yn Ffederasiwn EUROPARC. Mae'r Ffederasiwn yn gweithio i wella'r broses o reoli Ardaloedd Gwarchoddedig yn Ewrop drwy gydweithrediad rhyngwladol, rhannu syniadau a phrofiad, a thrwy ddylanwadu ar bolisi ar lefel Ewropeaidd.

4.6 Materion cyd-destunol arwyddocaol eraill

- 4.6.1 Yma, rydym yn cynnwys materion cyd-destunol ychwanegol sy'n arbennig o arwyddocaol wrth adolygu tirweddau dynodedig Cymru ac sydd wedi bod yn destun trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gyda'r cyhoedd a rhwng aelodau'r panel.

4.6.2 *Materion arfordirol*

4.6.3 Mae mwyafrif tirweddau dynodedig Cymru (5 o'r 8) yn cynnwys ardaloedd arfordirol ac mae'r rhyngweithio rhwng y tir a'r môr yn creu a gwella llawer o'u rhinweddau arbennig. Fodd bynnag, mae dynodi tirwedd a morwedd yn parhau i fod yn fater tirol. Yn dibynnu ar ble rydych yng Nghymru, gall hyn ddiweddu ar lefel y penllanw cymedrig neu'r distyll cymedrig. Felly mae angen i drefniadau llywodraethu'r tirweddau dynodedig fynd i'r afael â materion arfordirol.

4.6.4 *"Busnes anorffenedig"*

4.6.5 Er nad yw cylch gwaith y panel yn cynnwys dynodi tirweddau dynodedig newydd, neu addasu ffiniau, mae nifer o randdeiliaid wedi gofyn sut y mae adolygiad y panel yn berthnasol i'r hyn y maent yn ei ystyried yn "busnes anorffenedig". Mae'r ymadrodd yn awgrymu nad yw'r broses o ddynodi tirweddau yng Nghymru wedi'i chwblhau mewn unrhyw fodd a bod yna achosion sy'n dal i ddisgwyl am atebion boddhaol.

4.6.6 *Materion trawsffiniol*

4.6.7 I adlewyrchu ei natur wreiddiol fel dynodiad yng Nghymru a Lloegr, mae un o'r tirweddau dynodedig, AHNE Dyffryn Gwy yn pontio'r ffin. Mae tua thraean ohoni wedi'i dynodi yng Nghymru, a cheir gorchymyn dynodi arall ar ochr Lloegr i'r Afon Gwy rhwng Henffordd a Chas-gwent.

4.6.8 *Technoleg*

4.6.9 Mae tueddiadau technolegol a'r ffaith ei bod hi'n haws cael gafael ar gyfarpar cyfathrebu cymharol soffistigedig wedi dileu natur anghysbell y tirweddau dynodedig i bobl Cymru. Bydd technoleg yn dod yn fwy a mwy perthnasol ym meysydd datblygu gwledig, monitro amgylcheddol, hyrwyddo a mynediad ac mae'n debygol hefyd o ddylanwadu ar ddatblygiad tirweddau dynodedig yn y dyfodol mewn ffyrdd na allwn eu rhagweld.

4.6.10 Rydym yn ymwybodol o'r cyfraniad sylweddol y mae tirweddau dynodedig eisoes yn ei wneud i'r meysydd polisi canlynol. Cawsom dystiolaeth gan y swyddogion Llywodraeth

Cymru sy'n gyfrifol er mwyn deall polisi, canfod y rhyngweithiad rhwng y llywodraeth a'r cyrff sy'n gyfrifol am gyflawni polisiau Llywodraeth Cymru yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE, a phenderfynu ar botensial tirweddau dynodedig i gyflawni dros eu hardaloedd, yn enwedig yng nghyd-destun tri diben newydd.

4.6.11 Iechyd a Llesiant

4.6.12 Mae poblogaeth Cymru mewn perthynas ag ystod o fesurau iechyd a llesiant wedi bod yn dirywio, ac mae'r anghydraddoldebau a'r risgiau gofodol wedi bod yn cynyddu. Amcangyfrifir bod anweithgarwch corfforol yn costio £650 miliwn y flwyddyn i Gymru. Mae un o bob pedwar oedolyn yn dioddef problemau neu salwch iechyd meddwl, ac mae cost flynyddol iechyd meddwl yn £7.2 biliwn. Gall cysylltiad goddefol neu lai egniol â manau gwyrdd fod yn adferol yn seicolegol ac yn ffisiolegol, a gostwng pwysedd gwaed a lefelau straen.

4.6.13 Twf Gwyrdd

4.6.14 Mae Llywodraeth Cymru am i Gymru fod yn arweinydd byd o ran twf gwyrdd, a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffyrdd sy'n hybu twf economaidd a sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae am greu amgylchedd lle gall busnesau fuddsoddi, gan greu'r amodau i feithrin ac ysgogi'r agenda twf gwyrdd a'r economi werdd yn ei chyfanrwydd.

4.6.15 Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

4.6.16 Yng Nghymru, mae Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE sy'n newid yn dal i fod yn ysgogiad pwysig i arferion rheoli tir yn y tirweddau dynodedig, ac yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei rownd gyntaf o becynnau ariannu Datblygu Gwledig (Colofn Dau). Mae'r rhain yn cwmpasu datblygu gwledig cymunedol, grantiau cynhyrchu cynaliadwy, cronfeydd buddsoddi mewn busnesau bwyd a grantiau cydweithredu. Mae Glastir hefyd yn gynllun amaeth-amgylcheddol mawr sy'n debygol o effeithio ar y tirweddau. Mae ymgynghoriad ar strategaeth a fframwaith amaethyddol cenedlaethol newydd i Gymru ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos nad oes fawr o gysylltiad ar hyn o bryd rhwng trafodaethau polisi'n ymwneud ag amaethyddiaeth a bwyd a'r tirweddau dynodedig.



Gweithio gyda'r gymuned amaethyddol i ddangos bod gwerth i rostir wedi ei reoli'n dda o ran cynhyrchiant amaethyddol drwy brosiect Clwydian Lamb yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Llywodraethu Tirweddau Dynodedig Cymru

1. Cyflwyniad


Ar hyn o bryd mae tri Pharc Cenedlaethol a phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ddynodedig yng Nghymru. Maent yn 25% o gyfanswm arwynebedd tir y wlad, a'r tirweddau hyn yw'r goreuon yng Nghymru. Mae'r tirweddau yn hynod bwysig am sawl rheswm, gan gynnwys eu pwysigrwydd fel rhan o wead diwylliannol Cymru, eu harddwch unigryw, eu rhywogaethau ac ecosystemau amrywiol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol a'u defnydd fel tirweddau ymarferol ar gyfer busnesau amrywiol a chymunedau lleol. Mae Ffigur 2 yn dangos tirweddau dynodedig Cymru mewn cyd-destunau lleol ehangach a hierarchaeth llywodraethu mewn perthynas â thirweddau dynodedig.

Er mwyn i ni wneud argymhellion ynglŷn â systemau llywodraethu'r tirweddau dynodedig, roedd angen deall y sefyllfa bresennol yn drylwyr. O ganlyniad, mae'r bennod hon yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer rheoli tirweddau dynodedig yng Nghymru. Mae'n trafod amrywiaeth o agweddau gan gynnwys cyfluniad y trefniadau ariannol sy'n cyllido gwaith gan gynrychiolwyr ar gyfer tirweddau dynodedig, natur y gynrychiolaeth mewn sefydliadau tirweddau dynodedig, rheoli defnydd tir ar dirweddau dynodedig a sut mae'r broses cynlluniau rheoli sy'n pennu'r agenda ar gyfer gweithredu ac yn darparu'r weledigaeth ar gyfer rheoli'r tirweddau hyn yn cael ei rhoi ar waith.

Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys enghreifftiau o lywodraethu da ym maes tirweddau dynodedig yng Nghymru. Amlygir llywodraethu da gan y canlyniadau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r amrywiaeth eang o brosiectau sy'n seiliedig ar gydweithio llwyddiannus â sefydliadau eraill a chymunedau lleol. Mae'r rhain yn mynd y tu hwnt i gyflawni dibenion statudol tirweddau dynodedig.

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi enghreifftiau o fodolau llywodraethu eraill a gafodd eu hargymell i'r panel mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, ynghyd â phwyntiau perthnasol eraill a gododd yn ystod yr adolygiad o wybodaeth ar-lein.

Ffigur 2: Cyd-destun llywodraethu tirweddau dynodedig



1. Beth yw llywodraethu tirweddau dynodedig?

Mae llywodraethu yn derm amlweddol sy'n cwmpasu'r sefydliadau, y rheolau, yr arferion a'r trefniadau rhwng grwpiau perthnasol sy'n penderfynu sut mae rhywbeth (tirweddau dynodedig yng Nghymru yn yr achos hwn) yn cael ei reoli. Er mwyn rheoli'r tirweddau hyn er budd parhaol pawb yng Nghymru, mae angen trefniadau llywodraethu sy'n adlewyrchu anghenion a dymuniadau grwpiau o bobl amrywiol ac yn sicrhau cydbwysedd rhyngddynt. Rhaid sicrhau hefyd nad yw priodweddau arbennig y tirweddau hyn yn cael eu dileu, a'u bod yn cael eu gwarchod/diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae amrywiaeth eang o grwpiau yn cyfrannu at dirweddau dynodedig a'r broses o'u llywodraethu. Maent o bwysigrwydd cenedlaethol i bawb yng Nghymru ac felly o ddiddordeb i randdeiliaid polisi amrywiol ar lefel genedlaethol yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r adolygiad hwn o Dirweddau Dynodedig yn seiliedig ar y syniad bod llywodraethu da o'r ardaloedd hyn yn hanfodol o ystyried ansawdd a phwysigrwydd y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE. Mae rôl a phwysigrwydd y tirweddau hyn yn mynd y tu hwnt i'w ffiniau, ond eto mae'n rhaid cofio bod pobl yn byw ynddynt a'u bod yn gartref i gymunedau a diwydiannau sy'n cynnal ac yn llywio'r tirweddau. Mae llywodraethu da yn ymwneud â llawer mwy na diogelu'r tirweddau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; mae hefyd yn ymwneud â'u gwella a sicrhau eu bod o bwysigrwydd dihafal yng Nghymru am flynyddoedd i ddod. Mae'r egwyddorion hyn eisoes yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) sy'n nodi bod Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn dirweddau a morweddau gwarchodedig dosbarth V, sy'n cael eu disgrifio fel a ganlyn:

“Lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi cynhyrchu cymeriad pendant gyda gwerth ecolegol, biolegol, diwylliannol a golygfaol arwyddocaol: a lle mae diogelu cyfanrwydd rhyngweithiad hwn yn hanfodol i ddiogelu a chynnal yr ardal a'i gadwraeth natur gysylltiedig â gwerthoedd eraill.” (Day et al, tudalen 10, 2008)

Mae adroddiad yr ICUN ar gyfer llywodraethu ardaloedd gwarchodedig, (Borrini-Feyerabend et al, 2013) yn cyflwyno egwyddorion llywodraethu da. Mae'r egwyddorion hyn yn cwmpasu pum prif faes: dilysrwydd a llais, cyfeiriad, perfformiad, atebolrwydd, a thegwch a hawliau. Mae Tabl 8 yn dod o adroddiad yr IUCN sy'n dangos y nodweddion allweddol sy'n gwahaniaethu'r pum egwyddor ac yn dangos rhai o'r deuliaethau y mae'n

rhaid i asiantaethau sy'n llywodraethu tirweddau dynodedig eu goresgyn er mwyn gweithredu'n effeithiol.

Tabl 8 Egwyddorion llywodraethu da IUCN ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig

Egwyddorion	Ystyriaethau yn ymwneud â'r egwyddorion
Dilysrwydd a Llais	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu a chynnal sefydliadau llywodraethu sy'n cael eu derbyn a'u gwerthfawrogi gan gymdeithas yn gyffredinol Sicrhau bod yr holl ddeiliaid hawliau a rhanddeiliaid perthnasol yn derbyn gwybodaeth briodol a digonol, yn gallu cael eu cynrychioli ac yn gallu dweud eu dweud o safbwynt cyngori a/neu wneud penderfyniadau Meithrin ymgysylltu gweithredol cyfranwyr cymdeithasol er mwyn cefnogi ardaloedd gwarchoddedig, gan sicrhau amrywiaeth a chyraddoldeb rhwng y rhywiau Rhoi cymorth arbennig i grwpiau sy'n agored i niwed, fel pobloedd cynhenid, menywod a phobl ifanc, ac atal gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, rhyw, dosbarth cymdeithasol, asedau ariannol a catti Cynnal deialog weithredol a cheisio sicrhau cydsyniad ar gyfer atebion sy'n bodloni, yn rhannol o leiaf, pryderon a buddiant pawb Hyrwyddo parch rhwng y naill at y llall ymysg yr holl ddeiliaid hawliau a rhanddeiliaid Parchu rheolau sydd wedi'u cytuno, sy'n cael eu parchu oherwydd bod y bobl yn "berchen" arnynt ac nid oherwydd ofn gormes a chosb I'r graddau posibl, priodoli awdurdod a chyfrifoldeb rheoli i'r sefydliadau medrus sy'n agos at adnoddau naturiol (is-gorff)
Cyfeiriad	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu a dilyn gweledigaeth strategol gyffrous a chyson (safbwynt eang, hirdymor) ar gyfer yr ardaloedd gwarchoddedig a'u hamcanion cadwraeth, sy'n seiliedig ar werthoedd sydd wedi'u cytuno a gwerthfawrogiad o'r cymhlethdodau ecolegol, hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n unigryw i bob cyd-destun Sicrhau bod arferion llywodraethu a rheoli ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig yn gyson â'r gwerthoedd cyffredin Sicrhau bod arferion llywodraethu a rheoli ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig yn ategu ac yn cyd-fynd yn dda â chynlluniau a pholisïau lefelau a sectorau eraill yn y dirwedd/forwedd ehangach a'u bod yn parchu rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol (gan gynnwys CBD PoWPA) Darparu cyfarwyddiadau polisi clir yn ymwneud â phrif feysydd pryder yr ardal warchoddedig, gan ganolbwyntio ar faterion dadleuol (e.e. blaenoriaethau cadwraeth, y berthynas â buddiannau masnachol a diwydiannau echdynnol) a sicrhau eu bod yn gyson â dyraniadau cyllidebol ac arferion rheoli Gwerthuso ac arwain cynnydd ar sail canlyniadau monitro rheolaidd a dull rheoli addasol ymwybodol Ffario ymddangosiad hyrwyddwyr, creu syniadau newydd a chaniatáu/hyrwyddo profion dulliau arloesi, gan gynnwys arloesi ym maes llywodraethu a rheoli ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig
Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni amcanion cadwraeth ac amcanion eraill yn unol â'r gwaith cynllunio a monitro, gan gynnwys drwy werthuso effeithiolrwydd rheoli yn gyson Hyrwyddo diwylliant dysgu ar gyfer polisi ac arferion llywodraethu ardaloedd gwarchoddedig ar sail mecanweithiau, adnoddau a phartneriaeth sy'n hyrwyddo dysgu cydweithredol parhaus a chroesffurwythloni profiad Cymryd rhan mewn gwaith eiriolaeth ac allgymorth er budd ardaloedd gwarchoddedig Bod yn ymatebol i anghenion deiliaid hawliau a rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy ymateb yn amserol ac yn effeithiol i ymchwiliadau a galw rhesymol am newid arferion llywodraethu a rheoli Sicrhau bod gan staff, deiliaid hawliau a rhanddeiliaid ardaloedd gwarchoddedig, fel sy'n briodol, y galluoedd gofynnol i gyflawni eu swyddogaethau a chyfrifoldebau rheoli, a bod y galluoedd hynny'n cael eu defnyddio yn effeithiol Defnyddio adnoddau ariannol yn effeithlon a hyrwyddo cynaliadwyedd ariannol Hyrwyddo cynaliadwyedd a chadernid cymdeithasol, h.y. y gallu i reoli risgiau, goresgyn yr argyfyngau anochel a dod yn gyfach yn sgil y profiad
Atebolrwydd	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal uniondeb ac ymrwymiad pawb sydd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer yr ardaloedd gwarchoddedig Sicrhau tryloywder, gyda deiliaid hawliau a rhanddeiliaid yn cael mynediad amserol i wybodaeth am: beth sydd yn y fantol wrth wneud penderfyniadau; pa brosesau a sefydliadau sy'n gallu cael dylanwad; pwy sy'n gyfrifol am beth; a sut i sicrhau bod y bobl hyn yn atebol Rhannu swyddogaethau ar gyfer yr ardaloedd gwarchoddedig mewn ffordd glir a phriodol, a gwneud yr un peth ar gyfer llinellau cyfrifoldeb ac adrodd/atebolrwydd Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a dynol sy'n cael eu dyrannu i reoli'r ardaloedd gwarchoddedig yn cael eu targedu'n briodol yn unol ag amcanion a chynlluniau hysbys Gwerthuso perfformiad yr ardal warchoddedig, ei phenderfynwyr a'i staff, a chysylltu ansawdd canlyniadau â gwobrwyon a sancsiynau priodol a diriaethol Sefydlu llwybrau cyfathrebu (e.e. gwefannau) lle mae modd cael gafael ar gofnodion ac adroddiadau perfformiad ardaloedd gwarchoddedig Hyrwyddo adborth ar berfformiad gan grwpiau cymdeithas sifil a'r cyfryngau Sicrhau bod gan un sefydliad cyhoeddus annibynnol neu fwy (e.e. ombwdsmon, comisiwn hawliau dynol, asiantaeth archwilio) yr awdurdod a'r gallu i oruchwylio a chwestiynu camau gweithredu cyrff llywodraethu a staff yr ardaloedd gwarchoddedig
Tegwch a Hawliau	<ul style="list-style-type: none"> Ceisio sicrhau bod costau a manteision yn cael eu rhannu'n gyfartal wrth sefydlu a rheoli ardaloedd gwarchoddedig a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud mewn ffordd deg Sicrhau nad yw'r ardaloedd gwarchoddedig yn cael effaith niweidiol ar fywoliaeth pobl sy'n agored i niwed; nad yw ardaloedd gwarchoddedig yn creu neu'n ychwanegu at dlodi a phatrymau mudol sy'n tarfu ar gymdeithas; a bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwarchoddedig, yn enwedig pobl sy'n agored i niwed, yn cael eu digolledu am unrhyw gostau Sicrhau bod gwaith cadwraeth yn cael ei wneud mewn ffordd weddus ac urddasol, heb sarhau na niweidio pobl Trin staff a gweithwyr dros dro'r ardaloedd gwarchoddedig mewn ffordd deg Sicrhau bod deddfau a rheoliadau yn cael eu gorfodi mewn ffordd ddiduedd a chyson, heb wahaniaethu yn erbyn neb ac

	<p>yn rhoi hawl i bobl apelio (rheol y gyfraith)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi camau cadarn ar waith i barchu hawliau sylweddol (cyfreithiol neu ddefodol, cyfunol neu unigol) dros dir, dŵr ac adnoddau naturiol mewn perthynas ag ardaloedd gwarchoddedig, a mynd i'r afael ag achosion yn y gorffennol o wadu'r hawliau hyn • Rhoi camau cadarn ar waith i barchu hawliau gweithdrefnol yn ymwneud â materion ardaloedd gwarchoddedig, gan gynnwys: gwybodaeth briodol ac ymgyngori â deiliaid hawliau a rhanddeiliaid; arferion rheoli gwrthdaro teg; a hawl i gyfiawnder heb wahaniaethu • Parchu hawliau dynol, gan gynnwys hawliau unigol a chyfunol, a chydraddoldeb rhwng y rhywiau • Parchu hawliau pobloedd brodorol yn unol â disgrifiad Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobloedd Brodorol²⁸⁴ • Sicrhau cydsyniad rhydd, ymlaen llaw ac ar sail gwybodaeth pobloedd brodorol ar gyfer unrhyw adsefydlu arfaethedig yn ymwneud ag ardaloedd gwarchoddedig • Hyrwyddo ymgysylltu gweithredol deiliaid hawliau a rhanddeiliaid wrth sefydlu a llywodraethu ardaloedd gwarchoddedig
--	---


Cysylltiadau allweddol rhwng cyrff Llywodraeth Cymru a thirweddau dynodedig yng Nghymru

Mae adran 4.2 yn cyflwyno dibenion a dyletswyddau Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Mae hyn yn egluro sut mae unrhyw wrthdaro posibl yn ymwneud â dibenion Parc Cenedlaethol yn cael eu datrys drwy Egwyddor Sandford, a sut mae Prawf Silkin, wedi'i godeiddio drwy Bolisi Cynllunio Cymru, yn nodi'r asesiadau sydd angen eu cwblhau ar gyfer cynigion datblygu mawr mewn tirweddau dynodedig.

Mae Tirweddau Dynodedig yn rhan o seilwaith Llywodraeth Cymru. Mae Ffigur 3 yn dangos y berthynas glir rhwng y ddau ddynodiad tirwedd a Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), llywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dirprwyo nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol ar gyfer tirweddau dynodedig i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae Erthygl 5A o Orchymyn Swyddogaethau CNC 2013 yn nodi bod gan CNC gyfrifoldeb cyffredinol i: 'hybu cadwraeth natur a chadwraeth a gwelliant harddwch naturiol ac amwynder' wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae Ffigur 3 yn dangos y cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u dirprwyo i CNC gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a etifeddodd CNC pan unodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i greu CNC. Mae'r elfennau yn ymwneud ag ariannu, aelodau byrddau tirweddau dynodedig a pharatoi cynlluniau rheoli yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ffigur 3: Cyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraeth leol a chenedlaethol ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru



Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau lleol ag un pwrpas ac maent hefyd wedi'u dynodi'n Awdurdodau Gwella Cymreig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (LGM, 2009). O dan LGM 2009, mae'n rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wneud trefniadau bob blwyddyn i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn penderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i wella. Os penderfynir bod Awdurdod Parc Cenedlaethol yn methu gwella, gall Gweinidogion Cymru ymyrryd drwy Swyddfa Archwilio Cymru a rhoi cyfarwyddyd i'r Awdurdod:

- Baratoi neu ddiwygio cynllun gwella
- Cynnal adolygiad o'i swyddogaethau penodedig
- Dechrau cydweithio ag awdurdod gwella arall
- Pennu amcanion gwella penodedig. (Llywodraeth Cymru, t.5, 2011)

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Mae cyllid a gwariant Parciau Cenedlaethol yn cael eu llywodraethu gan nifer o ddarpariaethau statudol sy'n rhoi dyletswyddau ar Awdurdod Parc Cenedlaethol fel sefydliad ac ar swyddogion penodol. Mae yna ddwy agwedd gyffredin ar y strwythur llywodraethu hwn: y swyddogaeth gyllidebu, ariannu ac archwilio a'r swyddogaeth dendro. Mae siartiau llif manwl yn ymwneud â'r agweddau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiadau VII-VIII ac maent yn seiliedig ar ddull gweithredu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog². Defnyddir fframweithiau llywodraethu'r Awdurdod hwn fel enghraifft o'r math o fframwaith llywodraethu sydd ei angen i sicrhau bod gwaith ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol presennol. Er bod y broses o ddatblygu trefniadau llywodraethu pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn wahanol, at ei gilydd maen nhw i gyd yn cyflawni'r un swyddogaeth ac yn arwain at yr un canlyniadau.

Mae Atodiad VII yn dangos bod pob Awdurdod Parc Cenedlaethol, fel corff statudol, wedi'i rwyngu gan ddeddfwriaeth llywodraeth leol sy'n gosod dyletswyddau arno a'i swyddogion, ac ar y swyddog adran 151 yn bennaf, sy'n fwy adnabyddus fel y Prif Swyddog Cyllid (CFO). Mae'r CFO, ynghyd â'i reolwr ariannol, y swyddog monitro a'r Prif Weithredwr, yn

² Defnyddir fframweithiau llywodraethu'r Awdurdod hwn fel enghraifft o'r math o fframwaith llywodraethu sydd ei angen i sicrhau bod gwaith ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol presennol. Er bod y broses o ddatblygu trefniadau llywodraethu pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn wahanol, at ei gilydd maen nhw i gyd yn cyflawni'r un swyddogaeth ac yn arwain at yr un canlyniadau.

gyfrifol am gyllidebu, rheoli ariannol a threfnu archwiliadau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio a'u gwirio'n allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae cyllid Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn dod o bedair prif ffynhonnell: grant Llywodraeth Cymru (lefel genedlaethol); ardoll Llywodraeth Leol (er bod awdurdodau lleol yn cael eu digolledu am yr ardoll hon gan Lywodraeth Cymru); ceisiadau grant llwyddiannus ar gyfer prosiectau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau; ac incwm sy'n deillio o asedau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bob blwyddyn mae Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Barciau Cenedlaethol³ yn cyhoeddi llythyr grantiau strategol sy'n nodi blaenoriaethau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol am y flwyddyn sy'n dod, ac yn nodi lefel y Grant Cenedlaethol a lefel ardollau Llywodraeth Leol am y flwyddyn. Mae'r Grant Cenedlaethol yn gyfrifol am 75% o gyllid uniongyrchol y llywodraeth ac mae'r 25% arall yn dod o ardollau llywodraeth leol. Mae'r ardollau llywodraeth leol yn cael eu cytuno yn unol ag A.71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru), fel y'i diwygiwyd. Os yw ffin Parc Cenedlaethol o fewn mwy nag un awdurdod lleol, mae cyfran yr ardoll y mae pob awdurdod lleol yn ei thalu yn cael ei phennu gan fformiwla y cytunir arno ymlaen llaw. Mae hyn yn berthnasol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (SNPA, 2014).

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn llwyddo i godi arian drwy geisiadau am grantiau. Mae lefel y cyllid grant yn amrywio bob blwyddyn gan ddibynnu ar yr amrywiaeth o gyfleoedd ariannu sydd ar gael a pha mor llwyddiannus yw ceisiadau pob Awdurdod. Yn 2013-2014, daeth 14-25%⁴ o holl gyllid Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ffynonellau cyllid grant. Mae rhai o'r ffynonellau cyllid grant yn deillio'n uniongyrchol o Lywodraeth Cymru drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Croeso Cymru neu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae'r ffynonellau amrywiol wedi'u rhestru yn nhabl 9:

³ Dylid nodi bod yr adran sy'n gyfrifol am Barciau Cenedlaethol wedi newid dros amser, felly mae'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb wedi newid mewn ymateb i bortffolios deddfwriaethol Gweinidogol gwahanol.

⁴ Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cyfuno ei gyllid grant ag incwm arall o ffioedd, gan gynyddu'r ganran o ganlyniad. Dylid nodi bod Bannau Brycheiniog a Sir Benfro wedi cofnodi cyllid grant o tua 15%.

Tabl 9: Ffynonellau cyllid grant Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar sail cyfrifon 2013/14



Cyfoeth Naturiol Cymru	Cymorth Grant Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Cynllun Grantiau Trefi Hanesyddol
Llywodraeth Cymru - Cynllunio	Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy/OFGEM
Llywodraeth Cymru - Croeso Cymru	Y Cerddwyr
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Y Gronfa Loteri Fawr
Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd	Cynllun Collabor8 yr UE
Cadw	Grantiau Awdurdodau Lleol eraill

Ffynonellau: BBNPA (2014), SNPA (2014), PCNPA (2014)



Mae modd derbyn cyllid grant ar gyfer prosiectau sy'n para mwy na blwyddyn, ac o ganlyniad gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gynnal cyfrifon wrth gefn sy'n dyrannu arian fel incwm yn erbyn gwariant yn ystod y flwyddyn. Mae'r siartiau cylch yn ffigurau 4-6 yn dangos y mathau gwahanol o incwm a gwariant ar gyfer y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn 2013/14. Maent yn dangos bod cymarebau gwario'r Byrddau yn debyg iawn, er bod gwahaniaethau bach rhyngddynt. Er enghraifft, gwariodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fwy fel cyfran ar reoli datblygu yn 2014, a gwariodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fwy ar ddiogelu adeiladau hanesyddol⁵.

⁵ Mae'n bosibl bod costau rheoli datblygu uwch Bannau Brycheiniog i'w priodoli i gyfran uwch y boblogaeth drefol sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri brosiect sy'n parhau, sef datblygu a diogelu cartref y bardd Hedd Wyn, Yr Ysgwrn.



Ffigur 4: Siartiau cylch incwm a gwariant ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2013-2014



Ffigur 5: Siartiau cylch incwm a gwariant ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2013-2014.



Ffigur 6: Siartiau cylch incwm a gwariant ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn 2013-2014.



Mae swyddogaeth dendro Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i'w gweld yn Atodiad VIII, ac mae modd ei gwahanu'n dair adran allweddol: cydymffurfio â deddfwriaeth statudol, diffinio partïon addas (naill ai fel contractwyr neu hysbysebwr) a'r broses dendro ei hun. Fel cyrff cyhoeddus sy'n defnyddio cyllid cyhoeddus, mae'n rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gydymffurfio â Chytuniad Rhufain, adrannau o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 (LGA 1988) a Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir (1980). Mae'r Awdurdodau'n gallu diffinio'r llefydd addas i hysbysebu contractau yn ogystal â'r rhestr gymeradwy sy'n cael ei chadw gan y corff tendro cyhoeddus, Gwerth Cymru.

Un llwybr sy'n cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yw proses dendro ddethol sy'n gwahodd tendrau gan gontractwyr sydd ar restr gymeradwy. Mae'r rhestr gymeradwy o gontractwyr yn cynnwys contractwyr sydd ar restr Contractwyr y Cytundeb Fframwaith sydd wedi'i chymeradwyo gan wasanaeth Gwerthu Cymru Llywodraeth Cymru drwy ei restr caffael gymeradwy. Neu fe allent fod ar restr o gontractwyr cymeradwy a luniwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei hun. Mae rhestr gymeradwy'r Awdurdod yn cael ei hysbysebu ac mae gan ddarpar gontractwyr newydd yr hawl i wneud cais i fod ar y rhestr, yn ogystal â'r hawl i gael esboniad ysgrifenedig os yw eu cais yn aflwyddiannus. Mae'r broses dendro ei hun wedi'i gwahanu ar sail contractau mawr a bach. Mae modd dyfarnu contractau bach yn fwy anffurfiol tra bod angen gweithdrefnau mwy ffurfiol i ddyfarnu contractau mawr. Mae'r gwerthoedd ar gyfer contractau sy'n diffinio pa fath o broses dendro sy'n cael ei defnyddio yn amrywio rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ond mae'r prosesau'n debyg yn eu hanfod.

4.2 Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Mae AHNE yn derbyn eu cyllid craidd gan yr Awdurdodau Lleol lle maent wedi'u lleoli. Mae AHNE yn gwneud cais am gyllid grant i ffynonellau amrywiol hefyd. Nid yw sefyllfa ariannol AHNE yn destun yr un lefel o graffu uniongyrchol, nid ydynt yn adrodd yn uniongyrchol i Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid ydynt yn cadw cyfrifon sy'n dangos eu ffynonellau incwm a'u gwariant.

Roedd tystiolaeth swyddogion AHNE i'r Panel yn awgrymu bod eu sefyllfa ariannol yn fregus ac yn tueddu i newid, sy'n golygu bod y gwaith o wella a diogelu AHNE yn heriol iawn. Mae Tabl 10 yn dangos crynodeb o gyllid a gwariant AHNE. Gofynnodd y panel i swyddogion AHNE am y wybodaeth hon wrth gasglu tystiolaeth:

Tabl 10: Crynodeb o gyllid dewisol a gwariant ar gyfer AONBs yn 2013/14

	Isafswm	Uchafswm	Nifer yr AONBs a'r ffynhonnell gyllido hon
Ffynonellau Cyllid Dewisol			
CNC	41,300	113,021	5
Cronfa Datblygu Cynaliadwy	70,000	99,315	5
Cynllun Datblygu Gwledig	33,325	286,400	2
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	2,620	2,620	1
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	2,539	71,600	2
Awdurdod Lleol	15,692	208,405	5
Croeso Cymru	10,000	10,000	1
DEFRA	116,449	116,449	1
Cronfa Datblygu Cynaliadwy (Lloegr)	5,552	5,552	1
Cyfraniadau partneriaethau	201,415	201,415	1
	171,000	550,700	
Gwariant			
Staff a theithio	38,000	296,860	
Cyllideb Weithredol	8,967	26,597	
Gwaith prosiect	61,033	448,000	
	108,000	550,700	

Mae gwahaniaethau rhwng graddfa gwaith/maint AHNE unigol yn rhannol gyfrifol am yr amrywiadau yn y cyllid cyffredinol, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng nifer a graddfa prosiectau gweithredol⁶. Mae pob un o'r pump AHNE yn derbyn arian o dair ffynhonnell gyllido (Awdurdodau Lleol, CNC a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy), ond mae ffynonellau eraill yn unigryw i AHNE unigol. Er enghraifft, mae prosiect yn AHNE Môn yn derbyn cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac mae AHNE Dyffryn Gwy yn derbyn cyllid gan

⁶ Mae'n bosibl hefyd bod gweithgareddau/prosiectau yn mynd rhagddynt mewn AHNE sy'n gysylltiedig â dibenion AHNE nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan dîm yr AHNE ac nad ydynt yn ymddangos fel incwm a gwariant yn eu tystiolaeth.

DEFRA a Chronfa Datblygu Cynaliadwy Lloegr oherwydd ei lleoliad yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n anos crynhoi'r data ar wariant gan fod pob AHNE yn rhoi cyfrif am ei gweithgareddau mewn ffordd ychydig yn wahanol, gyda rhai'n defnyddio dull dyrannu prosiectau ac eraill yn defnyddio dull cyfrifyddu mwy traddodiadol. I ryw raddau, mae costau staffio a phrosiectau yn gyfnewidiadwy gan y gallai amser swyddogion gael ei neilltuo ar gyfer gwaith prosiect, neu fe allai gwariant prosiectau ar staffio gael ei fynegi fel cost staff yn hytrach na gwariant ar brosiectau. Mae manylion penodol yn ymwneud â rhai o brosiectau AHNE i'w gweld yn y detholiad o astudiaethau achos yn Atodiad IV, sy'n cael eu trafod yn adran 8.

2. Llywodraethu Cynllunio Defnydd Tir

Mae Llywodraethu Defnydd Tir yn cynnwys dau brif faes allweddol, sef cynllunio datblygiadau a rheoli datblygiadau. Mae cynllunio datblygiadau yn ymwneud â chreu Cynllun Datblygu Lleol sy'n rhoi canllawiau ar y mathau o ddatblygiadau sy'n cael eu caniatáu. Mae rheoli datblygiadau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a gorfodi, sy'n cael eu penderfynu yn unol â'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

5.1 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chynllunio Defnydd Tir

Un maes lle mae gwahaniaethau sylweddol rhwng Parciau Cenedlaethol ac AHNE yw llywodraethu Defnydd Tir. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu hystyried yn awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio, gyda'u pwerau yn y cyswllt hwn wedi'u dirprwyo iddynt o dan A.101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan awdurdodau lleol. Mae tri goblygiad allweddol yn ymwneud â rheoli tirweddau dynodedig yn deillio o'r ffaith fod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gyfrifol am gynllunio:

- Mae'n rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol fod â'r holl seilwaith a staff sydd eu hangen arno i gyflawni ei ddyletswyddau rheoli datblygiadau;
- Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifon am greu'r Cynllun Datblygu Lleol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill;
- Mae modd mynegi dyletswyddau a dibenion y Parc Cenedlaethol yn llawn drwy'r cynllun datblygu lleol a'r broses rheoli datblygiadau.

Mae'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n sylfaen i'r system gynllunio yn y DU a Chymru yn helpu i lunio'r fframweithiau llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o safbwynt cynllunio a gorfodi cynllunio. Mae Atodiadau IX ac X yn cyflwyno'r fframwaith llywodraethu, a defnyddiwyd dogfennau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'w baratoi. Mae wedi'i rannu rhwng fframwaith cynllunio cyffredinol yn Atodiad IX a fframwaith gorfodi yn Atodiad X. Mae'r fframweithiau cynllunio yn Atodiad IX yn ganllaw ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau cynllunio Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gyda'r aelodau naill ai'n dirprwyo penderfyniadau cynllunio i swyddogion cynllunio neu'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar sail adroddiadau gan swyddogion cynllunio. Mae'r protocol cynllunio sy'n sylfaen i Atodiad IX hefyd yn cynnwys mesurau sy'n mynd i'r afael â dyletswyddau aelodau yn ymwneud â dylanwad gormodol gan drydydd partion neu ganddyn nhw eu hunain ar swyddogion cynllunio, gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n ceisio gwella penderfyniadau cynllunio, yn ogystal â hysbysu aelodau a swyddogion am yr amgylchiadau lle y gall trydydd partion fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Cymru ymyrryd yn y broses gynllunio (BBNPA, 2014b).

5.2 AHNE a Chynllunio Defnydd Tir

Yr awdurdodau lleol perthnasol sy'n gyfrifol am greu Cynlluniau Datblygu Lleol ac am reoli datblygiadau mewn AHNE. Mae Canllawiau Cenedlaethol drwy Polisi Cynllunio Cymru yn pennu'r cyd-destun ar gyfer penderfyniadau gan adrannau cynllunio awdurdodau lleol sy'n effeithio ar AHNE. I bob diben, mae datganiadau Polisi Cynllunio Cymru yn golygu bod lefel gwarchodaeth AHNE yn debyg iawn i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru:

'Dylai polisiau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio ar AHNE ffafrio diogelu harddwch naturiol, er mai priodol hefyd fydd ystyried lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd.' (Polisi Cynllunio Cymru, t.73, 2014)

'Yr un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn nhermau harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd a rhaid diogelu'r ddau yn llwyr rhag datblygiadau anaddas. Mae'r statws cyfwerth hwn yn golygu bod rhaid trin Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn yr un modd mewn polisiau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE, dylai polisiau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu roi pwys mawr ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn.' (Polisi Cynllunio Cymru, t.73, 2014)

Fel arfer, nid oes gan swyddogion AHNE unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar benderfyniadau cynllunio, ac eithrio yn AHNE Llŷn a Môn lle mae swyddog yr AHNE hefyd yn un o swyddogion cynllunio'r awdurdod lleol. Yn y tair AHNE arall mae amrywiaeth o brosesau ymgysylltu ar waith rhwng yr AHNE, y Cyd-bwyllgorau Cynghori neu'r Partneriaethau a'u hadrannau cynllunio perthnasol.

Mae cofnodion cyfarfodydd AHNE Gŵyr yn dangos bod Grŵp Partneriaeth Gŵyr yn trafod newidiadau i Gynllun Datblygu Lleol Abertawe, er enghraifft canolbwyntio ar gynlluniau tai cymdeithasol o fewn a gerllaw'r AHNE (Grŵp Partneriaeth Gŵyr, 2014). Sefydlodd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gydbwyllgor cynghori a oedd yn gweithredu fel *'ymgynghorai ar geisiadau'* yn yr AHNE (Cyd-bwyllgor Cynghori Interim AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, tudalen 2, 2014a)⁷ gan wneud sylwadau uniongyrchol i adran gynllunio'r awdurdod lleol perthnasol. Fodd bynnag, mae adolygiad o'r cofnodion cyfarfodydd sydd ar gael yn awgrymu nad yw Cyd-bwyllgor Cynghori AHNE Dyffryn Gwy na Môn yn gwneud sylwadau uniongyrchol ar gynigion cynllunio⁸. Cafodd natur wahanol prosesau ymgysylltu'r Cyd-bwyllgorau Cynghori a phrosesau cynllunio ei nodi fel problem gynllunio yn Adolygiad Cynllunio 2012 (Llywodraeth Cymru, 2012). Un broblem arall a amlygwyd gan yr adolygiad yw'r ffaith y bydd effaith bosibl ar annibyniaeth penderfyniadau swyddogion AHNE ar geisiadau cynllunio gan fod y swyddogion yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol. Dywedodd yr adroddiad fod y ffaith y gall swyddogion fynd yn groes i safbwyntiau eu cyflogwyr beri pryder (Llywodraeth Cymru, t.50, 2012).

5.3 Mae cynllunio yn cael effaith y tu hwnt i'r ffin ddynodedig

Mewn rhai achosion, gall polisïau cynllunio ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac AHNE fod yn berthnasol i ddatblygiadau arfaethedig y tu hwnt i ffiniau'r dirwedd ddynodedig oherwydd eu bod yn effeithio mewn rhyw ffordd ar ansawdd y dirwedd ddynodedig. Gall natur yr effeithiau hyn fod yn eang iawn, er enghraifft mae tystiolaeth a gasglwyd o'r adolygiad yn cyfeirio at effeithiau gweledol a sŵn. O safbwynt AHNE Gŵyr, cafwyd cwynion yn ymwneud â datblygiadau mewn ardaloedd cyfagos (maes ymarfer golff a chyfleuster rasio moduron) a oedd yn cael effaith ar ardal Gogledd Gŵyr oherwydd llygredd golau a sŵn (Grŵp Partneriaeth AHNE Gŵyr, 2015). Mae cofnodion Cyd-bwyllgor Interim AHNE

⁷ Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi mabwysiadu model llywodraethu ychydig yn wahanol ers 2014. Mae'r wybodaeth hon yn dod o gofnodion Cyd-bwyllgor Cynghori interim. Mae'r model llywodraethu newydd yn cael ei drafod yn yr adran ar gynrychiolaeth.

⁸ Ond mae Cyd-bwyllgor Cynghori AHNE Môn wedi cyfrannu at y trafodaethau ar y datblygiadau seilwaith pŵer ar Ynys Môn (AHNE Môn, 2012).

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn trafod effaith weledol cais am dyrbin gwynt ar y golygfeydd o Eryri a bryniau Clwyd (Cyd-bwyllgor Interim AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, 2014).

5.4 Gwerthuso cynllunio o fewn tirweddau dynodedig

Ceir canfyddiad bod sicrhau caniatâd cynllunio gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn anodd weithiau oherwydd eu dyletswyddau statudol penodol. Mynegwyd y safbwynt hwn i'r Adolygiad gan gynrychiolwyr busnesau yn benodol yn ystod sesiynau tystiolaeth. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol mai camagraff yw hwn mewn gwirionedd ym maes cynllunio yng Nghymru. Ategir hyn gan y dystiolaeth sy'n dangos bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi cymeradwyo rhwng 73% a 85% o geisiadau (Llywodraeth Cymru, 2012) a bod 69%-88% o'u penderfyniadau wedi'u cadarnhau yn dilyn achosion apêl ar sail ystadegau 2008/09 (PWC, 2011, yn Llywodraeth Cymru 2012).

Roeddyr adroddiad ar Wasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau sydd wedi'u Pennu'n Statudol (Llywodraeth Cymru, 2012) yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiadau cenedlaethol ar ganlyniadau cynllunio pob Parc Cenedlaethol ac AHNE. Bydd adroddiadau o'r fath yn golygu bod penderfyniadau cynllunio yn fwy tryloyw ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd. Roedd yr adroddiad yn awgrymu'r mathau canlynol o ddangosyddion canlyniadau:

- Canran y ceisiadau cynllunio llwyddiannus;
- Canran y ceisiadau cynllunio masnachol (economaidd) llwyddiannus;
- Ansawdd y canlyniadau cynllunio, h.y. addasrwydd datblygiadau mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE o safbwynt eu dibenion tirwedd statudol;
- Canran y penderfyniadau cynllunio:
 - Sydd wedi mynd yn groes i argymhellion Cyngorau Cymuned, ac
 - Mewn AHNE, canran y penderfyniadau cynllunio sydd wedi mynd yn groes i argymhelliad y Cyd-bwyllgor Cyngori / swyddog AHNE.

3. Llywodraethu'r Dirwedd Genedlaethol

Mae prosesau llywodraethu ehangach tirweddau dynodedig yn cael eu llywio drwy eu cynllunio rheoli. Mae'r cynlluniau hyn yn ddogfennau allweddol sy'n manteisio ar

ryngweithio llywodraethu llorweddol a fertigol â rhanddeiliaid er mwyn eu llunio. Mae Adran 61(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol lunio cynlluniau rheoli, ac mae gan Awdurdodau Lleol yr un ddyletswydd mewn perthynas ag AHNE o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Gan fod dibenion a dyletswyddau statudol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn wahanol, mae prosesau a natur eu cynlluniau rheoli ychydig yn wahanol.

Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol


Mae cynlluniau rheoli yn ddogfennau allweddol o fewn fframwaith llywodraethu Parc Cenedlaethol, ac maent yn dylanwadu ar strategaethau a chynlluniau eraill fel y Cynllun Datblygu Lleol. Mae mynd ati i greu Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol yn broses gymhleth sy'n gofyn am haenau gwahanol o ymgynghori, gwerthuso ac adrodd cyn bod modd mabwysiadu'r cynllun. Mae'n rhaid adolygu'r cynllun bob pum mlynedd hefyd (CCGC, 2007). Un rheswm am y cymhlethdod hwn yw'r ffaith fod cynlluniau rheoli yn israddol i nifer o reoliadau awdurdodaeth uwch, yn enwedig Cyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC sy'n nodi bod angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), a 92/94/EEC sy'n nodi bod angen gwerthuso effaith y cynllun rheoli ar safleoedd Natura 2000 dynodedig⁹.

Yn 2007, lluniodd CCGC¹⁰ ddogfen ganllawiau fanwl sy'n pennu'r broses a'r cynnwys disgwylidig ar gyfer yr adroddiadau amrywiol sydd eu hangen. Mae Ffigur 7 yn dod o ganllawiau CCGC (2007), ac mae'n siart llif sy'n dangos y cysylltiadau a'r prosesau perthnasol yn ogystal â'r adegau pan fydd angen ymgynghori â rhanddeiliaid.

⁹ Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd RAMSAR.

¹⁰ Mae CCGC yn un o'r cyrff sydd wedi uno i greu'r corff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Disgwylir y bydd CNC yn gyfrifol am ddiweddarau unrhyw ganllawiau ar lunio Cynlluniau Rheoli .

Ffigur 7: Y broses o greu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol a'r cyd-destun o safbwynt cynlluniau eraill



Ffigur 8: Darn o adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar ymgynghoriadau â rhanddeiliaid (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 2015a)

Rhanddeiliad	Sylw'r rhanddeiliad	Ymateb yr Awdurdod i'r sylw
NPMP/2708/09 Cyngor Sir Penfro	5.1 Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfeirio at ymrwymiad i waith Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro mewn perthynas ag ecosystemau gweithredol.	Mae testun 5.1 yn cyfeirio at ganlyniadau; trafodir dulliau o gyflawni'r canlyniadau mewn rhannau eraill o'r bennod. <i>Credir bod y cyfeiriadau at bwysigrwydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yn 5.2.3, 5.3.1.2 a 5.3.3.2 yn ddigonol ac argymhellir dim newid.</i>
NPMP/2708/10 Cyngor Sir Penfro	5.25 Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfeirio at waith yn ymwneud â chysylltedd yng nghanolbarth Sir Benfro.	<i>Argymhellir y dylid cynnwys y frawddeg hon ym mharagraff 5.2.5.2: "Cwblhawyd gwaith mapio gwerth natur ar gyfer Sir Benfro yn 2012."</i>
NPMP/2708/11 Cyngor Sir Penfro	Polisi B1 Mae Cyngor Sir Penfro yn awgrymu y dylai'r darn hwn gyfeirio at waith Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynol.	Mae Polisi B1 yn cynnwys nodyn bod Polisi B3 (rheoli rhywogaethau goresgynol) yn berthnasol hefyd. <i>Argymhelliad: dim newid.</i>

Mae Deddf yr Amgylchedd, 1995 A67-8 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol:

- Hysbysu CNC a phob Awdurdod Lleol sydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn rhannol neu'n gyfan gwbl am y broses gynllunio rheoli;
- Darparu copïau o'r cynllun rheoli ar gyfer y cyrff hyn ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun wrth ei baratoi;
- 'Ystyried' unrhyw arsylwadau'r awdurdodau lleol a CNC;
- Anfon y cynllun rheoli ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru.

Mae'n ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r cynlluniau rheoli nac yn eu goruchwylio, ond yn hytrach bod CNC yn cynrychioli'r rhyngwyneb rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o safbwynt creu a chynllunio cynlluniau rheoli Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae Atodiad VI yn cynnwys rhestr wedi'i chategoreiddio o'r data/dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiadau ar Gyflwr y Parciau (SOPR) ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol¹¹. Nid yw llawer o'r data sy'n cael ei ddefnyddio yn yr adroddiadau hyn yn cael ei gasglu'n uniongyrchol gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol eu hunain. Mae'n deillio o ffynonellau amrywiol gan gynnwys awdurdodau lleol, data ystadegol cenedlaethol, data sydd wedi'i gasglu gan adrannau eraill y llywodraeth (fel Cadw¹² neu CNC) ac adroddiadau trydydd partion. Nid yw rhywfaint o'r data yn yr adroddiadau hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â ffiniau Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, o ystyried bod y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn Parciau Cenedlaethol yn gallu cael effeithiau cadarnhaol y tu hwnt i'r ffin, mae'n bosibl nad yw'r data hwn yn arwyddocaol.

Ar ôl i Awdurdod Parc Cenedlaethol fabwysiadu cynllun rheoli, mae'r ddogfen yn llywio'r holl weithgareddau, strategaethau a chynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr Awdurdod, ac yn ddelfrydol, gan randdeiliaid. Mae Ffigur 9 yn dangos y cynllun rheoli yn ei gyd-destun ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae Ffigur 9 yn dangos natur ailadroddol y broses lle mae'r cynllun rheoli yn llywio strategaethau a chymau gweithredu sydd, yn eu tro, yn llywio adroddiad Cyflwr y Parc, sy'n llywio'r gwaith o greu'r cynllun rheoli nesaf. Nid cynlluniau ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw cynlluniau rheoli, ac maent yn cael eu creu er mwyn rheoli'r Parc Cenedlaethol er budd pawb, yn unol â dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae cynllun 2010-2015 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn mynegi'r egwyddor hon:


'Er mai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n paratoi'r Cynllun, mae'n ddogfen ar gyfer pawb sydd â rhan yn nyfodol Eryri, byddent hwy yn sefydliadau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu unigolion gyda diddordeb. Yn ei hanfod, mae sicrhau dyfodol cynladwy i Eryri'n gyfrifoldeb i ni oll.'

(Ibid, t.4)

¹¹ Ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n cyfuno ei Gynllun Rheoli a'i Adroddiad ar Gyflwr y Parc.

¹² Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Ffigur 9: Siart llif yn dangos Cynlluniau Rheoli Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn eu cyd-destun




Cynlluniau Rheoli AHNE

Mae gan y broses o greu cynlluniau rheoli AHNE yr un gofynion â'r broses o greu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol:

- Ddiweddarau eu cynlluniau rheoli bob pum mlynedd;
- Llywio a chyflwyno'r adroddiad i CNC;
- Ystyried unrhyw sylwadau gan CNC ar y cynllun
- Cyflwyno copïau terfynol o'r adroddiad i Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae cynlluniau rheoli AHNE yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ar effeithiau posibl eu cynlluniau, ynghyd ag Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRAs). Mae Ffigur 10 yn rhan o'r canllawiau ar greu cynlluniau rheoli a luniwyd gan CCGC sy'n cyflwyno'r broses o greu cynllun a'r rhyngweithio rhwng y broses o greu cynllun rheoli'r AHNE, yr SEA, HRAs ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

Ffigur 10: Y broses o greu cynllun rheoli ar gyfer AHNE



Y gwahaniaeth allweddol rhwng cynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE yw'r ffaith nad yw cynllun rheoli AHNE yn cael ei ystyried yn uniongyrchol wrth greu'r cynllun datblygu lleol oherwydd nad yw cynlluniau datblygu a rheoli datblygu o dan reolaeth uniongyrchol corff y dirwedd ddynodedig. Yn hytrach, mae A84 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol:

'Cymryd pob cam gweithredu hwnnw y mae'n ymddangos iddynt yn hwylus i'r gamp y pwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol yr ardal o harddwch naturiol eithriadol neu cymaint ohono ag yn cael ei gynnwys yn eu hardal.'
(CCGW, 2008, t.4)

Mae adolygiad CCGC o'r cynlluniau rheoli AHNE presennol a'r canllawiau ar gynlluniau rheoli AHNE yn dangos mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am adolygu cynlluniau rheoli blaenorol, gyda chymorth rhanddeiliaid eraill (CCGW 2008). Fel sy'n amlwg o'r tabl yn Ffigur 11, sy'n dod o gynllun rheoli presennol AHNE Ynys Môn, mae'r adrannau ar gyflwr yr AHNE yng nghynlluniau rheoli'r AHNE yn adlewyrchu statws agweddau penodol ar AHNE i ryw raddau. Fodd bynnag, mae gwerthusiad penodol o bwyntiau gweithredu cynlluniau blaenorol yn llai amlwg. Yn ogystal, fel sy'n wir am gynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r cynlluniau rheoli, na'u gorchwyllo. Yn hytrach, mae CNC yn cynrychioli'r rhyngwyneb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol o safbwynt cynllunio cynlluniau rheoli AHNE.

Ffigur 11: Darn o Gynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2009-2014, adroddiad Cyflwr yr AHNE yn dangos asesiadau cyflwr

RHINWEDDAU ARBENNIG	MAINT YR ADNODD	CYFLWR	PAM MAE'N BWYSIG?	FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR EI GYFLWR
<p>Nodweddion Tirwedd Arfordirol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clogwyni Môr a Thraethau Creigiog • Twyni Tywod • Traethau Tywod • Morfa heli 	<p>Mae clogwyni môr yn amlwg ar arfordir y gorllewin a'r gogledd, yn arbennig yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoscolyn • Ynys Lawd • Ynys y Fydlyn • Ynys Llanddwyn <p>Mae systemau twyni mawr yn Niwbwrch ac Aberffraw, a thwyni hefyd yn Nhraeth Dulas, Traeth Coch a Rhosneigr</p> <p>Ceir traethau tywod ledled yr AHNE, yn cynnwys Llugwy, Aberffraw, Llanddona a Llanddwyn</p> <p>Mae morfeydd heli wedi'u lleoli ledled yr AHNE sy'n cynnwys: Traeth Melynog, Moryd afon Cefni, Culfor Cymyran a'r Môr Mewndirol, Traeth Dulas a Thraeth Coch</p>	<p>Amrywiol</p> <p>Amrywiol</p> <p>Amrywiol</p> <p>Da</p>	<p>Dynodiad tirwedd yw'r AHNE</p> <p>Mae'r dirwedd arfordirol yn help i ddiffinio cymeriad Ynys Môn</p> <p>Mae'r nodweddion hyn yn elfennau arbennig, deniadol ac annatod o'r dirwedd arfordirol</p> <p>Mae traethau'n ased economaidd pwysig i Ynys Môn</p> <p>Mae morfeydd heli yn glustogfa bwysig rhwng tir a môr ac maent yn amddiffyn yr arfordir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau mewn arferion rheoli tir • Newidiadau mewn deddfwriaeth • Datblygu amhriodol • Pwysau a bygythiadau economaidd • Lefel y môr yn codi, a'r angen am amddiffynfeydd môr yn sgil hynny; ynghlwm wrth hyn mae cilio dan reolaeth • Pwysau datblygu • Pwysau hamdden • Llygredd • Llai o bori ysgafn traddodiadol • Prysgrwydd yn datblygu • Plannu coed conwydd • Polisi Amaethyddol Cyffredin (goblygiadau polisi Ewropeaidd, Cenedlaethol a Rhanbarthol) • Rhywogaethau goresgynnol tramor
<p>Nodweddion Traddodiadol Tirwedd Amaethyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwrychoedd hynafol • Waliau cerrig • Cloddiau 	<p>Ceir mwy o wrychoedd hynafol yn ne a dwyrain yr AHNE.</p> <p>Yn gysylltiedig â therfynau (plwyfi, stadau a ffermydd), lonydd a thraciau cefn gwlad.</p>	<p>Yn dirywio</p>	<p>Dynodiad tirwedd yw'r AHNE</p> <p>Mae'r dirwedd amaethyddol yn help i ddiffinio cymeriad Ynys Môn</p> <p>Mae'r nodweddion hyn yn gynefin bywyd gwyllt gwerthfawr ac yn goridorau cyswllt i fflora a ffawna</p> <p>Mae'r nodweddion hyn yn rhan annatod o dirwedd yr AHNE</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau mewn arferion rheoli tir • Newidiadau mewn deddfwriaeth • Datblygu amhriodol • Pwysau a bygythiadau economaidd • Esgeulustod cyffredinol • Clirio i gynyddu maint caeau • Lledu ffyrdd • Trefniadau torri amhriodol • Newidiadau mewn cynlluniau grant • Rhywogaethau goresgynnol tramor

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn, 2009

1. Cynrychiolaeth mewn tirweddau dynodedig

Mae goruchwylio gweithgareddau sy'n ymwneud â threfnu, cynnal a gwarchod tirweddau dynodedig yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n rheoli tirweddau dynodedig yn gwneud hynny mewn ffordd effeithiol a thryloyw. Mae cynrychiolaeth mewn tirweddau dynodedig yn bwysig am ddau reswm. Yn gyntaf, gan fod asedau tirweddau lleol o arwyddocâd cenedlaethol i holl bobl Cymru, mae'n rhaid i'w cynrychiolaeth adlewyrchu cydbwysedd rhwng buddiannau lleol a chenedlaethol. Mae'r ail reswm yn ymwneud â chynnwys aelodau gwahanol o gymdeithas; er mwyn sicrhau bod ardaloedd dynodedig yn cael eu llywodraethu'n dda, mae'n rhaid i'w strwythurau llywodraethu gynnwys cynrychiolwyr o'r holl gymunedau â buddiant. Mae'r dulliau o fynegi'r elfennau hyn yng Nghymru yn amrywio rhwng AHNE a'r Parciau Cenedlaethol.

Mae'r ail elfen hefyd yn cynnwys gofyniad i'r systemau rheoli a chynrychioli ar gyfer tirweddau dynodedig roi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus wneud y canlynol:

'-Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;

- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu; ac

-Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu a ddiogelir nodweddiadol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.'

(Y Swyddfa Gartref, 2010, t.4)

Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth allweddol rhwng 'aelodau' a 'swyddogion' yn y ddau fath o ddynodiad tirwedd. Mewn AHNE, yr 'aelodau' yw Cynghorwyr etholedig awdurdodau lleol, ac mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yr 'aelodau' yw Cynghorwyr etholedig awdurdodau lleol a phenodeion Llywodraeth Cymru. Gweithwyr cyflogedig y Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod Lleol yw'r swyddogion. Mae'r 'aelodau' yn helpu i lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar sut mae tirwedd ddynodedig yn cael ei rheoli, tra bod y 'swyddogion' yn gyfrifol am reoli'r dirwedd ddynodedig o ddydd i ddydd.

Cynrychiolaeth ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Mae gan bob Parc Cenedlaethol fwrdd aelodau sy'n arwain cyfeiriad a gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'r byrddau hyn yn cynnwys Cynghorwyr sydd wedi'u penodi gan eu hawdurdod lleol ac aelodau sydd wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru. Ceir proses penodiadau cyhoeddus ffurfiol ar gyfer penodeion Llywodraeth Cymru, sy'n cynrychioli buddiannau cenedlaethol ar lefel bwrdd ac yn defnyddio sgiliau arbenigol i helpu bwrdd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyflawni ei ddyletswyddau (Llywodraeth Cymru, 2011).

Mae penodeion Awdurdodau Lleol yn cynrychioli buddiannau lleol ar fyrddau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn berthnasol os yw Awdurdodau Lleol yn penodi tri aelod neu fwy i fwrdd. Mae'r adran hon yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod wrth benodi cynghorwyr etholedig i'r bwrdd. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae rhai Cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu penodi i fwrdd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Ceir canfyddiad bod y diffyg cysylltiad hwn rhwng lleoliad aelodau'r Awdurdod Lleol a ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn arwain at ddiffyg atebolrwydd lleol ar gyfer trigolion a busnesau mewn Parciau Cenedlaethol.

Mae Tabl 11 yn dangos y cydbwysedd presennol rhwng y rhywiau o safbwynt Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Phenodeion Llywodraeth Cymru sy'n aelodau o fyrddau tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod y tri aelod a gafodd eu recriwtio yn allanol wedi'u penodi i wasanaethu ar y pwyllgor craffu yn benodol.

Tabl 11: Aelodau gwrywaidd a benywaidd o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a benodwyd gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

	Awdurdod Lleol		Llywodraeth Cymru		Recritiwyd yn allanol	
	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod
Bannau Brycheiniog	13	3	4	3	2	1
Penfro	11	1	3	3	0	0
Eryri	10	2	4	2	0	0

Ffynonellau: APCBB (2015), APCAP (2015), APCE (2015).

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo cynhwysiant a gwella gwybodaeth am y Parciau Cenedlaethol drwy gynlluniau Mosaig a mentora. Nod y cynlluniau Mosaig yw recriwtio Hyrwyddwyr Parciau Cenedlaethol o blith grwpiau lleiafrifol sy'n byw yng Nghymru i ddysgu am y Parciau Cenedlaethol a'u hyrwyddo yn eu cymunedau drwy drefnu teithiau a digwyddiadau

addysgol (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2014b). Fel rhan o'r rhaglen fentora, sy'n gynllun peilot, mae aelodau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli (pobl ifanc, pobl anabl, menywod a phobl o leiafrifoedd ethnig) yn cael eu mentora gan aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'u cynorthwyo gan swyddogion i'w helpu i ennill y sgiliau i gymryd rhan mewn llywodraeth leol (Cyngor y Parciau Cenedlaethol, 2015).

Cynrychiolaeth ar Bwyllgorau AHNE


Mae AHNE yn defnyddio modelau 'awdurdod llywodraethu' gwahanol. Mae gan AHNE Ynys Môn, Llŷn a Dyffryn Gwy Gyd-bwyllgorau Cynghori (JACs) sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i helpu i reoli'r AHNE, gan gynnwys gweithredu cynllun rheoli'r AHNE. Mae cyfansoddiad pob JAC yn wahanol er mwyn adlewyrchu anghenion unigol yr ardal. Mewn rhai achosion, fel AHNE Dyffryn Gwy, mae gan rai aelodau o'r JAC bwerau pleidleisio (Cyngor Sir Fynwy 2014). Mae AHNE Gŵyr yn defnyddio strwythur grŵp partneriaeth, sy'n cynnwys 6 aelod o'r Awdurdod Lleol, 2 aelod sy'n swyddogion CNC a 10 aelod sy'n cael eu hethol yn ystod cyfarfod grŵp partneriaeth blyneddol, sy'n agored i'r cyhoedd. Mae Tabl 12 yn dangos y sefydliadau amrywiol sy'n cael eu cynrychioli ar un JAC neu fwy a / neu Grwpiau Partneriaeth yng Nghymru.

Tabl 12: Sefydliadau amrywiol sydd ag aelodau ar un JAC neu fwy yng Nghymru

Cyfoeth Naturiol Cymru	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Lleol	Cynghorau Cymuned Lleol	Un Llais Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	NFU Cymru	Unllais Cymru	RSPB
CLBA	FUW	Coed Cymru	Menter Môn
Grwpiau cadwraeth lleol	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Ymddiriedolaethau a Chymdeithasau Archaeolegol Lleol	Swyddogion o Adrannau Awdurdodau Lleol eraill
Ffederasiwn Busnesau Bach	Grwpiau awyr agored	Adrannau prifysgolion	Grwpiau Partneriaeth Twristiaeth

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi dechrau defnyddio model cynrychiolaeth sydd ychydig yn wahanol i'r model sy'n cael ei ddefnyddio gan y pedair AHNE arall yng Nghymru. Mae gan y model strwythur dwy haen, fel mae Ffigur 13 yn ei ddangos. Y cydbwyllgor yw'r haen gyntaf ac mae'n cynnwys chwe Chynghorydd lefel cabinet yr Awdurdod Lleol, sef dau aelod o bob Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r AHNE. Grŵp partneriaeth yw'r ail haen, ac mae'n gwneud gwaith cynghori yn debyg i waith JAC. Mae aelodau'r grŵp partneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n cwmpasu pob un o bedair elfen cynllun rheoli'r AHNE, sef: Mynediad a Hamdden, yr Amgylchedd Naturiol, yr Amgylchedd Adeiledig a'r Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r grŵp partneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ym meysydd rheoli tir, y gymuned wledig, y gymuned drefol, buddiannau busnes a hyd at dri phartner buddiant arbennig sy'n cael eu penodi drwy broses ymgeisio sy'n agored i'r cyhoedd.

Ffigur 13: Y strwythur ar gyfer rheoli a llywodraethu AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy



Ffynhonnell: AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, 2013

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi dewis y model hwn gan ei bod yn credu ei fod yn sicrhau cymorth lefel uchaf gan yr awdurdodau lleol a'i fod yn hwyluso camau gweithredu pendant. O dan y model hwn, mae'r AHNE yn cynnwys aelodau lefel cabinet o'r Awdurdod Lleol, sy'n defnyddio eu harbenigedd gwerthfawr wrth reoli'r AHNE, gwaith sy'n cyd-fynd â phortffolio ehangach y Cynghorwyr yn yr Awdurdod Lleol yn aml. Amcan y grŵp partneriaeth ehangach sy'n cynnwys aelodau buddiant arbennig yw sicrhau bod y gwaith o reoli'r AHNE yn gynhwysol ac yn arloesol.

Mae Tabl 13 yn dangos y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn strwythur pob AHNE. Mae'r tabl wedi'i wahanu rhwng aelodau etholedig Awdurdodau Lleol, gan gynnwys cynghorwyr cymuned, swyddogion Awdurdodau Lleol gan gynnwys y tîm AHNE, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyrff anllywodraethol o sbectwm eang o grwpiau fel y dangoswyd yn Nhabl 12.

Tabl 13: Y cydbwysedd rhwng y rhywiau o blith aelodau JACs/Grwpiau Partneriaeth AHNE yn 2014

AHNE	ALI ¹		Asiantaethau Llywodraeth		ALI anetholedig ²		Partïon eraill	
	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod
Ynys Môn	5	0	5	0	6	1	12	7
Bryniau Clwyd	6	0	-	-	3	2	12	4
Dyffryn Gwy	8	4	0	2	4	1	11	1
Penrhyn Gwyr Llŷn	6	2	0	2	3	0	6	2
Llŷn	6	4	1	0	2	0	6	2

Nodiadau

- 1 Yn cynnwys cynghorwyr cymuned lle bo'n briodol
- 2 Yn cynnwys swyddogion AHNE a swyddogion eraill o awdurdodau lleol (e.e. swyddogion cynllunio ac ati)

4. Tirweddau Dynodedig ar waith: Astudiaethau Achos

Wrth fynd ati i gasglu tystiolaeth, gofynnodd y panel am astudiaethau achos sy'n dangos arferion da'r teulu tirweddau dynodedig. Gofynnodd y panel yn benodol am astudiaethau achos sy'n amlygu prosiectau sy'n: gwella bioamrywiaeth, datblygu'r eco-economi leol, arddangos gwaith llywodraethu da gyda rhanddeiliaid eraill, sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, darparu manteision iechyd, cynlluniau sy'n brwydro yn erbyn tlodi, datblygu cydlyniant cymdeithasol, ymgysylltu â chenedlaethau'r dyfodol neu unrhyw gyfuniad o'r uchod. Nododd y panel y dylai pob astudiaeth achos gynnwys y wybodaeth ganlynol:

1. Enw'r prosiect/gweithgaredd.
2. Enwau'r sefydliadau sy'n cymryd rhan.
3. Lleoliad a hyd y cynllun.
4. Disgrifio cefndir y cynllun gan gynnwys ei nodau a'i amcanion.

5. Disgrifio'r canlyniadau. Dylai hyn gynnwys lefel y llwyddiant wrth gyflawni'r amcanion ac unrhyw bwyntiau dysgu eraill y mae'ch sefydliad wedi dod o hyd iddynt wrth ddarparu'r cynllun/gweithgaredd.
6. Disgrifio a/neu fesur y manteision/goblygiadau hirdymor.
7. Ffynonellau a symiau cyllid.
8. Ffotograff yn dangos y prosiect.

Derbyniodd y panel dri deg chwech o astudiaethau achos gan y teulu tirweddau dynodedig yng Nghymru; un deg saith gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac un deg naw gan yr AHNE. Mae'r astudiaethau achos yn amrywio o ran eu cwrpas, eu cyllid a'u prosesau ymgysylltu â phartneriaid eraill. Mae'r astudiaethau achos i'w gweld yn llawn yn Atodiad IV. Mae Tabl 14 yn cyflwyno dadansoddiad thematig o'r manteision allweddol sydd wedi deillio o'r prosiectau a ddisgrifiwyd yn yr astudiaethau achos.

Tabl 14: Dadansoddiad thematig o'r manteision a ddeilliodd o brosiectau'r astudiaethau achos

	Ynys Môn	Bannau Brycheiniog	Bryniau Clwyd	Gwyr	Uŷn	Arfordir Penfro	Eryri	Dyffryn Gwy	Prosiect ar y cyd rhwng Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro
Twristiaeth	1	4	1	1	1	2	3	2	0
Busnesau lleol	1	4	2	2	1	4	3	1	0
Addysg	4	3	1	2	1	1	2	4	1
Cynhwysiant Cymdeithasol	2	1	1	1	0	1	0	0	0
Haimdden	1	2	1	1	1	2	1	3	0
Cadwraeth	4	2	2	3	0	1	3	4	0
Lles	1	2	1	1	1	1	2	2	1
Gwaith Partneriaeth	1	4	2	2	0	0	1	1	0
Nifer y prosiectau a gyflwynwyd	5	6	4	4	1	5	5	5	1

Mae rhai o gynlluniau'r astudiaethau achos yn dangos enghreifftiau o warchod a rheoli'r amgylchedd. O safbwynt Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys *Prosiect Glastir* Bannau Brycheiniog, *Prosiect Gwarchod y Godiroedd* Arfordir Penfro a *Phrosiect Newid Hinsawdd a Rhywogaethau Goresgynnol* Eryri. Cafodd y prosiectau rheoli tir cynaliadwy hyn eu rhoi ar waith drwy gydweithio â phorwyr ac asiantaethau eraill. O safbwynt AHNE, mae'r astudiaethau achos yn amrywio o ddull rheoli tirwedd Prosiect Tirwedd Fyw Alyn a Chwiler yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i'r amrywiaeth eang o 170 o brosiectau a mwy a oedd yn cynnwys sefydliadau lluosog. Yn

ogystal, cymerodd 8000 o bobl ran yng ngweithgareddau a digwyddiadau cadwraeth gwirfoddol AHNE Ynys Môn.

Er bod llawer o'r astudiaethau achos yn dangos sut mae'r tirweddau dynodedig yn cyflawni eu hamcanion a'u dyletswyddau, ceir enghreifftiau clir hefyd o sut mae'r AHNE yn dilyn agenda sy'n fwy na 'gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal'. Er enghraifft, maent yn rhoi mentrau ar waith sydd o fudd i fusnesau a chymunedau lleol. Ceir amrywiaeth eang o enghreifftiau yn y cyswllt hwn hefyd, gan gynnwys: gwaith ym meysydd twristiaeth a gwyliau sy'n mynd rhagddo ym mhob un o'r wyth ardal ddynodedig, er enghraifft: Gŵyl Afon Dyffryn Gwy neu Wyl Arfordir Llŷn, yn ogystal â chynlluniau buddiol eraill fel: Canolfan Ymwelwyr Halen Môn ar Ynys Môn, Cig oen Bryniau Clwyd a Siop Gymunedol Llanmadog ar Benrhyn Gŵyr.

Mae tystiolaeth hefyd bod yr AHNE a'r Parciau Cenedlaethol eisoes yn rhoi prosiectau ar waith a ddylai gyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ceir enghreifftiau rhagorol o brosiectau sy'n sicrhau manteision cymdeithasol, lles ac iechyd, gan gynnwys *mindSCAPE* AHNE Dyffryn Gwy, *Tirweddau ar gyfer Iechyd* AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, *prosiectau Cynhwysiant Cymdeithasol* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, *prosiect Sgilliau ar Waith* sy'n cael ei gyflwyno ar y cyd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro a phrosiect *Down to Earth* AHNE Penrhyn Gŵyr.

Mae prosesau ymgysylltu â phartneriaid eraill yn amrywio o 3 neu 4 partner darpariaeth allweddol i dros 30 o sefydliadau gwahanol. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys: CNC, partneriaid rhyngwladol, cymdeithasau tîfeddianwyr lleol, awdurdodau lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, cyrff anllywodraethol cadwraeth eraill, cyrff anllywodraethol ym maes iechyd, sefydliadau addysg a grwpiau cymunedol. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth o'r astudiaethau achos hyn yn dangos pa mor arloesol a llwyddiannus yw'r cyrff tirweddau dynodedig yng Nghymru wrth ddenu a gwneud ceisiadau am gyllid gan amrywiaeth eang o ffynonellau, a thrwy hynny, defnyddio symiau cymharol fach a'u cyllid cyhoeddus craidd i roi cynlluniau a phrosiectau mawr ar waith yn eu cymunedau lleol. Mae Tabl 15 yn dangos rhestr o'r partneriaid cyllido sy'n cael eu crybwyll yn benodol yn yr astudiaethau achos yn atodiad IV. Fodd bynnag, dylid nodi na wnaeth yr ymatebydd tirwedd ddynodedig gyfeirio at bob un, neu unrhyw un, o'r partneriaid cyllido mewn rhai achosion.

Tabl 15: Ffynonellau cyllid grant y cyfeirir atynt yn astudiaeth achos teulu'r tirweddau dynodedig

Adventa	Cyllid Cymru	Cyngor Sir Penfro
Arts Council England	Cymdeithas Gŵyr	Adnoddau preifat
Y Gronfa Loteri Fawr	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	REF
Y Gronfa Loteri Fawr - Cyrraedd Cymunedau	LEADER RDP	Rising Tide (Prosiect Interreg)
Cynllun Cymunedau a Chymdogaeth	Dewch i Gerdded Cymru	Cyngor Tref Ross
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	Partneriaeth Tirwedd Llŷn	Cynllun Datblygu Gwledig
Cronfa Cymunedau'r Arfordir	Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau	Neuadd y Sir Trefynwy
Cyngor Celfyddydau Cymru	Cyngor Tref Mynwy	SITA Trust
DŴr Cymru	Theatr Genedlaethol Cymru	Cynllun Datblygu Gwledig Abertawe
Asiantaeth yr Amgylchedd	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Croeso Cymru
ERDF	Cyfoeth Naturiol Cymru	Walking with Offa
Cronfa Cyfarwyddo a Gwarant u Amaethyddiaeth Cymru	Y Gronfa Natur	Llywodraeth Cymru - Cronfa Rhywogaethau Goresgynnol Estron
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Cronfa NWWT	WREN

Mae yna ddwy enghraifft dda o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn cydweithio mewn partneriaeth. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydweithio ag AHNE Ynys Môn, Llŷn a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar Brosiect Natur Wahanol Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru. Amcan y prosiect yw gwella'r cysylltiadau rhwng y pedwar dynodiad, y sector cyhoeddus a'r sector twristiaeth, gan ganolbwyntio ar greu teimlad o berchenogaeth o'r tirweddau hyn ar gyfer y busnesau yn yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, mae'r prosiect yn gobeithio gwella ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r pedwar dynodiad er mwyn annog ymwelwyr i ddychwelyd i bob un o'r ardaloedd dynodedig a denu mwy o ymwelwyr iddynt. Y prosiect partneriaeth arall yw 'Sgiliau ar Waith' rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'r prosiect hwn yn darparu hyfforddeiaethau amgylcheddol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Felly, mae'r dynodiadau hyn, a'r timau sy'n eu rheoli, yn darparu gofodau unigryw i gychwyn prosiectau sy'n cynnwys llawer o grwpiau a ffynonellau cyllido. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos pwysigrwydd tirweddau dynodedig o safbwynt darparu amrywiaeth arbennig o fanteision datblygu cynaliadwy ar gyfer pobl, busnesau ac amgylchedd Cymru.

5. Modelau gwahanol

Roedd cwestiwn 5 o ail gam yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn gofyn i gyfranwyr nodi unrhyw fodelau neu ddulliau llywodraethu tirweddau dynodedig/ardaloedd gwarchodedig eraill eu bod am i'r Adolygiad eu hystyried. Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol yn y dystiolaeth, ynghyd ag awgrymiadau pam y bydd y modelau hyn yn addas neu'n anaddas ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru.

Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol UDA

Mae gan fodel Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol UDA wasanaeth canolog sy'n rheoli pob un o'r 407 o Barciau Cenedlaethol yn yr Unol Daleithiau. Mae'r Gwasanaeth yn darparu cyfle i gyflogi arbenigwyr mewn cyfarwyddiaethau canolog sy'n darparu cyngor ac yn rheoli'r parciau cenedlaethol. Mae'r parciau cenedlaethol yn cael eu trefnu ar sail saith cyfarwyddiaeth ranbarthol wedyn (NPS, 2015a). Mae'n werth nodi hefyd bod 128 o'r Parciau Cenedlaethol yn codi tâl mynediad rhwng \$5 a \$25 yr wythnos ar ymwelwyr, ac mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i wella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau ar gyfer ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol (NPS, 2015b).

Parciau Cenedlaethol yr Alban

Mae dau barc cenedlaethol dynodedig yn yr Alban, y naill yn y Cairngorms a'r llall o gwmpas Llyn Llumonwy a'r Trossachs. Roedd nifer o gyflwyniadau i'r panel yn cyfeirio at barciau cenedlaethol yr Alban, a chafwyd diwrnod llawn o sesiynau tystiolaeth gydag arbenigwyr o bob rhan o sector tirweddau dynodedig yr Alban. Mae pedwar gwahaniaeth allweddol rhwng parciau cenedlaethol yr Alban a pharciau cenedlaethol Cymru.

Yn gyntaf, mae Deddf Parciau Cenedlaethol (Yr Alban) yn pennu amcanion allweddol y Parciau Cenedlaethol. Mae gan Barciau Cenedlaethol yr Alban bedwar amcan, sy'n cael eu nodi yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- (a) 'Gwarchod a gwella treftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal,*
- (b) Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yr ardal,*
- (c) Hybu dealltwriaeth a mwynhad (gan gynnwys mwynhad ar ffurf hamdden) o rinweddau arbennig yr ardal gan y cyhoedd, ac*
- (d) Hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy cymunedau'r ardal.*

Deddf Parciau Cenedlaethol (Yr Alban) 2000, A.1

Mae'r amcanion hyn yn debyg i ddibenion Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, ac mae'r pedwerydd amcan (d) yn ychwanegol at ddibenion Parciau Cenedlaethol Cymru. Os oes gwrthdaro rhwng y pedair dyletswydd, mae adran 9(6) o'r Ddeddf yn pennu bod amcan (a) yn bwysicach na holl amcanion eraill y parciau cenedlaethol, yn debyg i egwyddor Sandford mewn perthynas â pharciau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr (Llywodraeth Cymru, 2008).

Yn ail, ceir tri math o aelodau bwrdd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yr Alban: aelodau sy'n cael eu penodi gan lywodraeth leol, aelodau sy'n cael eu penodi gan y Gweinidog ac aelodau sy'n cael eu penodi gan y bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol. Mae ardaloedd y Parciau Cenedlaethol wedi'u rhannu'n 4-5 ward a chynhelir etholiad nad yw'n seiliedig ar bleidiau gwleidyddol drwy bleidlais bost. Yn ôl Prif Swyddog Gweithredol y ddau Parc Cenedlaethol, nid yw'r etholiadau yn rhai diwrthwynebiad fel arfer, ac roedd holl dystiolaeth rhanddeiliaid yr Alban yn awgrymu bod yr aelodau etholedig lleol yn unigolion brwdfrydig ac arloesol sy'n helpu i sicrhau ymgysylltiad cymunedol. Er bod llawer o ymatebwyr yng Nghymru yn credu y byddai etholiadau uniongyrchol yn ddrud, nid oedd arbenigwyr yr Alban yn rhannu'r un safbwynt.

O safbwynt cynllunio, mae Parciau Cenedlaethol yr Alban yn gweithredu dau fodel gwahanol, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Llyn Llumonwy a'r Trossachs yn gyfrifol am lunio'r cynllun datblygu lleol ac am reoli datblygiadau. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol y Cairngorms hefyd yn gyfrifol am y cynllun datblygu lleol, ond nid oes

ganddo bwerau llawn i reoli datblygiadau. Yn hytrach, mae ganddo'r hawl i alw i mewn ceisiadau os yw'n credu y bydd ganddynt oblygiadau ar gyfer dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol. Yn ôl Prif Swyddog Gweithredol y Cairngorms, fel arfer mae tua 10% o'r holl geisiadau yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu galw i mewn bob blwyddyn.

Mae Parciau Cenedlaethol yr Alban yn cael eu rheoli gan gynllun partneriaeth sy'n dwyn ynghyd y partneriaid allweddol i lywio'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. Unwaith y flwyddyn, mae Gweinidog yr Amgylchedd yn cadeirio cyfarfod grŵp partneriaeth ar gyfer y ddau Barc Cenedlaethol sy'n helpu i nodi pwysigrwydd y cynllun partneriaeth i'r holl bartneriaid, ac yn cynorthwyo dialog.

Parciau Natur Rhanbarthol Ffrainc (*Parc Naturel Regional*)

Mae parciau natur rhanbarthol Ffrainc (PNR) yn dirweddau gwarchoddedig categori V yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), ac mae ganddynt drefniadau llywodraethu tebyg i drefniadau llywodraethu Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Mae yna 49 o PNR, sef cyrff sy'n derbyn cyllid cyhoeddus er mwyn rhoi prosiectau datblygu cynaliadwy ar waith a gwarchod yr amgylchedd naturiol. Gwneir hyn drwy siarter sy'n gwneud y canlynol: '*defines goals for the park's protection, enhancement and development*' (Guignier a Prieur, t.50, 2010) ac yn cael ei roi ar waith drwy gydweithio rhwng bwrdeistrefi sy'n cael eu hethol yn lleol.

Mae'n ddiddorol nodi bod statws categori V IUCN y PNR yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, tra bod tri math o barth yn perthyn i Barciau Cenedlaethol llai niferus Ffrainc: gwarchodfeydd pur, ardaloedd craidd y parc ac ardaloedd ymlyniad, sy'n cyfateb yn fras i gategoriâu I, II a V IUCN (Guignier a Prieur, 2010). Gall statws PNR gael ei ddileu hefyd¹³. Caiff dynodiadau PNR eu hadnewyddu bob deuddeg mlynedd a gallent gael eu dileu cyn hyn os nad yw'r parc yn gweithredu yn unol â'i siarter presennol neu os yw'n methu bodloni'r meini prawf sy'n sylfaen iddo (Guignier a Prieur, 2010).

¹³Dim ond un o Barciau Natur Rhanbarthol Ffrainc, Marais Poitevin, sydd wedi cael ei statws wedi'i ddileu ddwywaith a'i adfer wedyn. Llygru'r gors ac anghytgord â'r diwydiant amaeth oedd y prif resymau am ddirymu'r dynodiad. Yn sgil adfer y statws yn 2014, mae 93 o fwrdeistrefi wedi dod ynghyd o dan siarter newydd y Parciau Natur Rhanbarthol. (Ouest France, 2014)

Parciau Cenedlaethol Denmarc

Yn debyg i Barciau Cenedlaethol yr Alban, mae Parciau Cenedlaethol Denmarc yn gymharol newydd, ac agorwyd y cyntaf yn 2008. Mae eu strwythur llywodraethu yn cynnwys bwrdd, cyngor Parc Cenedlaethol ac ysgrifenyddiaeth, ac mae'r bwrdd yn cael ei benodi gan Weinidog yr Amgylchedd (Parciau Cenedlaethol Denmarc, Dim Dyddiad).

Profiad Denmarc o greu parciau cenedlaethol oedd y rheswm y cyflwynwyd y model llywodraethu hwn i'r panel fel achos diddorol. Sefydlwyd grŵp cynghori cenedlaethol yn 2004 a oedd yn cynnwys aelodau o Weinyddiaethau, cyrff anllywodraethol a chadeiryddion y saith pwyllgor llywio (Rigsrevisionen, 2013). Roedd y grŵp cynghori hwn yn cyflawni swyddogaeth arweiniad cenedlaethol, gan ledaenu a darparu argymhellion i Weinidog yr Amgylchedd a arweiniodd maes o law at y Ddeddf a greodd y parciau cenedlaethol cyntaf.

Model Bwrdd Cadwraeth

Mae byrddau cadwraeth yn fodel posibl ar gyfer yr AHNE yng Nghymru a Lloegr. Maent yn derbyn mwy o gyllid uniongyrchol gan lywodraeth y DU drwy DEFRA. Mae yna ddau fwrdd cadwraeth yn Lloegr ar hyn o bryd, y naill yn AHNE y Cotswolds a'r llall yn AHNE y Chilterns. Credir bod y byrddau yn ddull priodol iawn o reoli AHNE sy'n cynnwys sawl Awdurdod Lleol achos bod ganddynt y pwerau a ddirprwywyd gan yr Awdurdodau Lleol i weithredu'n annibynnol, heb orfod ymgynghori â phob Awdurdod Lleol (DEFRA, 2008).

Mae A.87(1) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn nodi bod gan fyrddau cadwraeth ail ddiben, sef gwella dealltwriaeth a phleser y cyhoedd o nodweddion arbennig yr AHNE. Yn ogystal, gan fod hyn yn ychwanegu ail ddyletswydd, mae A.87(2) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn cyflwyno math o Egwyddor Sandford ar gyfer byrddau iechyd, sy'n gosod cadwraeth yn uwch na hamdden os oes gwrthdaro buddiannau rhwng y ddau ddiben (DEFRA, 2008).

Mae'r ddau fwrdd cadwraeth yn derbyn mwy o gyllid uniongyrchol gan y llywodraeth nag unrhyw un o'r AHNE eraill, ac eto maen nhw'n rhif 7 a 10 yn y rhestr o drosiant

cyffredinol. Y rheswm am yr anghysondeb yw gweithgareddau codi arian cymharol yr AHNE eraill ynghyd â thystiolaeth o'r cyflwyniadau ysgrifenedig bod byrddau cadwraeth yn tueddu i fod yn llai arloesol nag AHNE eraill. Mae byrddau cadwraeth yn derbyn rhagor o gyllid cyhoeddus yn rhannol er mwyn gwneud iawn am eu rhwymedigaeth i dalu TAW. Nid oes gan AHNE rwymedigaeth o'r fath gan eu bod yn rhan o awdurdod lleol (DEFRA, 2008).

Model yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Pan luniwyd cyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn 2012, trosglwyddwyd rheolaeth tros ddyfrffyrdd Prydain o'r sector cyhoeddus i'r elusen ynghyd â'i holl asedau cysylltiedig. Yn ogystal â throsglwyddo asedau, ymrwymodd y llywodraeth i ddarparu gwerth £800 miliwn o gyllid tros 15 mlynedd a grant cyfalaf ychwanegol gwerth £460 miliwn (DEFRA, 2012a). Disgwylir y bydd yr elusen yn ei hariannu ei hun yn y dyfodol ac na fydd yn derbyn grant cyhoeddus blynyddol. Mae'r Parciau Cenedlaethol yn dadlau y byddai nifer o broblemau yn deillio o'r model hwn:

'Byddai newid i'r model hwn yn golygu bod angen codi tâl i defnyddio llawer o wasanaethau'r Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys hawliau tramwy a mynediad i'r Parc Cenedlaethol. Byddai gan y drefn hon oblygiadau mawr i'r cyhoedd, gan fygwth yr egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu nad oes angen talu i ddefnyddio Parciau Cenedlaethol.'

Myfyrdodau ar y modelau amgen a awgrymwyd

Mae pob un o'r modelau amgen a awgrymwyd gan randdeiliaid yn eu tystiolaeth i'r panel yn cael eu hargymell oherwydd eu bod yn mynd i'r afael mewn rhyw ffordd â phroblemau ymddangosiadol y dull presennol o lywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru. Nid oes unrhyw un o'r modelau amgen yn bodloni'r holl ofynion a nodwyd yng Nghymru. Mae'r gwrthdaro rhwng prosesau rheoli cenedlaethol a lleol yn amlwg mewn llawer o'r enghreifftiau. Mae dynodiadau lleol rhai modelau yn caniatáu dulliau llywodraethu sydd wedi'u seilio'n gadarn ar gyd-destun pob ardal benodol. Mae modelau eraill yn gweithredu ar lefel genedlaethol, gan gyflogi arbenigwyr penodedig

ym maes rheoli tirweddau dynodedig, sy'n gallu darparu cyfeiriad a hybu perfformiad ledled y teulu tirweddau dynodedig.

Y broblem allweddol arall sy'n deillio o'r enghreifftiau hyn yw sut y dylid eu cyllido. Os mai un o egwyddorion sylfaenol tirweddau dynodedig yw'r ffaith fod gan bawb yr hawl i'w defnyddio yn ddi-dâl, mae'n amlwg y bydd codi tâl ar ymwelwyr yn mynd yn groes i'r egwyddor hon. Serch hynny, yn y cyd-destun presennol o leihau cyllid cyhoeddus, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn sut y bydd y dynodiadau hyn yn parhau i gael eu rheoli'n effeithiol.

6. Llywodraethu tirweddau dynodedig: llwyddiannau a chyfleoedd ar gyfer gwella

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn trafod tystiolaeth yn ymwneud â llwyddiannau a chyfleoedd i wella'r broses o lywodraethu tirweddau dynodedig. Defnyddir fframwaith egwyddorion llywodraethu da'r IUCN, fel y'i cyflwynir yn nhabl 8, fel dull dadansoddol o fframio'r dystiolaeth yng nghyd-destun yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'llywodraethu da' o safbwynt tirweddau dynodedig. Mae'r drafodaeth wedi'i rhannu rhwng pum egwyddor allweddol: dilysrwydd a llais, cyfarwyddyd, perfformiad, atebolrwydd a thegwch a hawliau. Mae'r termau sy'n ymddangos mewn print trwm ac italig yn cysylltu'r drafodaeth â rhai o'r pwyntiau allweddol penodol ym mhob un o'r pum egwyddor a gyflwynir yn nhabl 8. Dylid nodi bod rhai agweddau ar lywodraethu tirweddau dynodedig, fel swyddogaeth cynlluniau rheoli, yn berthnasol i un neu fwy o'r egwyddorion llywodraethu hyn, felly nodir yr agweddau sy'n perthyn i'r egwyddorion perthnasol. I gloi'r adran, ceir dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) o ddulliau llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru ar hyn o bryd.

Dilysrwydd a Llais

Ar sail egwyddorion dilysrwydd a llais, mae'n rhaid i dirweddau dynodedig gael eu rheoli gan sefydliadau sy'n cael eu **derbyn yn eang gan gymdeithas**, yn dryloyw o safbwynt **rhannu gwybodaeth ddigonol** â rhanddeiliaid ac yn darparu mecanweithiau sy'n galluogi **ymgysylltu gweithredol** gan bob rhanddeiliad wrth gefnogi'r tirweddau dynodedig sy'n cynnwys **amrywiaeth** ymysg eu rhanddeiliaid. Mae **sybsidiaredd** yn

rhan allweddol o lywodraethu tirweddau dynodedig, ac mae'n cynnwys **deialog** weithredol rhwng rhanddeiliaid lleol ac yn ceisio **sicrhau cytundeb** ynglŷn â sut i gael atebion mewn cyd-destun lleol.

Er mwyn rheoli adnoddau naturiol, mae angen gwybodaeth fanwl am y cyd-destun lleol. Mae **sybsidiaredd** i bob tîm tirwedd ddynodedig, p'un ai fel Awdurdod Parc Cenedlaethol neu JAC/partneriaeth AHNE, yn helpu i gyflawni'r nod hwn, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer **ymgysylltu gweithredol** gan amrywiaeth eang o rhanddeiliaid. Mae camau ar waith i sicrhau bod **amrywiaeth** eang o ddinasyddion yn helpu i reoli tirweddau dynodedig drwy brosiectau Mosaig a mentora sydd angen eu gwerthuso'n rheolaidd fel rhan o'r broses o reoli tirweddau dynodedig.

Mae gan y rhan fwyaf o'r cyrff sy'n gyfrifol am dirweddau dynodedig hanes da o **rannu gwybodaeth** am reoli'r tirweddau hyn (cofnodion cyfarfodydd, cynlluniau rheoli, strategaethau ac ati). Ceir rhai anghysondebau o ran cyhoeddi dogfennau, ond bydd y rhain yn hawdd i'w datrys ac yn cynyddu dilysrwydd drwy wella tryloywder o sut mae tirweddau dynodedig yn cael eu rheoli.

Mae angen i'r cysyniad bod sefydliadau yn cael eu **derbyn yn eang gan gymdeithas** fynd i'r afael â'r ffaith fod tirweddau dynodedig yn asedau o bwysigrwydd cenedlaethol, sy'n golygu eu bod o ddiddordeb i bob dinesydd yng Nghymru. Yr her o safbwynt dilysrwydd a llais yw sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion rhanddeiliaid lleol a'r angen i reoli asedau naturiol o bwysigrwydd cenedlaethol. Nid yw'r ddau beth ar wahân, ond serch hynny, gall tensiynau godi rhyngddynt. Lefel Llywodraeth Cymru yw'r fforwm gorau i ddarparu dilysrwydd ar gyfer y llais hwn a'r cyfarwyddyd ar gyfer blaenoriaethau.

Cyfarwyddyd

Mewn tirweddau dynodedig, mae tirweddau, pobl a'r berthynas rhyngddynt yn newid drwy'r amser. Yn ogystal, mae tirweddau dynodedig yn cael effaith ar bobl ac ardaloedd y tu hwnt i'w ffiniau, ac yn cael eu heffeithio ganddynt hwythau. Er mwyn llywodraethu'r tirweddau hyn, mae angen **cyfarwyddyd polisi clir** ynglŷn â sut i reoli tirweddau dynodedig sy'n caniatáu **gweledigaeth strategol gyffrous a chyson** sy'n cofleidio **cymhlethdodau lleoedd penodol** ac yn seiliedig ar **werthoedd y cytunir arnynt** yn ymwneud â sut i reoli tirweddau dynodedig. Mae angen i unrhyw gyfarwyddyd ar reoli tirweddau dynodedig fod yn **gydnaws** â pholisïau sectorau cysylltiedig eraill, gan sicrhau bod unrhyw gynlluniau i reoli mewn **ffordd hyblyg** yn ymateb i werthusiadau

neu **ddatblygiadau newydd** sy'n cael eu cynnig gan **hyrwyddwyr** tirweddau dynodedig.

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol neu Awdurdodau Lleol yn creu cynlluniau rheoli ym mhob tirwedd ddynodedig yng Nghymru yn unol â'r gofynion statudol. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu **gweledigaeth strategol** ar gyfer pob dynodiad. Mae'r cynlluniau hyn yn berthnasol i ardaloedd penodol, ac yn ystyried nid yn unig priodweddau amgylcheddol arbennig y tirweddau **cymhleth** hyn, ond hefyd eu priodweddau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r cynlluniau'n cael eu hysgrifennu ar ôl ymgynghori ag ymgynghoreion statudol ac anstatudol. Mae awduron y cynlluniau yn ystyried safbwyntiau'r ymgynghoreion ac yn gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r cynlluniau drafft. Mae'r cynlluniau hyn yn **gydnaws** â rhwymedigaethau rhyngwladol ehangach, yn enwedig yr angen i gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac maent yn dangos tystiolaeth eu bod wedi ystyried strategaethau eraill sy'n berthnasol i'r maes, pan fo'r swyddogion tirweddau dynodedig yn ymwybodol ohonynt.

Ar sail tystiolaeth gan randdeiliaid ac ymchwil fewnol, mae'n ymddangos bod yna rai problemau yn ymwneud â pholisi, canllawiau ac arweiniad ar lefel genedlaethol sy'n ei gwneud yn anodd sicrhau **cyfarwyddyd polisi clir** ar gyfer swyddogaeth tirweddau dynodedig yng Nghymru. Mae perchenogaeth o Dirweddau Dynodedig Cymru, ar lefel polisi cenedlaethol, yn ddigyswllt ar adegau. Adlewyrchir hyn yn rhannol gan y ffaith fod adrannau gwahanol o Lywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am dirweddau dynodedig a'r ffaith fod CCGC wedi uno â chyrrff eraill i greu Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhan o'r her yw cydnabod cyfraniad tirweddau dynodedig at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ledled ei hadrannau, a sicrhau bod llywodraeth genedlaethol yn darparu arweiniad clir ar eu cyfer.

Un mater sy'n peri pryder mawr ar gyfer rheoli tirweddau dynodedig yn y dyfodol agos yw'r rhyngweithio â'r agenda ddeddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd a'r Ddeddf Cynllunio, fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd yn creu gofynion adrodd ychwanegol ar gyfer ardaloedd tirweddau dynodedig, sydd â'r potensial i ddyblygu'r broses adrodd, neu'n waeth, arwain at

anghysondeb rhwng amcanion cynlluniau rheoli, datganiadau ardaloedd a chynlluniau lles.

Perfformiad

Mae perfformiad effeithiol yn sicrhau'r **cyfeiriad** sydd ei angen ar gyfer tirweddau dynodedig drwy gynlluniau rheoli a strategaethau eraill. Mae perfformiad ym maes tirweddau dynodedig yn gofyn am **eiriolaeth ac allgymorth** â sefydliadau a rhanddeiliaid eraill er mwyn meithrin y **galluoedd** priodol ar gyfer **cynaliadwyedd a chydnerthedd** mewn tirweddau dynodedig, o safbwynt amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Nid yw perfformiad cyson yn digwydd ar ei ben ei hun; mae'n cael ei feithrin drwy hyrwyddo **diwylliant dysgu** sy'n sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn hyrwyddo **cynaliadwyedd ariannol**.

Gydol y cyfnod o gasglu tystiolaeth, mae swyddogion tirweddau dynodedig ac aelodau o Gymru a'r ardal ehangach wedi pwysleisio'n gyson bod y cynlluniau rheoli yn gynlluniau ar gyfer rheoli'r parciau ac nid y corff a greodd y cynlluniau yn unig. Er mwyn cyflawni amcanion y cynlluniau rheoli yn llwyddiannus, felly, mae angen **hyrwyddo'r** cynllun a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill. Mae'r astudiaethau achos yn cynnwys tystiolaeth bod llawer o sefydliadau gwahanol yn gweithio mewn partneriaeth, gan arwain at amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol mewn tirweddau dynodedig. Nododd y ddau ddynodiad bod problemau'n deillio o ddyletswyddau A.82/S.65 ar gyrrff cyhoeddus *'i roi sylw dyledus'* i ddibenion Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Credir bod y ddyletswydd hon yn annigonol i sicrhau cydweithio a chydweithredu rhwng y cyrrff sy'n rheoli tirweddau dynodedig a chyrrff cyhoeddus eraill o safbwynt meithrin **galluoedd** mwy effeithiol ar gyfer darpariaeth. Yn ogystal, mae rhai'n dadlau nad yw'r dyletswyddau A.62/S.85 yn sicrhau bod gweithgareddau cyrrff cyhoeddus eraill mewn tirweddau dynodedig yn cyd-fynd o reidrwydd â natur yr ardaloedd hyn.

Mae angen cymorth digonol i sicrhau perfformiad effeithiol, gan gynnwys **cymorth ariannol** i helpu tirweddau dynodedig i lwyddo. Mae swyddogaeth tirweddau dynodedig fel lleoedd lle mae modd cydgysylltu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael ei dangos yn y dystiolaeth o'r ffynonellau cyllido amrywiol yn yr

astudiaethau achos a'r data ariannol a gyflwynwyd i'r adolygiad. Fodd bynnag, roedd pryderon ynglŷn â lefel sylfaenol y cyllid ar gyfer AHNE, sy'n peri pryder oherwydd natur ddewisol cyllid llywodraeth leol a **chynaliadwyedd ariannol** gwaith AHNE.

Mae **diwylliant dysgu** da yn ganolog i'r broses o sicrhau canlyniadau gwell yn y dyfodol mewn tirweddau dynodedig a thu hwnt sy'n seiliedig ar werthusiad cadarn o brofiad blaenorol. Mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, mae rhan o'r diwylliant dysgu hwn yn cael ei fynegi drwy'r cynlluniau gwella y mae angen eu cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, mae'r **diwylliant dysgu** yn ymestyn i gynlluniau rheoli tirweddau dynodedig hefyd, ac mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn mynd ati eu hunain i werthuso perfformiad cylchoedd blaenorol eu cynlluniau drwy ddefnyddio eu data eu hunain ac **adborth** rhanddeiliaid. Un peth nad yw'n amlwg yw bodolaeth fforwm sy'n galluogi tirweddau dynodedig Cymru i ddod ynghyd a myfyrio fel grŵp ar eu **heffeithiolrwydd rheoli**, gan ddarparu gofod ar gyfer trawsffrwythloni arferion gorau ledled y teulu tirweddau dynodedig.

Atebolrwydd

Mae bod yn atebol yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid ar bob lefel bod tirweddau dynodedig yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod eu perfformiad yn cyd-fynd â'r cyfeiriad a nodwyd ar gyfer llywodraethu tirweddau dynodedig, gan gefnogi dilysrwydd y dynodiad. Mae sicrhau atebolrwydd yn gofyn am **dryloywder** a **gwerthuso perfformiad** prosesau llywodraethu tirweddau dynodedig sy'n hyrwyddo **adborth** gan randdeiliaid/cymdeithas ehangach. Mae atebolrwydd hefyd yn golygu bod angen ateb clir i'r cwestiwn o bwy sy'n atebol a pha **swyddogaethau a chyfrifoldebau** sydd ganddynt ar gyfer rheoli ardaloedd gwarchoddedig. Efen allweddol o sicrhau atebolrwydd cyrff cyhoeddus sy'n llywodraethu tirweddau dynodedig yw'r angen am oruchwyliaeth ddigonol gan un sefydliad cyhoeddus neu fwy sydd â'r **gallu i oruchwyllo a chwestiynu** eu gwaith.

Mae cynrychiolaeth ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a JACs/grwpiau Partneriaeth AHNE yn sicrhau bod rhywfaint o gydbwysedd rhwng buddiannau cenedlaethol a lleol wrth reoli tirweddau dynodedig yng Nghymru. Mae pob dynodiad yn sicrhau'r cydbwysedd hwn mewn ffordd wahanol, yn enwedig ym maes rheoli AHNE, sy'n

adlewyrchu sefyllfa pob dynodiad penodol yn rhannol. Ceir bwloch mewn atebolrwydd wrth benodi aelodau awdurdodau lleol i fyrddau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a JACs/Partneriaethau AHNE. Mae'r gofyniad ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol a bennir gan A.15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 yn creu sefyllfa lle mae tirweddau dynodedig yn brin o gynrychiolaeth leol ar adegau, gan arwain at fylchau mewn **cyfrifoldeb ac atebolrwydd** tirweddau dynodedig i'w cymunedau lleol a'u rhanddeiliaid. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy amlwg yn sgil y cynigion i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru.

Yr hyn sydd ar goll i raddau mwy o'r prosesau hyn yw prosesau craffu annibynnol ar dirweddau dynodedig sy'n gallu **goruchwyllo gwaith** sefydliadau tirweddau dynodedig ac sy'n myfyrio mewn ffordd deg a rhesymol ar eu holl berfformiad, gan gynnwys eu cynlluniau rheoli. Mae angen unioni'r amryfusedd hwn drwy gynnal deialog rhwng aelodau'r dirwedd ddynodedig a'r corff goruchwyllo sydd nid yn unig yn darparu **adborth** ar waith tirweddau dynodedig ond hefyd yn datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo a'r angen i addasu'r gwaith o reoli tirweddau dynodedig i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal, disgwylir y bydd tirweddau dynodedig yn lleoedd **arloesol** ar gyfer yr economi werdd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau blaenllaw'r dyfodol, gyda'r Parciau Cenedlaethol yn gwirfoddoli i fod ymysg y cyntaf i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. O ganlyniad, mae angen i'r broses o graffu ar lywodraethu tirweddau dynodedig ystyried y potensial ar gyfer dysgu o brosiectau aflwyddiannus heb feirniadaeth gan y teulu llywodraethu ehangach, sydd hefyd yn berthnasol i'r egwyddor olaf o **Degwch a Hawliau**.

Tegwch a Hawliau

Mae dilysrwydd tirweddau dynodedig a llwyddiant darpariaeth drwy berfformiad effeithiol yn dibynnu'n rhannol ar y canfyddiad bod gweithgareddau sefydliadau tirweddau dynodedig yn cael eu cyflawni mewn ffordd deg ar gyfer y gymdeithas gyfan. Mae rheoli tirweddau dynodedig mewn ffordd deg yn golygu bod **hawliau gweithdrefnol** rhanddeiliaid yn cael eu parchu wrth lywodraethu tirweddau dynodedig. O ganlyniad,

dylai rhanddeiliaid dderbyn **gwybodaeth** berthnasol a rhaid **ymgyngori** â nhw cyn gwneud penderfyniadau. Mae tegwch hefyd yn golygu **rhannu costau a manteision** rheoli tirweddau dynodedig **mewn ffordd deg**. Yn ei hanfod, mae'r egwyddor o degwch yn berthnasol i bob un o'r pedair egwyddor arall.

Mae'r trefniadau cyllid cyhoeddus ar gyfer rheoli tirweddau dynodedig yn gymhleth. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn derbyn grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â chyllid grant yn ôl disgresiwn ar gyfer prosiectau arbennig, tra bod holl gyllid AHNE yn gyllid yn ôl disgresiwn, gan gynnwys unrhyw gyllid posibl gan awdurdodau lleol. Mae angen trafod sut i ariannu'r ddau fath o dirwedd ddynodedig. Mae tirweddau cenedlaethol Cymru yn sicrhau manteision ar gyfer y 25% o'r ardal sy'n ddynodedig ac ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'r ddau'n derbyn rhywfaint o gyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu ei hasiantaethau darpariaeth (CNC ac ati). Er bod cyllid cyhoeddus o bob math yn cael ei roi yn ôl disgresiwn, nid yw AHNE yn derbyn grant uniongyrchol gan y llywodraeth genedlaethol, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd yn ymwneud â'u cyllid. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i weithredu.

Dadansoddiad SWOT o'r broses gyfredol o lywodraethu tirweddau dynodedig

Mae Ffigur 14 yn cyflwyno dadansoddiad SWOT o'r broses gyfredol o lywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad SWOT yn ffigur 14 yn ddadansoddiad cyfunol o'r data sydd ar gael ar lywodraethu tirweddau dynodedig a'r dystiolaeth lafar a gyflwynodd amrywiaeth o randdeiliaid i banel yr adolygiad. Mae'n cysylltu cryfderau, gwendidau a chyfleoedd tirweddau dynodedig, a'r bygythiadau iddynt, â phum egwyddor llywodraethu da fel y'i cyflwynir gan IUCN, sy'n cael eu dangos hefyd.

Ffigur 14: Dadansoddiad SWOT o'r broses gyfredol o lywodraethu Tirweddau Dynodedig yng Nghymru

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> - Y gallu i sefydlu partneriaethau cynhyrchiol (DP) - Sylfaen ddeddfwriaethol glir ar gyfer dynodiadau a'u dibenion (DC) - Hanes llwyddiannus o roi prosiectau amrywiol ar waith (P) - Cyfoeth o asedau naturiol a chymdeithasol y mae modd manteisio arnynt mewn ffordd gynaliadwy (P) - Clwstwr o arbenigedd sefydledig (CP) - Mae'r tirweddau hyn yn bwysig iawn i'r cyhoedd yng Nghymru, ac i ymwelwyr â'r wlad (D) 	<ul style="list-style-type: none"> - Tensiynau rhwng grwpiau rhanddeiliaid e.e. defnyddwyr hamdden, trigolion a thirfeddianwyr - Diffyg arweiniad cenedlaethol (DCA) - Diffyg cyfleoedd i greu incwm e.e. o asedau sefydlog (P) - Camagraff y cyhoedd ynglŷn â phrosesau cynllunio (DT) - Sylfaen dystiolaeth wan i gyrff eraill ystyried y dibenion a'r cynlluniau rheoli (DPAT) - Mae'r gofyniad i sicrhau 'cydbwysedd gwleidyddol' ar gyfer penodiadau awdurdodau lleol i fyrddau/pwyllgorau DL yn lleihau nifer y Cynghorwyr lleol (DA) - Cytundebau cyllido bregus, yn enwedig ar gyfer AHNE (P)
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> - Bod yn ddarparwyr allweddol llesiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (DCPAT) - Bod yn sbardunwyr llwyddiannus yr economi werdd tros chwarter o Gymru (CP) - Arddangos dulliau arloesol gyda'r gorau yn y byd o reoli tirweddau gwarchoddedig i bawb (DCAT) - Defnyddio'r seilwaith mynediad presennol er budd economaidd a chymdeithasol (PT) 	<ul style="list-style-type: none"> - Cyllid cyhoeddus yn lleihau yn gyffredinol (P) - Mwy agored i doriadau cyllid yn ôl disgrisiwn (P) - Colli hyder cymunedau lleol/rhanddeiliaid (DAT) - Proses gynyddol o ymyleiddio mewn agendâu polisi cenedlaethol a rhanbarthol (DC) - Perygl o ymyleiddio o safbwynt amcanion llywodraeth leol (DP)

Nodiadau

D = Dilysrwydd a llais, C = Cyfeiriad, P = Perfformiad, A = Atebolrwydd, T = Tegwch a Hawliau

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod cryfderau a chyfleoedd llywodraethu tirweddau dynodedig yn deillio o'r gallu i arwain a sicrhau perfformiad ar gyfer y rhannau hyn o Gymru, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r gallu hwn i gyflawni eu dibenion a'u dyletswyddau presennol yn deillio o sylfaen ddeddfwriaethol gadarn sy'n berthnasol i'r cyrff sy'n rheoli tirweddau dynodedig a'r ffaith fod y tirweddau hyn yn hynod bwysig i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd arwyddocaol ar gael o ystyried cyfeiriad cyffredinol polisi Llywodraeth Cymru, ac wrth roi lle mwy blaenllaw i'r tirweddau fel asiantau darpariaeth ar gyfer paramedrau amrywiol cenedlaethau'r dyfodol a llesiant. Mae'r dadansoddiad hwn yn atgyfnerthu'r cyfiawnhad tros ymestyn a dyfnhau dibenion tirweddau dynodedig, fel bod ganddynt yr adnoddau deddfwriaethol a statudol gorau i gyflawni'r amcanion ehangach hyn. Mae angen gwneud hyn ar fyrder o ystyried cyflymder a chyfeiriad y newid mewn fframweithiau llywodraethu ehangach (yn enwedig y diwygiadau i lywodraeth leol a bil yr amgylchedd). Byddwn ni'n ystyried y materion hyn mewn ffordd systematig yn adrannau canlynol yr adroddiad.

Casgliad cyffredinol y dadansoddiad hwn, felly, yw bod y trefniadau llywodraethu presennol yn methu â bodloni neu ragori ar egwyddorion llywodraethu da presennol yr IUCN, yn enwedig wrth edrych tua'r dyfodol. Mae yna le sylweddol ar gyfer gwelliant adeiladol ac atblygol ym maes llywodraethu cyffredinol er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a'r bygythiadau drwy greu sylfaen fwy cadarn i fanteisio ar y cryfderau a'r cyfleoedd presennol.

Mae gwendidau a bygythiadau'r fframwaith presennol ar gyfer llywodraethu tirweddau dynodedig yn deillio'n bennaf o faterion yn ymwneud â dilysrwydd a llais. Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn llesteirio perfformiad ac arweiniad. Mae'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer y ddau fath o ddynodiad, sydd wedi datblygu fesul tipyn ac sy'n dameidiog i ryw raddau, yn lleihau eu gallu i gyfrannu at yr agenda bolisi ehangach yng Nghymru. Mewn sawl achos, maent wedi'u hymyleiddio yn y cyswllt hwn ar hyn o bryd, neu nid ydynt wedi ymwneud â'r datblygiadau polisi (e.e. twf Gwyrdd, Cynllun Datblygu Gwledig, iechyd a lles, strategaeth datblygu economaidd a'r fframwaith strategol arfaethedig presennol ar gyfer Amaethyddiaeth yng Nghymru). Mae'r materion hyn yn deillio o gyd-destun deddfwriaethol ehangach tirweddau dynodedig yng Nghymru a pherchenogaeth o'r dynodiadau hyn gan gyrrff cyhoeddus eraill yn hytrach nag o ddilysrwydd y cyrff sy'n rheoli'r tirweddau dynodedig.


Pennod 6.

Egwyddorion a Dibenion Tirweddau Dynodedig Cymru

6.1 Ailedrych ar argymhellion Cam Un a'r sail resymegol drostynt

- 6.1.1 Cyn i ni symud ymlaen i ystyried y weledigaeth a threfniadau llywodraethu, rydym wedi edrych eto ar ein hargymhellion cam un yng ngoleuni tystiolaeth yr ail gam ac wedi ystyried yr adborth a gawsom ers i ni gyflwyno ein hadroddiad interim cyntaf i'r Gweinidog yn gynnar yn 2015.
- 6.1.2 Mae ein canfyddiadau diwygiedig fel a ganlyn a dylid eu darllen fel argymhellion sy'n disodli'r argymhellion ym Mhennod 8 ein hadroddiad cam un. Mae'r 6 argymhelliad gwreiddiol yn cael eu cyflwyno ar eu ffurf wreiddiol yn Atodiad i.

Gwella mynediad i bawb drwy adeiladu llwybrau amlddefnydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri.



6.2 Yr Egwyddorion arweiniol sy'n sail i'r Dibenion

- 6.2.1 Yn ystod proses gasglu tystiolaeth y panel a'n trafodaethau cysylltiedig, daeth yn glir fod cyfres o egwyddorion pwysig yn ymddangos yr oeddem yn gytûn arnynt.

Argymhelliad 1

Ein hegwyddorion arweiniol:

- Mae angen i ni edrych ar y dibenion o fewn amserlen tymor canolig i dymor hir, er mwyn sicrhau'r un dilyniant yn y dyfodol ag a gafwyd dros y trigain mlynedd diwethaf.
- Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio dibynnu gormod ar y gorffennol wrth ffurfio gweledigaeth newydd ddiwygiedig ar gyfer y tirweddau dynodedig sy'n cydnabod yr heriau sylweddol maent yn eu hwynebu yn y dyfodol.
- Cysoni'r dibenion i gydnabod bod y ddau ddynodiad wedi bod yn gweithredu mewn gwirionedd ac i wahanol raddau y tu hwnt i'w cylch gwaith gwreiddiol ers cryn amser.
- Y dylai unrhyw newidiadau i ddibenion fod yn rhai parhaol, a chlr ac yn debygol o sicrhau ac ymgorffori'r flaenoriaeth a roddwyd o dan 'Egwyddor Sandford', gan roi blaenoriaeth i'r diben cyntaf. Daeth yn glir hefyd, pe byddai nifer y dibenion yn cynyddu, (a) y byddai'n rhaid i'r rhai eraill roi blaenoriaeth i'r gyntaf mewn achos o wrthdaro clir; ac, yr un mor bwysig, (b) byddai'r gweddill yn cydatgyfnerthu a rhwymo i gyflawni'r cyntaf. Mae'r dull hwn, sef "Sandford Uwch", yn cysylltu ac integreiddio unrhyw ddibenion ychwanegol.
- Roedd dadl gref hefyd dros ailystyried y dyletswyddau statudol ar gyrrff cysylltiedig er mwyn eu hegluro a'u cryfhau. Dylai hyn sicrhau bod y cyrrff tirweddau dynodedig eu hunain a'r sefydliadau cenedlaethol a lleol perthnasol – gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau a Llywodraeth Cymru – yn cydymffurfio â'r dibenion a'r ddyletswydd.
- Sylweddoli pwysigrwydd rhwymedigaethau rhyngwladol; y gwersi a'r cyfleoedd maent yn eu rhoi i Gymru.
- Sicrhau bod y dibenion yn gallu parhau i fodloni rhwymedigaethau rhyngwladol a safonau cadwraeth natur a gwarchod tirweddau e.e. categorïau IUCN a'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, ac annog eu cyrrff perthnasol i gynnal a rhagori ar y rhwymedigaethau a'r safonau hynny.
- Ymdrechu i gael dibenion sy'n barhaol ac y gellir eu defnyddio mewn ardaloedd eraill yn y dyfodol, yn cynnwys ardaloedd morol.
- Dylai unrhyw newidiadau a argymhellir i gyfeiriad a/neu eiriad y dibenion gael eu

gwneud yn y cyd-destun eu bod yn: (a) glir, manwl, diamwys a chyson; (b) yn hawdd i'w deall ac yn cyfleu cyfeiriad clir; (c) yn gadarn yn gyfreithiol a thechnegol.

- Dylai unrhyw newidiadau a argymhellir sicrhau cydbwysedd doeth rhwng darparu diben cyson cyffredinol, ac annog a dathlu amrywiaeth naturiol a diwylliannol y teulu o dirweddau gwarchoddedig eu hunain.
- Parhau i ystyried cryfder a gwerth y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a pheidio â thanseilio eu manteision ledled Cymru.
- Osgoi cyfaddawdu y lleoedd hyn drwy osod unrhyw faich ychwanegol diangen ar bwrs y wlad; a gwella effeithlonrwydd arian cyhoeddus lle bo'n bosibl.
- Dehongli'r dibenion a'r dyletswyddau mewn ffyrdd sy'n cyflawni ar draws agenda bolisi Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r egwyddorion arweiniol hyn.

6.2.2 Maent yn sail i'r dibenion ac yn rhoi sylfaen i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Maent hefyd yn bwysig yn yr ystyr eu bod yn sail ar gyfer gwneud yr hyn a ystyriwn yn newidiadau parhaol a gwydn ac yn gallu addasu i heriau presennol ac yn y dyfodol.

6.2.3 Rydym yn ymwybodol iawn fod yr ieithwedd a awgrymwn o dan Argymhelliad 6 ac 8 yn amodol ar gyngor cyfreithiol, ond byddem yn disgwyl i unrhyw addasiad posibl adlewyrchu'r egwyddorion arweiniol hyn.

6.3 Un dynodiad?

6.3.1 Mae'r mwyafrif llethol o randdeiliaid wedi datgan yn glir nad oes fawr o awydd gweld un dynodiad ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac yn wir mae yna wrthwynebiad sylweddol i'r syniad. Nid ydym yn credu bod hwn yn safbwynt ceidwadol. Yn hytrach, mae'n ymwneud â'r potensial ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer brandio'r tirweddau dynodedig yn rhyngwladol. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i gadw amrywiaeth o drefniadau rheoli'n seiliedig ar leoedd, a'u dathlu a'u hyrwyddo yn unol â hynny. O ystyried y safbwyntiau hyn a gweithredu ein hegwyddorion arweiniol rydym ninnau hefyd yn cytuno â'r safbwynt hwn.

Argymhelliad 2

Ni ddylid cael un dynodiad yn unig.

6.3.2 Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod yna sail dros, a chryfderau yn y dyfodol mewn argymell **yr un set o ddibenion statudol** ac un ddyletswydd statudol gysylltiedig ar gyfer y ddau ddynodiad. Argymhellir hyn yn arbennig gan fod ganddynt statws cyfreithiol cenedlaethol a rhyngwladol cyfwerth a bod angen meithrin statws cenedlaethol mwy cyson i'r ddau ddynodiad o fewn y Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol cyffredinol (gweler Pennod 8). Ar yr un pryd, bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran diben gan ddathlu amrywiaeth unigryw y tirweddau hyn.

Argymhelliad 3

Dylid cael UN set o ddibenion statudol ac un ddyletswydd statudol gysylltiedig ar gyfer y ddau ddynodiad.

6.4 Tirweddau Cenedlaethol Cymru

6.4.1 Yn ein barn ni y ffordd orau o gyflawni cymeriad a gwerth unigryw y ddwy dirwedd ddynodedig statudol yw: (i) cael un set o ddibenion statudol clir, a (ii) drwy gadarnhau eu pwysigrwydd cenedlaethol fel prif **Dirweddau Cenedlaethol Cymru** a warchodir yn statudol, o fewn Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol integredig (gweler Pennod 8) o fewn set ehangach o ddynodiadau mewn rhwydwaith mwy cysylltiedig.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r enwau "Parciau Cenedlaethol" ac "Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol" (AHNE) fel prif ddynodiadau "Tirweddau Cenedlaethol Cymru".

6.4.2 Mae'r addasiad, gan greu term ambarél "Tirweddau Cenedlaethol Cymru", yn amserol er mwyn i'r ddau fath o dirwedd ddynodedig ennill statws cenedlaethol a rhyngwladol a datblygu er bod iddynt gyd-destunau gwahanol o ran tirwedd. Fe'i gwnaed yn glir i ni y bydd pwysleisio statws cenedlaethol yr AHNE a'r Parciau Cenedlaethol yn gwella eu statws lleol, rhanbarthol a rhyngwladol, ac yn cadw eu brand unigryw. Mae cydnabyddiaeth genedlaethol a chydberchnogaeth ar y dynodiad yn agwedd bwysig ac yn cysylltu ag ymdeimlad y cyhoedd o berthyn i le.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyfundrefn enwi gyson a chadarn, a'r enw ar y ddau ddynodiad gyda'i gilydd fydd:

"Tirweddau Cenedlaethol Cymru"

Bydd "Parc Cenedlaethol" ac "Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol" yn "Ddynodiadau Cyfwerth"

Byddai gan y Dynodiadau Cyfwerth yr un dibenion a dyletswyddau statudol

6.4.3 Er y gallai fod yn fwy o her, o dan yr amgylchiadau llywodraethu cyfredol o leiaf, i gyflawni'r holl nodau ac amcanion hyn yn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol llai o faint, teimlwn fod ganddynt lawer i'w ddysgu a'i ennill drwy fod mewn rhwydwaith llawer mwy effeithiol gyda'r Parciau Cenedlaethol cyfredol.

6.5 Dibenion statudol newydd a dyletswydd statudol ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Argymhelliad 6

Dylai fod *TRI* diben statudol *CYDGLOËDIG* ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE.

sef:

“Gwarchod a gwella’r dirwedd unigryw a rhinweddau morweddol yr ardal¹⁴.”

(Diben Cadwraeth)

“Hybu lles ffisegol a meddyliol drwy fwynhau a deall tirwedd yr ardal.”

(Diben Lles Dynol)

“Hybu ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad economaidd a chymunedol yn seiliedig ar reoli adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.”

(Diben Rheoli Adnoddau Cynaliadwy)

- 6.5.1 Bydd y flaenoriaeth a roddir i’r diben cadwraeth (diben 1) yn parhau i fod yn elfen hanfodol ac unigryw i ddatblygiad Tirweddau Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rhaid i’r diben hwn gael blaenoriaeth dros y gweddill os yw’n ymddangos eu bod yn gwrthdaro. Dyma ‘Egwyddor Sandford’ yn cael ei ddefnyddio eto.
- 6.5.2 Dyma fyddai’r tro cyntaf y byddai Egwyddor Sandford yn gymwys ar gyfer AHNE a thrwy hynny, caiff eu statws sy’n cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel tirweddau gwarchodedig IUCN Categori 5 yn cael ei wella a’i gryfhau.
- 6.5.3 Mae’r ail a’r trydydd diben wedi eu creu’n benodol i glymu a chydgloi â’r gwaith o gyflawni’r diben cyntaf, a galwn hyn yn ddull ‘Sandford Uwch’. Mae model Parciau Cenedlaethol yr Alban yn seiliedig ar bedwar nod (diben), ond mae’n ddarostyngedig i Egwyddor Sandford wedi’i haddasu, y deddfir ar ei chyfer yn Neddf Parciau Cenedlaethol (Yr Alban) 2000.

“In exercising its functions a National Park authority must act with a view to accomplishing the purpose set out in subsection (1); but if, in relation to any matter, it appears to the authority that there is a conflict between the National Park aim set out

¹⁴ Pan fo ‘tirwedd’ yn cynnwys holl amgylchedd naturiol yr ardal, ynghyd â’i bioamrywiaeth, setliadau dynol ac agweddau diwylliannol. Mae’n bwysig iawn pwysleisio arwyddocâd datblygu elfennau diogelu bioamrywiaeth ac adfer yn y Diben Cadwraeth a hyrwyddo cynnydd tuag at fodloni safonau rhyngwladol y Confensiwn Bioamrywiaeth Rhyngwladol nad ydynt wedi’u bodloni yng Nghymru eto. Mae hwn hefyd yn cynnwys diffiniad y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (Cyngor Ewrop, 2000) o dirwedd fel ‘ardal, wedi’i dehongli gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol’. (Erthygl 1a.) Ac mae’n cymryd yr eir ati i wella ‘camau gweithredu i warchod a chynnal arwyddocâd neu nodweddion tirwedd, a gyfiawnheir gan ei gwerth treftadol sy’n deillio o’i chyfluniad naturiol ac/neu o weithgarwch dynol’ (erthygl 1d).

in section 1(a) and other National Park aims, the authority must give greater weight to the aim set out in section 1(a).” (Deddf Parciau Cenedlaethol (Yr Alban) 2000 a. 9(6))

Argymhelliad 7

Bydd Egwyddor Sandford, sy’n cadarnhau blaenoriaeth y diben cadwraeth, yn cael ei defnyddio ar draws yr holl dirweddau dynodedig.

- 6.5.4 Ar hyn o bryd, mae gan bob corff sector cyhoeddus perthnasol (gan gynnwys awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru) ac ymgwymerwyr statudol (h.y. y cwmnïau cyfleustodau) ddyletswyddau cyfreithiol i roi sylw llawn i ddibenion y Parciau Cenedlaethol a’r AHNE wrth gyflawni eu gwaith (a.62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac a.85(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gyfer AHNE).
- 6.5.5 Fodd bynnag, rydym wedi cael tystiolaeth ddigamsyniol fod cyflawni’r dibenion presennol yn llawn yn ymarferol yn cael ei wanhau gan y geiriad amwys “rhoi sylw i” yn y ddyletswydd statudol ar hyn o bryd. Mae hyn wedi cynnwys cyrff cyhoeddus yn peidio â gorfod rhoi ystyriaeth ddifrifol i sut maent yn cyfrannu at y dibenion, lefel isel o ymwybyddiaeth ymhlith yr awdurdodau perthnasol, heb unrhyw adrodd ar weithrediad e.e. gall adrannau priffyrdd awdurdodau lleol ganolbwyntio ar ddefnyddioldeb cynnal priffyrdd ar draul amwynder gweledol.
- 6.5.6 Felly, rydym yn argymhell ei bod yn bwysig iawn ychwanegu dyletswydd ddiwygiedig gliriach sy’n rhwymo ac wedi’i geirio’n gliriach at y dibenion statudol diwygiedig ac estynedig.

Argymhelliad 8

Dylai fod un Ddyletswydd Statudol newydd sy’n dileu’r geiriad gwan “rhoi sylw i” yn y dyletswyddau cyfredol ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol, a chyflwyno un ddyletswydd eglur yn eu lle:

“Cyfrannu at gyflawni tri diben y Tirweddau Cenedlaethol.”


6.5.7 Mantais hyn yw creu cysondeb, eglurder a symlrwydd, gan gryfhau'r ddyletswydd statudol sy'n deillio o'r un gyfres o ddibenion. Bydd y ddyletswydd yn gymwys i gyrff cyhoeddus perthnasol a phob ymgymerydd statudol.

6.6 Ein sail resymegol dros y pecyn diwygiedig o Ddibenion, y Ddyletswydd a'u hintegreiddiad gweithredol

6.6.1 Rydym wedi creu'r dull cydgloëdig hwn yn arbennig (gweler Ffigur 15) i roi pwyslais cryfach ar glymu'r tri diben wrth ei gilydd, er mwyn iddynt atgyfnerthu ei gilydd. Y diben cyntaf fydd yn cael blaenoriaeth pan fydd materion yn gwrthdaro.

6.6.2 Mewn gwirionedd rydym yn disgwyl mai eithriadau fydd achosion o'r fath. Rydym yn rhagweld prosesau a chynlluniau rheoli mwy rhagweithiol ar gyfer monitro, llunio a chyflawni datblygiadau yn y Tirweddau Cenedlaethol sy'n darparu manteision i atgyfnerthu pob un o'r tri phwrpas (mae'r astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau o arferion da). Dylai fod yn ofynnol i ddatblygiadau yn y Tirweddau Cenedlaethol ddangos sut maent yn cyflawni'r tair mantais. Gallai hyn gael ei ystyried yn drydydd addasiad Sandford – 'mantais cyd-ddibenion' - annog datblygiadau yn y cam cychwynnol i anelu at, a chyflawni pob un o'r tri diben wrth iddynt gynllunio eu cynigion.

Figure 15: Y Tri Diben Statudol Cydgloëdig Newydd.



- 6.6.3 Yn seiliedig ar gorff mawr o dystiolaeth, mae'n well gan y panel y geiriau "**tirwedd a morwedd unigryw**" na "harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol" yn y diben cyntaf gan eu bod yn cwmpasu'r elfennau hyn yn ogystal â natur a bioamrywiaeth yn gyffredinol. Yn yr achos hwn, mae tirwedd a morwedd yn seiliedig ar ddiffiniad safonol a gytunwyd yn rhyngwladol ac a welir yn y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, a byddai ei dderbyn a'i ymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig yn gam i'w groesawu ac yn gosod Cymru ar wahân i weddill y DU.
- 6.6.4 Rydym yn cynnwys y gair "**morwedd**" yn ogystal â thirwedd gan fod mwyafrif (5 o'r 8) Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cynnwys ardaloedd arfordirol a bod y rhyngweithio rhwng y tir a'r môr yn creu a gwella llawer o'u rhinweddau arbennig.
- 6.6.5 Rydym yn argymhell ffocws cryfach a chliriach ar **les corfforol a meddyliol, yn gysylltiedig â mwynhau a deall**, gan ein bod o'r farn ei bod hi'n bwysig cysylltu'n uniongyrchol ag agenda ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar lesiant a chenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gweld y bydd gan Dirweddau Cenedlaethol Cymru rôl unigryw, creadigol a mwy rhagweithiol yn y gwaith o gyflawni'r agenda lesiant yn y dyfodol o ystyried anghenion newidiol y gymdeithas - er enghraifft, lleddfu tloedi.
- 6.6.6 Nid ymwneud â mynediad yn unig mae hyn. Mae'n cysylltu hefyd â rôl Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn parhau i ddenu grwpiau eang ac amrywiol o ymwelwyr ac yn cyflawni swyddogaeth addysgol a gwella bywyd mwy rhagweithiol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Byddant yn wynebu galw ehangach a mwy dwys gan y cyhoedd yn y dyfodol, ac mae'n bwysig bod galw o'r fath yn cael ei reoli mewn ffyrdd sy'n gwella manteision lles a budd cyhoeddus yn gyffredinol ar gyfer poblogaeth gynyddol a mwy amrywiol.
- 6.6.7 Rydym yn argymhell trydydd diben **unigryw a chydglöedig** newydd sy'n hyrwyddo **dulliau rheoli adnoddau naturiol integredig gyda datblygiad economaidd a chymunedol, ac sy'n cefnogi treftadaeth ddiwylliannol gyffredinol yr ardal**. Credwn yn gryf fod angen i Dirweddau Cenedlaethol Cymru fod yn lleoedd economaidd a chymunedol bywiog. O ystyried eu daearyddiaeth a dibenion eraill, maent mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru i ddarparu a hyrwyddo'r economi werdd a arweinir gan dirweddau drwy fanteisio ar eu hasedau naturiol a thirweddol unigryw. Mae hyn yn cynnwys ymestyn y ddarpariaeth o wasanaethau amlswyddogaethol ac ecolegol cenedlaethol a rhanbarthol o'u gwahanol adnoddau dŵr, amaethyddiaeth,

twristiaeth a thir coedwigaeth a biosffer. Felly mae'n bwysig cysylltu'r elfennau hyn mewn trydydd diben unigryw.

- 6.6.8 Dylid nodi hefyd mai amcan y set o ddibenion a argymhellir yw cysoni rôl unigryw'r dynodiadau a'r gwaith o gyflawni saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o ran darparu sylfaen ar gyfer gwneud cyfraniadau unigryw i'r nodau ehangach hyn (h.y. **llewyrch, cydnerthedd, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, diwylliant a chyfrifoldeb byd-eang**) er budd pobl a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn gyffredinol.

Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru: Beth ddylai Cymru ei ddisgwyl gan y 25%?

7.1 Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

- 7.1.1 Mae ein gweledigaeth a'n disgwyliadau ar gyfer y chwarter arwyddocaol hwn o arwynebedd tir Cymru yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom, cyd-destun newidiol ein Tirweddau Cenedlaethol a'u cyfres newydd o ddibenion. Rydym yn argymhell y weledigaeth newydd unedig hon ar gyfer yr wyth Tirwedd Genedlaethol yng Nghymru:

Argymhelliad 9

Gweledigaeth ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

Mae Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwerthfawrogi gan y genedl fel "ffatrioedd llesiant" pwysig sy'n gwella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy eu tri diben. Mae eu nodweddion arbennig yn cael eu cynnal, eu gwella a'u gwerthfawrogi yn eang. Maent yn ardaloedd ar gyfer cydweithredu arloesol yn seiliedig ar leoedd, sy'n mynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru, ac sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel arweinwyr ym maes datblygu cynaliadwy.

7.2 Gweledigaeth ar gyfer Ymaddasu

- 7.2.1 Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth hon, bellach mae angen trefnu'r gwaith cyffredinol o lywodraethu tirweddau dynodedig Cymru, fel y'u diffiniwyd yn gynharach ym Mhennod 5, mewn ffyrdd sy'n: **hybu'r broses o drawsnewid ac addasu eu swyddogaethau a chanlyniadau i'w gwneud yn bosibl parhau i gyflawni eu dibenion newydd yn effeithiol a pharhaus**. Felly mae angen addasu'r prosesau llywodraethu, y cysylltiadau a'r strwythurau i ddilyn o'r egwyddorion, a'r dibenion a'r ddyletswydd statudol newydd rydym yn eu hargymhell yn yr adroddiad hwn (gweler Pennod 6). Mae angen i ffurf a phroses ddilyn swyddogaeth yn glir, yn dryloyw ac yn effeithiol, ac

mewn ffyrdd sy'n gwella perfformiad y Tirweddau Cenedlaethol a'u cyrff yn cyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ar gyfer pobl Cymru.

7.2.2 Mae angen gosod y broses o'u llywodraethu yn rhan o Fframwaith Polisi Cenedlaethol ar gyfer tirweddau dynodedig (a elwir yn Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol, fel y nodir ym Mhennod 8). Mae'n bwysig cydnabod nad fframwaith polisi amgylcheddol yn unig yw hwn (er y bydd polisi amgylcheddol yn amlwg yn hwyluso ac yn sail i Bolisi Cenedlaethol). Mae'n darparu sylfaen ehangach o lawer i'r Tirweddau Cenedlaethol gyfrannu at bolisiau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd, iechyd, addysg a datblygu cymunedol, ac rydym yn trafod yr ysgogiadau hyn isod.

7.2.3 Mae angen i'r weledigaeth arwain a rhoi cyfeiriad i brosesau llywodraethu aml-lefel dynamig ar gyfer y lleoedd arbennig hyn. Yna gellir hyrwyddo Tirweddau Cenedlaethol fel lleoedd arweiniol ac arloesol ar gyfer hybu ac integreiddio'r economi amgylcheddol, a'r nodau llesiant a chynaliadwyedd, a'u sefydlu'n ganolfannau rhanbarthol ar gyfer datblygu gwledig cynaliadwy a darparwyr gwasanaethau ecosystem.

7.2.4 Yma, rydym yn amlinellu rhai o'r prif ddisgwyliadau a'r ysgogiadau sy'n llywio ac yn cynnig tystiolaeth o'n gweledigaeth ar gyfer y chwarter arwyddocaol hwn o arwynebedd tir Cymru. Yn y bennod nesaf (Pennod 8) byddwn yn nodi'r trefniadau llywodraethu newydd y teimlwn eu bod yn ofynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni cymaint ag y gallwn.

7.3 Llywodraethu gwledig gan gynnwys datblygu rhanbarthol cynaliadwy

7.3.1 Ym Mhennod 6 rydym wedi cyflwyno dibenion wedi'u cryfhau a'u hehangu ar gyfer y tirweddau dynodedig. Yng ngham dau, mae un egwyddor bwysig sy'n sail i'n hystyriaeth o brosesau llywodraethu tirweddau dynodedig yn ymwneud â chyflawni a datblygu'r tri diben yn effeithiol.

7.3.2 O ganlyniad, mae prosesau a ffurfiau llywodraethu wedi gorfod dilyn swyddogaeth, gweledigaeth a chanlyniadau dymunol, ac mae angen i'r canlyniadau hyn fod yn gymwys ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. Yn hyn o beth, aethom ati i gasglu a chyfosod ystod eang o dystiolaeth ynglŷn â llywodraethu gwledig, gan gynnwys

datblygu rhanbarthol yn fwy cyffredinol, ac i archwilio'r mathau mwyaf effeithiol o fodelau llywodraethu a ddatblygwyd mewn mannau eraill.

- 7.3.3 Yn ogystal ag adolygu'r llenyddiaeth helaeth sy'n ymwneud â rheoli Ardaloedd Gwarchoddedig, ceir nifer o ffynonellau pwysig a pherthnasol o dystiolaeth ymchwil ryngwladol ar ddatblygu gwledig cynaliadwy. Mae'r dystiolaeth empirig hon yn bwysig er mwyn gosod y cyd-destun dynamig ar gyfer tirweddau gwarchoddedig ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth yn bwysig hefyd am ei bod yn dechrau dangos sut y gall yr ardaloedd hyn gyfrannu'n fwyaf effeithiol at nodau datblygu gwledig cynaliadwy ehangach. Yn wir, er mwyn i'r dynodiadau presennol ddatblygu cyfreithlondeb a chefnogaeth ymhlith eu poblogaethau lleol a chyfagos, gallwn ddadlau y bydd yn hanfodol iddynt gael eu gweld yn darparu manteision gwledig a threfol ehangach.
- 7.3.4 Felly, rydym wedi crynhoi llawer iawn o lenyddiaeth wyddonol ar ddatblygu gwledig isod, ac wedi pwysu ar ein gwybodaeth weithredol a'n profiad o ymchwil ryngwladol gymharol dros yr 20 mlynedd diwethaf yn y meysydd hyn
- 7.3.5 *Troi bregusrwydd yn gadernid*
- 7.3.6 Mae rhanbarthau gwledig yn Ewrop yn wynebu llwybrau datblygu sy'n wahanol. Mewn sawl ffordd, mae rhanbarthau gwledig yn mynd yn fwy bregus, yn hytrach na gwydn, wrth i'w hamaethyddiaeth naill ai gael ei gwthio fwyfwy i'r cyrion neu gael ei dwysau. Hefyd, rhaid i lawer o ranbarthau gystadlu'n fyd-eang am gyfalaf, buddsoddiad a llafur symudol.
- 7.3.7 *Amlswyddogaetholdeb gwledig yn seiliedig ar leoedd*
- 7.3.8 Ar y llaw arall, i gydbwysu'r rhesymeg 'ras i'r gwaelod' fyd-eang hon, mae strategaethau newydd wedi'u seilio'n fwy ar leoedd yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo (Horlings a Marsden, 2014). Gellir gweld y strategaethau hyn yng nghyd-destun y 'Patrwm Gwledig Newydd' ar gyfer rhanbarthau gwledig Ewrop a gafodd ei hyrwyddo gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2006, yn seiliedig ar bedair nodwedd allweddol, sef:
- i. ymagwedd newydd amlsector, amlswyddogaethol newydd yn seiliedig ar leoedd tuag at ddatblygu gwledig, gyda chysylltiadau agosach rhwng yr economi wledig a'r economi drefol;

- ii. gweld a galluogi ardaloedd gwledig fel rhan o ranbarthau mwy dynamig a deallus;
- iii. addasu i newid o sefyllfa sy'n cael ei hysgogi gan gymorthdaliadau i fuddsoddiadau mwy amrywiol o ran eu tarddiad a'u pwysau;
- iv. manteisio i'r eithaf ar gyfres ehangach o adnoddau nas defnyddiwyd hyd yma – megis dulliau sydd bellach wedi'u mabwysiadu mewn termau fel 'gwasanaethau ecosystemau' a 'rheoli adnoddau naturiol yn integredig'.

7.3.9 *Datblygu a gwella "Gweoedd Gwledig"*

7.3.10 Cafwyd ymchwil empirig sylweddol ynghylch y newid hwn yn y dull dros y degawd diwethaf (van der Ploeg a Marsden, 2008; Milone a Ventura 2010), yn enwedig mewn perthynas â llwybrau i sefydlu datblygu gwledig newydd a mwy cynaliadwy ar gyfer addasu sawl dimensiwn allweddol: cyfalaf cymdeithasol, cynaliadwyedd, trefniadau sefydliadol, rheoli marchnadoedd, defnyddio ac ailddiffinio adnoddau lleol, cynhyrchu pethau newydd - fel bod dwysedd gweoedd a ffocysau gwledig yn cael ei gynyddu. Yn fyr, drwy ailosod y seiliau, ac ehangu a dyfnhau strategaethau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mwy gydnherthedd gwledig yn bodoli, gyda phwyslais cryfach ar arloesi lleol a rhanbarthol, yn enwedig ffurfiau newydd ar arloesedd cymdeithasol.

7.3.11 *Yr angen am lywodraethu aml-lefel effeithiol*

7.3.12 Mae'r wladwriaeth aml-lefel yn chwarae rhan allweddol, er yn wahanol i'r hyn a fu, yn y broses hon o gynnull gweoedd a ffocysau gwledig. Mae'n annog datblygu gwefannau a gweithgarwch amlswyddogaethol a fydd, yn ei dro, yn datblygu factor ehangach o weithgarwch economaidd yn seiliedig ar gyfalaf cymdeithasol, rhwydweithiau a datblygu sgiliau. Gall y wladwriaeth, Llywodraeth Cymru yn ein hachos ni, helpu i ddarparu'r seilwaith ffisegol a chymdeithasol er mwyn i'r sector dinesig/trydydd sector/ sector preifat allu symud datblygu gwledig cynaliadwy yn ei flaen.

7.3.13 *Atal colli seilwaith gwledig*

7.3.14 Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys nodwedd bwysig arall sy'n dangos bod ardaloedd gwledig wedi bod ar eu colled am gyfnod hir yn hanesyddol mewn perthynas â seilweithiau o'r fath (boed yn gysylltiedig â gwasanaethau, gwasanaethau iechyd ac addysg, siopau, proseswyr bwyd a choedwigaeth ac ati). Yn ogystal, mae'r ffocws

dinas-ranbarthol cyfredol ar ddatblygiadau macro-economaidd yn tueddu'n aml i gymryd yn ganiataol fod seilweithiau'n fwyfwy niferus i ffwrdd o ardaloedd gwledig.

7.3.15 *Deall yr economi ddosbarthedig*

7.3.16 Fodd bynnag, mae angen i ddatblygu gwledig feithrin cyfres fwy dosbarthol a dosbarthedig o wasanaethau a gweithgareddau economaidd gyda'r nod o sicrhau ei fod yn chwarae rhan lawnach yn y broses o ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n deillio o'r economi werdd - economi a fydd unwaith eto yn seiliedig ar y tir, ac adnoddau naturiol a biolegol cefn gwlad. Mae ein Tirweddau Dynodedig cyfredol yn cyflenwi ystod o nwyddau a gwasanaethau dosbarthedig iawn (er enghraifft, dŵr, bwyd, ffeibr, manteision iechyd a lles). Felly mae gan y patrwm gwledig newydd lawer i'w gynnig i ardaloedd gwledig o ran manteisio ar yr economi werdd newydd a chreu systemau mwy dosbarthedig o weithgarwch economaidd, gan fanteisio'n llawn ar gyfryngau digidol a rhithwir. Mae absenoldeb band eang mewn llawer o ardaloedd gwledig yn dal i fod yn gyfyngiad mawr ar yr union adeg y daw'n wasanaeth disgwylidig ar gyfer darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau gwledig.

7.3.17 *Symud tuag at "gyfrifo cost lawn" nwyddau a gwasanaethau gwledig a'r economi werdd*

7.3.18 O'r cychwyn, mae'n bwysig gweld y synergedd rhwng economi werdd cefn gwlad a'i 'hamgylchedd' fel y rhan ganolog o'i sylfaen asedau economaidd a chymdeithasol. Felly, wrth wraidd y patrwm gwledig newydd, mae natur integredig yr economi werdd, economi sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar reoli bwndeli o adnoddau naturiol yn weithredol a chynaliadwy yn ôl ei ddefnyddioldeb posibl. Mae'r bwndeli o adnoddau hyn yn amrywio o le i le ac felly hefyd y bydd natur a llwybrau datblygu economaidd cynaliadwy a gwyrdd. Mae tirweddau dynodedig fel *tirweddau a reolir sy'n seiliedig ar leoedd* yn ganolfannau allweddol felly ar gyfer datblygu'r economi werdd integredig hon, a mater i'w mecanweithiau llywodraethu yw dod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fanteisio ar, ac ysgogi arferion sy'n seiliedig ar leoedd.

7.3.19 Mae Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU (2014) yn ddiweddar yn cynnwys neges bwerus am yr angen i integreiddio asedau naturiol prin a bregus yn y broses o gyfrifo'r perfformiad economaidd cenedlaethol yn gyffredinol. Mae'n cydnabod eu bod wedi cael eu tanbrizio'n gyson mewn dadansoddiadau economaidd a phrosesau

gwneud penderfyniadau confensiynol. Yng Nghymru, mae'r uniad rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnal egwyddorion rheoli adnoddau'n integredig fel cysyniadau allweddol sy'n sail i brosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio adnoddau.

7.4 Gwireddu ein disgwyliadau ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

7.4.1 Tirweddau Cenedlaethol fel "ffatrioedd llesiant" ar gyfer Cymru:

7.4.2 Cawsom dystiolaeth ynglŷn â'r nifer o ffyrdd y mae rheolwyr Tirweddau Cenedlaethol yn gweithio i wella lles pobl Cymru, gan gynnwys: datblygu economaidd lleol, ehangu mynediad i bobl sy'n byw mewn tldi neu leiafrifoedd ethnig a phobl ifanc, datblygu sgiliau a meithrin hyder.

7.4.3 Mae adroddiad Parciau Cenedlaethol Cymru, 'Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru'(PCC et al, 2013), adroddiad Cymdeithas Genedlaethol AHNE "The Value of AONB Partnerships" (LUC, 2013) a'r adroddiad a gomisiynwyd gan CNC, 'Welsh Areas of Outstanding Natural Beauty: SDF 5 Year Review' (Resources for Change, 2015), yn dangos yn glir fod yr ardaloedd hyn eisoes yn darparu cyfleoedd datblygu economaidd, a bod potensial o'u mewn i wneud mwy. Er enghraifft, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddealltwriaeth ynglŷn â thaliadau am wasanaethau ecosystemau (PES), sy'n cynnwys:

- gwrthbwysu carbon
- buddsoddi mewn ynni trydan dŵr
- storio carbon a dŵr ar ucheldir
- cydweithredu â Byrddau Iechyd Lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol

7.4.4 Rydym yn deall bod tri chwarter poblogaeth Cymru yn ymweld â Pharc Cenedlaethol bob blwyddyn. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwario £250,000 y flwyddyn ar reoli Llwybr yr Arfordir, ond mae'n denu £25m i mewn i'r economi leol. Roedd adroddiad Land Use Consultants (LUC, 2012) yn nodi'r gydberthynas bwysig rhwng gwerth uchel y dirwedd a gwasanaethau ecosystemau.

7.4.5 Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (gweler Pennod 5 a'r astudiaethau achos) yn gallu ysgogi arian ychwanegol ar gymhareb o 1:4, sy'n fuddsoddiad sylweddol yng nghydestun y Gymru wledig - a gwledig iawn weithiau.

- 7.4.6 Mae llawer o'n hastudiaethau achos yn dangos hefyd sut y gellir seilio ffurfiau mwy cynaliadwy o ddatblygu economaidd a chymunedol ar agweddau o reolaeth amgylcheddol e.e. prosiect Newid Hinsawdd a Rhywogaethau Goresgynol Eryri; Clwydian Range Lamb, prosiect Tirwedd Gŵyr.



Gan helpu i gefnogi cymunedau lleol cynaliadwy, cafodd Siop Gymunedol Llanmadog gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer paneli solar ffotofoltaig a mesurau arbed ynni yn AHNE Gŵyr

- 7.4.7 Fel y dywedodd Prif Swyddog Gweithredol un o Barciau Cenedlaethol yr Alban: "maent yn darparu llawer am ychydig." Ar adeg o gyfyngu ariannol, dyma'r sgiliau entrepreneuraidd cymdeithasol sydd eu hangen arnom i fanteisio ar, a datblygu ardaloedd gwledig Cymru ymhellach.
- 7.4.8 Mae angen i adeiladu cyfalaf cymdeithasol, sgiliau a menter fod yn rôl ganolog i'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol er mwyn i ni allu cyflawni ein dibenion a'n gweledigaeth newydd. Dylai'r 'ffatrioedd llesiant' newydd dynamig a chynhyrchiol hyn a ragwelwyd gennym fynd i'r afael â'r gwaith o ddatblygu ac ysgogi partneriaethau menter lleol, tai fforddiadwy cynaliadwy, ynni gwyrdd a mentrau manwerthu.

Argymhelliad 10

Dylai'r 'ffatrioedd llesiant' a ragwelwyd gennym, Tirweddau Cenedlaethol Cymru, ddatblygu ac ysgogi mwy o bartneriaethau menter lleol, tai fforddiadwy cynaliadwy, ynni gwyrdd a mentrau manwerthu.


Argymhelliad 11

Bydd adeiladu ar y mentrau datblygu cymunedol mewn Tirweddau Cenedlaethol yn galw am barhau cyllid sbarduno ar gyfer prosiectau integredig sy'n cyfrannu at eu tri chyd-ddiben integredig.

- 7.4.9 Mae'r wyth corff sy'n cydlynu'r gwaith o reoli'r Tirweddau Cenedlaethol eisoes yn helpu i feithrin agweddau ar ddatblygu gwledig a rhanbarthol o fewn eu ffiniau a thu hwnt. Mae'r astudiaethau achos a grynhowyd gennym yn Atodiad iv yn dangos ystod eang o weithgarwch llwyddiannus yn y maes hwn, ond nid oes ganddynt ddyletswydd i gyflawni'r rôl, ac felly maent yn gwneud hynny mewn ffyrdd tameidiog ac anghyson. Fodd bynnag, deallwn o'r dystiolaeth a gawsom eu bod yn agored i bwysau ar adnoddau ac y gallent gwtogi i'r ddarpariaeth graidd yn unig wrth i gyllid gael ei ail-flaenoriaethu.
- 7.4.10 Yn absenoldeb asiantaethau datblygu gwledig rhanbarthol ac yn sgil natur dameidiog cyllid datblygu gwledig, rydym yn argymhell y dylid galluogi cyrff Tirweddau Cenedlaethol i "wireddu eu potensial" yn hyn o beth. Gyda'n tri diben cydgloëdig newydd, dylent ddod yn beiriannau sylweddol ar gyfer datblygu gwledig ac arloesi. Mae hyn yn dilyn model platfform arbenigo craff yr UE ar hyn o bryd (Afonso, 2010; UE, 2010) ar gyfer creu systemau a chlystyrau arloesi rhanbarthol, gan grynhoi'r cysyniad o helics pedwarplyg o gydweithrediad a chyd-esblygiad rhwng y sectorau economaidd, amgylcheddol, gwyddonol a phreifat/cymunedol.
- 7.4.11 Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael y rôl o hybu eu canolfannau rhanbarthol a ffurfio partneriaethau cryf gyda chyrff datblygu economaidd ehangach, awdurdodau lleol cyfagos, prifysgolion a cholegau, a chymdeithasau busnes perthnasol. Mae map 2 yn dangos perthynas ddaearyddol y Tirweddau Cenedlaethol â'r prif feysydd menter datblygu economaidd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n dangos yn glir fod y Tirweddau Cenedlaethol mewn sefyllfa dda i arwain y gwaith o ffurfio sylfeini amgylcheddol-economaidd ehangach ar gyfer denu rhagor o gyllid "arian sefydlu".
- 7.4.12 Mae Tirweddau Cenedlaethol Cymru eisoes yn chwarae rhan fawr mewn twristiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, gallant wneud mwy i gyfrannu at 'Partneriaeth ar gyfer

Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020' Llywodraeth Cymru - ar y cyd, ac yn unigol.

- 7.4.13 Gallant hefyd chwarae rhan lawer mwy allweddol yn seilwaith gwyrdd Cymru, felly mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Tirweddau Cenedlaethol yn cael eu cynnwys bob amser wrth ystyried a datblygu seilwaith yng Nghymru megis y Cynllun Buddsoddi yn y Seilwaith Cenedlaethol, Strategaeth Twf Gwyrdd a'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol.
- 7.4.14 Bydd y datblygiad hwn yn galw am gysylltiadau mwy ffurfiol a chydweithredol, a rhannu gallu proffesiynol rhwng Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE, ac awdurdodau lleol perthnasol. Un fframwaith pwysig ar gyfer hyn fydd datblygiad y Cynlluniau Partneriaeth statudol (gweler Pennod 8) lle rydym yn disgwyl i arbenigedd gael ei rannu rhwng y cyrrff, yn ogystal ag ymgysylltu effeithiol rhwng awdurdodau lleol a staff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Rhagwelwn y bydd y dull hwn yn hwyluso datblygiad adfywio ar raddfa'r dirwedd, coridorau bioamrywiaeth a phrosiectau adfer adnoddau naturiol eraill, a cheisiadau am gyllid ar y cyd a chydweithredol.
- 7.4.15 Bydd y rôl newydd ffurfiol hon hefyd yn ei gwneud yn bosibl creu sylfaen ar gyfer mentrau lleol a datblygu cymunedol, mentrau cymdeithasol, datblygiad cynghreiriau gwledig rhwng y sector cymunedol, y sector busnes a'r sector cyhoeddus, a chynlluniau cynghrair y cymunedau menter (gweler Cynghreiriau Gwledig, 2015; Thijs de la Court, 2015). Bydd y dull yn anelu at ddatblygu gwe drwchus o gynghreiriau yn y gymuned ar draws rhanbarthau gwledig Cymru, gyda'r cyrrff tirweddau dynodedig yn gwasanaethu fel canolfannau a chydgyssylltwyr.



- 7.4.16 Enghraifft o'r dull hwn y rhagwelwn y bydd yn cael ei uwchraddio a'i ddatblygu o dan y trefniadau llywodraethu hyrwyddol newydd hyn yw Prosiect Cynghreiriau Gwledig INTERREG sy'n cael ei redeg gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae wedi creu a chefnogi 76 o Gynghreiriau o'r fath gan gynnwys 30 rhwydwaith lleol/rhanbarthol a sefydlwyd rhwng Cynghreiriau, 10 prosiect a gwblhawyd i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a 40 i ddatblygu cynhyrchion a marchnadoedd newydd (Cynghreiriau Gwledig, 2015). Mae'n hanfodol fod y strwythurau llywodraethu diwygiedig yn prif ffrydio'r math hwn o weithgaredd y tu hwnt i ariannu mentrau unigol a phrosiectau penodol. Fel y gwelwn hefyd o'r astudiaethau achos o arfer da y cyfeiriwyd atynt drwy gydol yr adroddiad hwn, ceir llawer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth yn lleol gan sicrhau datblygiad amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae mentrau o'r fath yn agored iawn i newid o ran adnoddau a staffio. Bydd y strwythurau llywodraethu newydd a argymhellir yma (mewn perthynas â'r model helics pedwarplyg - gweler y paragraff sy'n dilyn) yn creu sylfaen sefydliadol gadarn i fentrau o'r fath ddeillio o'i gilydd, clystyru, a chreu manteision datblygu gwledig yn y tymor canolig a'r tymor hir. Ceir cryn dipyn o dystiolaeth o wledydd eraill yn Ewrop sy'n cefnogi'r angen am gefnogaeth fwy sefydliadol i ddatblygiadau 'gwe' o'r fath (Ventura a Malone, 2012).
- 7.4.17 Mae'r model helics pedwarplyg yn deillio o ddamcaniaeth arloesi rhanbarthol lle mae systemau gwybodaeth ac arloesedd (sy'n gallu cyfuno dimensiynau economaidd ac ecolegol) yn seiliedig ar leoedd ac yn cyfuno a chydgynhyrchu systemau ac arferion gwybodaeth newydd. Mae hyn yn cysylltu'n benodol ac yn darparu llwyfannau (a elwir yn aml yn 'Labordai Byw') ar gyfer y rhyngweithiad rhwng diddordebau llywodraeth, diwydiant, addysg uwch a'r gymuned. Mae hefyd yn ymgorffori mentrau polisi yr UE ynghylch 'arbenigo craff', lle daw rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd mewn ardaloedd a rhanbarthau i arbrofi ac arloesi ar ffurf cwmnïau a gwasanaethau newydd. Mewn cyd-destun gwledig mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynnal amrywiaeth berthnasol a gweithgareddau amlswyddogaethol yn enwedig mewn perthynas â busnesau tir, ffurfiau newydd ar dwristiaeth a datblygiadau ecowasanaethau. Mewn rhanbarthau gwledig lle nad yw'r boblogaeth yn fawr, a phroblemau o ran hygyrchedd, cydnabyddir bod creu sefydliadau neu ganolfannau sy'n gallu dwyn y pedair elfen at ei gilydd yn gynyddol bwysig. Mae'r cyrff tirweddau dynodedig (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE) yn darparu'r cyfleoedd hyn yn awr o dan eu trydedd set o gyd-ddibenion.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso Tirweddau Cenedlaethol Cymru i ddod yn ganolfannau swyddogol ar gyfer arloesi ac yn gatalyddion ar gyfer datblygu rhanbarthol yn y Gymru wledig, o fewn eu terfynau amgylcheddol.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall ac y bydd Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020' Llywodraeth Cymru - ar y cyd, ac yn unigol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Tirweddau Cenedlaethol yn rhan o'r holl waith cynllunio a datblygu seilwaith yng Nghymru megis y Cynllun Buddsoddi yn y Seilwaith Cenedlaethol, Strategaeth Twf Gwyrdd a'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol.

Argymhelliad 15

Mae angen i'r Tirweddau Cenedlaethol ddeall eu heconomiâu lleol a rhanbarthol yn well, ac yn enwedig eu heconomiâu twristiaeth.

7.4.18 Gan orchuddio chwarter ei harwynebedd tir, mae wyth tirwedd ddynodedig Cymru yn cynnwys potensial i arwain a chyflawni rôl flaenllaw yn cyfrannu at nodau lles (a.4) a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r dibenion diwygiedig (fel y'u trafodwyd yng ngham un ac ym Mhennod 6) yn adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol gan yr ardaloedd hyn yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yr asedau, sy'n bwysig yn genedlaethol, yn cyfrannu at seilwaith twf gwyrdd cenedlaethol sy'n cael ei fesur a'i gofnodi'n gynyddol. Rydym yn rhagweld y bydd yn darparu sail

gynaliadwy i economi werdd Cymru allu datblygu a ffynnu er budd y sectorau preifat a gwirfoddol.

7.4.19 Mae'r sector cyhoeddus, dan arweiniad Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynnig ffordd o gamu ymlaen gyda'r dull partneriaeth o ddatblygu'r economi werdd. Rydym yn disgwyl i'r Tirweddau Cenedlaethol gael eu hybu fel enghreifftiau blaenllaw i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol gan sawl rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adran datblygu economaidd, yr adran iechyd, a'r adran dwristiaeth.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso'r Tirweddau Cenedlaethol i gyflawni ei hagenda 'Twf Gwyrdd' a sefydlwyd ar briodas rhwng tirweddau eithriadol a datblygu cynaliadwy.

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru hybu'r Tirweddau Cenedlaethol fel enghreifftiau blaenllaw i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ym meysydd datblygu cynaliadwy, iechyd a thwristiaeth yn benodol.

7.4.20 *Tirweddau Cenedlaethol yn gwella iechyd a lles y genedl*

7.4.21 Mae manteision iechyd corfforol a meddyliol yr awyr agored, hyd yn oed ar raddfa gymharol fach, yn gyfarwydd ac wedi'u cofnodi'n helaeth. Mae'r dystiolaeth, o'r tu allan i Gymru, yn tyfu ac mae nifer o brosiectau wedi'u targedu ar y gweill yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE sy'n anelu i wneud y gorau o'r manteision hyn, a gwella'r cyfleoedd mynediad i unigolion â chyflyrau cronig neu anabledau.

7.4.22 Mae'r fantais i iechyd a lles y genedl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn sylweddol, ond nid yw hyn yn cael ei fonitro'n dda a gallai elwa ar fwy o adnoddau.



Defnyddio'r amgylchedd i helpu i ymdopi â phroblemau iechyd a materion cymdeithasol eraill drwy brosiect MindSCAPE yn AHNE Dyffryn Gwy.

Argymhelliad 18

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru uwchraddio eu polisiau iechyd a llesiant i gydfynd â'r ail ddiben newydd. Gellid cysylltu hyn â hygyrchedd gwell ac ehangach ac elfennau'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy.

Argymhelliad 19

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru ymgymryd â mwy o arbrofion yn ymwneud ag iechyd a llesiant mewn perthynas â datblygu a chyrraedd rhannau o'r boblogaeth a chymunedau trefol a gwledig sy'n heriol. Gellid cyflwyno'r rhain ar y cyd â byrddau iechyd lleol.

7.4.23 Gwireddu'r manteision i'r genedl o gysylltu tir a môr

7.4.24 Ceir morlin mewn pump o'r wyth Tirwedd Genedlaethol, fel y disgrifiwyd ym Mhennod 5. Ni ellir gwahanu'r Tirweddau Cenedlaethol hyn oddi wrth eu morluniau, ac mae'r manau lle daw tir a môr at ei gilydd yn newid yn barhaus, yn enwedig o ganlyniad i

newid yn yr hinsawdd. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro mae'r ynysoedd gan gynnwys Ynys Bŷr, Sgomer, Sgogwm, Ynys Dewi a hyd yn oed Gwales bell i gyd yn rhannau dynodedig o'r Parc, ond nid yw hynny'n wir am y môr a'r morluniau rhyngddynt.



Cysylltu pobl â'u treftadaeth arfordirol yng Ngŵyl Arfordir Llŷn

7.4.25 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio hyrwyddo dull integredig o reoli adnoddau naturiol drwy sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a thrwy'r Bil Amgylchedd cyfredol (gweler Pennod 5). Felly ceir cyfle amserol i fabwysiadu dull integredig o reoli'r Tirweddau Cenedlaethol gyda'u hardaloedd morol ac arfordirol a ddylai helpu i sicrhau'r manteision lluosog i'r genedl o reoli parthau arfordirol yn integredig yn yr ardaloedd arbennig hyn.

Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ymestyn y Tirweddau Cenedlaethol arfordirol i gynnwys ardaloedd morol cyfagos a mabwysiadu dull integredig o reoli adnoddau arfordirol yn yr ardaloedd hyn.

Argymhelliad 21

Dylai rheolwyr Tirweddau Cenedlaethol sicrhau bod rhan ganolog i ddefnyddwyr arfordirol yn eu prosesau cynllunio ar gyfer rheoli'r arfordir.

Argymhelliad 22

Dylid cymhwyso model llwyddiannus Fforwm Arfordir Sir Benfro yn fwy eang ar draws ardaloedd arfordirol y Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 23

Dylai Tirweddau Cenedlaethol Cymru ddehongli ac ymgorffori argymhellion 9 i 22 uchod yn ddangosyddion a thargedau ar gyfer Cymru gyfan at ddibenion cynllunio prosesau rheoli ac adrodd ar lesiant.

7.4.26 Yn y bennod nesaf rydym yn gwneud yr argymhellion allweddol sy'n deillio o'n gweledigaeth a'r disgwyliadau uchod sy'n manylu ar y fframwaith cenedlaethol cyffredinol rydym yn ei argymell, ynghyd â thriniaeth fanwl o'i brif elfennau a chysylltiadau.


Fframwaith Llywodraethu Newydd ar Gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

8.1 Argymhell Fframwaith newydd ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru

- 8.1.1 Mae ein harchwiliad o'r trefniadau llywodraethu sy'n bodoli eisoes ym Mhennod 5, ein gwaith manwl yn casglu tystiolaeth drwy gydol yr adolygiad blwyddyn o hyd, a'n dadansoddiad wedi ein harwain i gynnig model aml-lefel newydd, mwy integredig, o lywodraethu Tirweddau Cenedlaethol sy'n cwmpasu strwythurau a phrosesau, ac yn mynd ati i gysoni'r rhain yn fwy effeithiol gyda'r egwyddorion llywodraethu da a amlinellwyd gan Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) (Day et al, 2012) ac ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym I Bobl Leol' (Llywodraeth Cymru, 2015k).
- 8.1.2 Er mwyn 'gwireddu'r potensial' a welsom i Dirweddau Cenedlaethol Cymru fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym yn y dadansoddiad ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym Mhennod 5 ac er mwyn sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng ad-drefnu dibenion a dyletswyddau, rydym yn argymhell fframwaith llywodraethu newydd ar eu cyfer. Mae'r fframwaith yn cwmpasu pob un o'r wyth corff rheoli tirweddau dynodedig ac rydym yn gobeithio y byddant i gyd yn gweld ei werth ac yn cyfrannu at ei lwyddiant.
- 8.1.3 Bydd y dull yn cyflwyno cysylltiadau mwy effeithiol: yn fertigol - o gymunedau lleol yn y tirweddau dynodedig i gyrrff llywodraethu cenedlaethol a rhyngwladol; ac yn llorweddol - gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac ymgwymerwyr statudol, er enghraifft, cwmnïau cyfleustodau. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu UN fframwaith llywodraethu ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru, gan ddisodli'r model presennol i bob pwrpas (fel yr amlinellir ym Mhennod 5, Ffigur 3), model yr ydym yn ei ystyried yn fwy tameidiog, yn llai cyson ac yn llai cydlynol.
- 8.1.4 Byddai disgwyl i bawb sy'n rhan o'r fframwaith newydd weithredu mewn ffyrdd sy'n cael gwared ar y rhwystrau llywodraethu a nodwyd ym Mhennod 5. Rydym wedi cynllunio'r model newydd (Ffigur 16) er mwyn galluogi a gwella rolau cyd-arweiniol y

cyrff tirweddau dynodedig eu hunain, eu perthynas gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ffigur 16: Fframwaith Llywodraethu Tirweddau Cenedlaethol Cymru a Argymhellir



- 8.1.5 Mae ein fframwaith newydd wedi cael ei gynllunio'n arbennig i alluogi Llywodraeth Cymru i gynnwys Tirweddau Cenedlaethol unigryw Cymru wrth ddatblygu polisi cenedlaethol, yn enwedig o ystyried eu bod yn ymestyn dros, ac yn dylanwadu ar 25% o arwynebedd Cymru ac yng ngoleuni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 8.1.6 Yn fertigol, bydd atebolrwydd a gwaith cyfathrebu'r prosesau partneriaeth (o'r bôn i'r brig) yn disgyn ar Lywodraeth Cymru (y cabinet a'r adrannau perthnasol) YN OGYSTAL Â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Bwyllgor Tirweddau Cenedlaethol newydd a Phartneriaeth Tirweddau Cenedlaethol Cymru (fel y disgrifir isod).
- 8.1.7 Yn llorweddol, bydd y cyrff Tirweddau Cenedlaethol yn gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a CNC i ddatblygu cynllunio integredig.
- 8.1.8 Bydd dyletswyddau statudol y Tirweddau Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n eglur gan bob sefydliad drwy'r cysylltiadau fertigol a llorweddol hyn yn y Fframwaith. Bydd y Tirweddau Cenedlaethol yn chwarae rôl allweddol yn lleol, ac yn genedlaethol, gan ddarparu eu cyfraniadau eu hunain wedi'u teilwra ar gyfer cyflawni eu dibenion a'r prosesau cynllunio llesiant a rheoli adnoddau naturiol ehangach.

Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r Fframwaith Llywodraethu newydd canlynol ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru, fel y'i portreadir yn Ffigurau 16 ac 19 ac fel y'i disgrifir yn fanwl ym mhob un o'n Hargymhellion 25 i 69 sy'n dilyn.

8.2 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE: Model ar gyfer cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn lleol

- 8.2.1 Yn ystod yr adolygiad hwn, mae'r panel wedi ystyried modelau amgen ar gyfer y tirweddau dynodedig. Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams, 2014) wedi argymhell y dylid ystyried creu un gwasanaeth neu asiantaeth Parc Cenedlaethol, a fyddai'n gweithredu ar draws Cymru yn hytrach na chyrff ac awdurdodau ar wahân yn lleol (t.43). Rydym wedi ystyried y model hwn ac wedi edrych yn fanwl ar fodelau amgen, gan gynnwys sefydlu

ymddiriedolaethau, asiantaethau, yn ogystal â modelau sy'n cael eu rheoli'n fwy canolog, ac mae hyn wedi cael ei drafod ym Mhennod 5.

- 8.2.2 Rydym yn hollol ymwybodol o'r angen am rôl genedlaethol gryfach a mwy effeithiol ar gyfer yr ardaloedd, ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy argymhell sefydlu Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol a Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol (gweler argymhellion 30 a 31 isod).
- 8.2.3 Rydym hefyd yn ymwybodol o ddau ffactor allweddol arall: (i) yr angen i feithrin cynrychiolaeth, rheolaeth ac atebolrwydd gwell yn lleol ac yn rhanbarthol, a (ii) yr angen i ddarparu mwy o gyfleoedd a phwerau i'r cyrff er mwyn iddynt allu denu cyllid ac adnoddau allanol o amrywiaeth ehangach o ffynonellau, ac ysgogi adnoddau ychwanegol i mewn i'r tirweddau dynodedig.
- 8.2.4 Rydym yn credu mai'r dull mwyaf effeithiol o wneud hyn yw cadw sylfaen hunaniaeth statudol addasedig ar y model Awdurdod Un Diben ar gyfer Parciau Cenedlaethol a'r dull llywodraethu aml-fodel hyblyg ar gyfer AHNE sy'n addas i'r myrdd o amgylchiadau lleol. Er bod angen moderneiddio'r modelau (gellir olrhain model Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ôl i Adroddiad Edwards yng nghanol y 1990au), mae'r mwyafrif helaeth o dystiolaeth yn rhybuddio rhag chwalu'r strwythurau cyfredol. Rydym yn argymhell y dylid cadw a diwygio'r rhain o fewn fframwaith llywodraethu ehangach (fel y gwelir yn Ffigurau 16 ac 19).
- 8.2.5 Mae model yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn un hybrid unigryw, sy'n atebol i'r mesur llywodraeth leol ac i Lywodraeth Cymru fel corff nodedig. Fel y nodir gennym isod, rydym yn argymhell cryn dipyn o adnewyddu ac ailbennu'r cysylltiadau hyn yn y fframwaith newydd arfaethedig y teimlwn ei fod yn mynd i'r afael â phryderon cynharach Comisiwn Williams (t.43), a'r papur gwyn diweddarach ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015k).
- 8.2.6 Mae'r model ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac AHNE yng Nghymru yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei fod yn mynd ati'n effeithiol i gydbwysu amcanion cenedlaethol ac anghenion ac atebolrwydd lleol. Er ein bod yn cynnig newidiadau i aelodaeth a'r dull o recriwtio i'w byrddau rheoli strategol (gweler isod), rydym yn dymuno cadw'r cysylltiadau cryf gydag awdurdodau lleol (sy'n debygol o fod yn llawer mwy o faint) ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch

Naturiol Eithriadol, ac i feithrin cydweithio agosach drwy'r dibenion newydd a'r dyletswyddau addasedig.

8.2.7 Ar ôl argymell cadw'r ddau fodel craidd, mae sawl maes sydd angen eu haddasu er mwyn ei gwneud yn bosibl i gyrrff gyflawni canlyniadau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lleihau'r baich rheoleiddio ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i fodloni'r un gofynion adrodd ac archwilio â'r awdurdodau lleol mwy o faint. Mae angen diwygio hyn a'i gysylltu â'n hargymhelliad isod ar gyfer datblygu proses adrodd integredig i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Gwella rôl y cyrrff fel mentrau a chyrrff datblygu economaidd gwledig. Mae angen cyflawni hyn drwy greu swyddogaethau menter o fewn y cyrrff mewn cydweithrediad â chynghorau a grwpiau cymunedol lleol. Mae angen i'r cyrrff drefnu eu hunain a datblygu'r gallu (a grëir yn rhannol gan arbedion yn sgil llai o faich rheoleiddio) i arwain a chreu arloesedd a mentrau newydd yn eu hardaloedd. Rydym yn credu bod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydnabod y cyrrff (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE) fel asiantaethau menter gwledig a all weithredu fel catalyddion allweddol ar gyfer datblygu mentrau economaidd a chymdeithasol oddi mewn a thu hwnt i'w ffiniau.
- Mae angen i'r cyrrff allu ymgeisio am gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a chyllid rhanbarthol cysylltiedig Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

8.2.8 Rydym yn rhagweld y bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE yn dymuno aildrefnu eu gweithrediadau yn enwedig mewn ymateb i'n dibenion newydd argymelledig ar eu cyfer (Pennod 6, Argymhellion 6 i 9). Ceir amrywiaeth o strwythurau trefniadol AHNE yng Nghymru ac yn Lloegr, ac yn yr Alban mae'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi datblygu gwahanol drefniadau sefydliadol mewnol (gweler Pennod 5). Felly, rydym yn fwriadol wedi cynnig Fframwaith Llywodraethu sy'n caniatáu i brosesau llywodraethu esblygu ym mhob Tirwedd Genedlaethol. Rydym yn teimlo y byddant yn fwy gwydn a chadarn os ydynt yn parhau i amrywio o ran eu hymateb i anghenion a chyfleoedd lleol.

Argymhelliad 25

Cadw'r model awdurdod lleol un diben ar gyfer rheoli Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 26

Cadw a datblygu modelau rheoli AHNE hyblyg.

Argymhelliad 27

Bydd angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE ystyried sut y maent yn ailstrwythuro eu hunain er mwyn cyflawni'r tri diben newydd.

Argymhelliad 28

Dylai Llywodraeth Cymru leihau'r baich rheoliadol anghymesur ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer awdurdodau lleol mwy o faint a mwy cymhleth.

Argymhelliad 29

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r gallu i ymgeisio am gyllid o ystod ehangach o ffynonellau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE.

8.3 Arweinyddiaeth: Newid radical mewn gwaith a diwylliant sefydliadol a rhyngasiantaethol

8.3.1 Roedd llawer o'r ymatebion i'n cais am dystiolaeth (ac adroddiadau dylanwadol, megis Adolygiad Comisiwn Williams o Wasanaethau Cyhoeddus a'u Darpariaeth, 2014) yn canolbwyntio ar yr angen i'r holl asiantaethau sydd â chyfrifoldeb dros dirweddau dynodedig ddatblygu arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a mwy effeithiol.

8.3.2 Heb feirniadu na rhagfarnu yn erbyn unrhyw un o'r asiantaethau allweddol, mae'r broblem i raddau helaeth yn ymwneud â newid diwylliant sefydliadol llywodraethu'r tirweddau dynodedig o fod yn un o "barch" i fod yn fwy atebol ac arloesol sy'n gwella pwerau presennol i ymgynnull, rhywbeth nad oeddem am ei golli. Rydym yn rhagweld dull mwy rhagweithiol a strwythuredig yn seiliedig ar bartneriaeth lle mae gan y cyrff tirweddau dynodedig (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrrff AHNE) a'u partneriaid berchnogaeth glir ac ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau cyflawni, a chânt eu dwyn i gyfrif yn barhaus. Mewn rhai ffyrdd (yn enwedig gyda rhai o'r canfyddiadau sy'n ymwneud â rôl anghyson Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ym maes cynllunio) mae angen newid er mwyn cau pen y mwdwl ar brofiadau'r gorffennol a chreu dull rhyngasiantaethol newydd o weithio.

8.3.3 Mae arweinyddiaeth yn y cyd-destun hwn yn amlochrog, felly bu'n rhaid i ni wahanu elfennau allweddol y mater:

- Yr angen am lais cenedlaethol cyfunol ar gyfer pob un o'r wyth tirwedd warchoddedig, sydd gyda'i gilydd yn ymestyn dros ¼ arwynebedd Cymru
- Yr angen a'r cyfleoedd i 8 Tirwedd Genedlaethol Cymru gydweithio a "gwireddu'r potensial" am fwy o synergedd yn eu gwaith
- Yr angen i sicrhau cyfraniadau yn seiliedig ar leoedd, sy'n neilltuol yn lleol ond yn gyson o ran y dull o'u cyflwyno, tuag at yr amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Yr angen i ymgysylltu ar lefel Cymru:
 - â Gweinidogion – yn enwedig ym meysydd yr Amgylchedd, Datblygiad Economaidd, Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd
 - â Chynulliad Cenedlaethol Cymru
 - â Bwrdd a Chyfarwyddwyr CNC
- Yr angen am gydweithredu a phartneriaeth â rhanddeiliaid cenedlaethol yn cynnwys:
 - adrannau'r Llywodraeth megis Croeso Cymru; Cadw; Datblygu Economaidd a Phrifyrdd
 - sefydliadau busnes ar lefel Cymru
 - sector gwirfoddol ar lefel Cymru
 - ymgymeryddwyr statudol
- Yr angen i ymgysylltu â Chadeiryddion ac aelodau o gyrff llywodraethu'r Parciau Cenedlaethol ac AHNE, a rhyngddynt â'i gilydd

- Yr angen i wella a chryfhau'r "pŵer i ymgynnull" sef pŵer defnyddiol "meddal" sy'n deillio o statws cenedlaethol a dyletswyddau statudol y tirweddau dynodedig.
- Yr angen i roi cyfleoedd i'r cyhoedd gyfrannu tuag at ddyfodol y teulu o Dirweddau Gwarchoddedig ar lefel Cymru
- Yr angen i hyrwyddo cyflawniadau a photensial y teulu o Dirweddau Gwarchoddedig yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Yr angen i nodi anghenion a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu ar draws y teulu o Dirweddau Gwarchoddedig yng Nghymru
- Yr angen i gyd-drefnu'r cysylltiad a rhannu arfer gorau gyda a rhwng ardaloedd gwarchoddedig eraill yn nheulu'r IUCN, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Yr angen i negodi cytundebau cyllido'r teulu o Dirweddau Gwarchoddedig gyda Llywodraeth Cymru
- Yr angen i arwain mentrau gwledig ac arloesedd yn seiliedig ar leoedd ar gyfer twf gwyrdd ac i gysylltu'r economi werdd ag asedau arbennig eu hardaloedd drwy wasanaethau ecosystemau
- Rôl arweiniol fawr, mewn partneriaeth â CNC ac awdurdodau lleol, yn cyflenwi adnoddau naturiol cynaliadwy ac egwyddorion rheoli tir, fel y nodwyd ym Mil yr Amgylchedd 2015
- Yr angen i arwain ar gynnal iaith ac arwahanrwydd diwylliannol Cymru
- Yr angen i gyfrannu at bolisi a ffurfio rhaglenni ar draws Llywodraeth Cymru
- Y cyfle i gyd-gysylltu ceisiadau cyllid ar lefel Cymru, er mwyn creu synergedd a'r gwerth gorau i bob un o'r 8 Tirwedd Genedlaethol.

8.3.4 *Llais gwirioneddol genedlaethol i Dirweddau Cenedlaethol*

8.3.5 Mae cyfrifoldebau allweddol cyfredol cyrff llywodraethu cenedlaethol a lleol y tirweddau dynodedig yng Nghymru yn cael eu disgrifio ym mhennod 5, paragraffau 5.3.1 i 5.3.4, a'u darlunio yn Ffigur 3.

8.3.6 Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo nad oedd partneriaethau tirweddau dynodedig yn tynnu sylw at eu llwyddiannau ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n ddigon eang ac eglur, ac nad ydynt yn sicrhau bod eu manteision i Gymru yn amlwg ac yn berthnasol, er bod yr ardaloedd hyn yn ymestyn dros ¼ o arwynebedd tir y wlad.

- 8.3.7 Yn ystod ein hymchwiliadau, gwelsom mai anaml y mae'r rheolwyr tirweddau dynodedig yn ganolbwynt i gynllun neu gyflwyniad polisïau a mentrau ar gyfer Cymru gyfan.
- 8.3.8 Rydym wedi nodi'r trefniadau cydweithio presennol rhwng y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol drwy fforwm o'r enw 'Parciau Cenedlaethol Cymru' ac roeddem yn bresennol fel sylwedyddion mewn cyfarfod gyda phrif swyddogion yr holl Dirweddau Cenedlaethol a gynhaliwyd gan CNC, a oedd yn cadeirio'r cyfarfod ac yn darparu'r adnoddau ysgrifenyddol. Yn ddefnyddiol, dywedodd arweinwyr y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE wrthym y byddent yn croesawu cydweithio pellach.
- 8.3.9 Awgrymwyd mecanweithiau i'r Panel ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn yn cynnwys sefydlu Comisiwn, neu Ymddiriedolaeth elusennol, neu Fwrdd Llywodraethu Cenedlaethol, yn atebol i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 8.3.10 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gawsom, rydym yn argymhell y canlynol:

Argymhelliad 30

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol' fel y dangosir yn Ffigur 17.

Argymhelliad 31

Dylai'r 8 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r cyrff AHNE sefydlu 'Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol Cymru' llai ymyrrol fel y dangosir yn Ffigur 18.

Argymhelliad 32

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol a'r rhanddeiliaid perthnasol drwy'r Bwrdd Partneriaeth a'r Pwyllgor Cenedlaethol i gytuno, a chadw dan arolwg 'Strategaeth Tirweddau Cenedlaethol Cymru' drosfwaol.

8.3.11 Mae'r gyfres hon o argymhellion cenedlaethol wedi ei chynllunio i alluogi'r Tirweddau Cenedlaethol i ddarparu mwy na chyfanswm wyth ardal ar gyfer y genedl, ac i ddatblygu diwylliant cadarnhaol o gydweithio er lles y genedl. Bydd pob un o'r wyth Tirwedd Genedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd yn strategol, yn effeithiol ac yn effeithlon a byddant yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cenedlaethol. Byddant yn gallu cynrychioli eu chwarter o Gymru yn well a dod yn bartneriaid strategol ar lefel Cymru drwy arweinyddiaeth amlwg, er enghraifft o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig. Rydym yn rhagweld rhagor o enghreifftiau o gyflawni cadarnhaol gan bartneriaid cenedlaethol yn y dyfodol megis y rhaglen gyfredol ar gyfer tanddaearu llinellau trydan mewn tirweddau dynodedig gan gwmnïau ynni, sy'n cael ei hariannu drwy ardoll unigol wedi'i chaniatáu gan reoleiddwyr y diwydiant, Ofgem. Bydd mwy o ymwybyddiaeth, yn enwedig ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, o botensial y Tirweddau Cenedlaethol er mwyn sicrhau nifer o fanteision i Gymru.

Ffigur 17: Argymhelliad 30, rydym yn argymhell gweithredu'r 'Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol' yn y modd canlynol

Diben:

Meithrin a sicrhau cydweithio dwyffordd rhwng y Tirweddau Cenedlaethol, Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid ehangach ar lefel Cymru gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau, sefydliadau busnes a sefydliadau'r trydydd sector.

Yr hyn y byddai'r Bwrdd Partneriaeth yn ei WNEUD (ymhlith pethau eraill):

- cyfarfod blynyddol wedi'i gadeirio gan y Gweinidog perthnasol. Gellid gofyn i'r Gweinidog priodol gadeirio'r cyfarfod yn ôl prif thema'r agenda, er enghraifft gallai ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol, twf gwyrdd, dysgu, mynediad i bawb, twristiaeth.
- dau gyfarfod pellach bob blwyddyn, i gyd-fynd â chynhadledd flynyddol y Tirweddau Cenedlaethol a chyfarfod y Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol
- nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd i helpu i gyflawni camau gweithredu yn y Cynlluniau Partneriaeth statudol unigol ar sail Cymru gyfan
- cyflwyno arddangosfa o ddyletswyddau statudol cyrff partneriaid i roi sylw dyledus i ddibenion a chynlluniau'r Tirweddau Cenedlaethol
- rhoi ffocws ar y Tirweddau Cenedlaethol yn adrannau Llywodraeth Cymru, gan

gynnwys yr Amgylchedd a Datblygu Economaidd a Thwristiaeth, Gwasanaethau Cyhoeddus, Amaethyddiaeth, Iechyd, Diwylliant a Threftadaeth

- rhoi cyfle i gael trafodaeth ar y lefel uchaf gyda Bwrdd ac uwch-swyddogion CNC, sefydliadau busnes ar lefel Cymru, y sector gwirfoddol ar lefel Cymru, ymgwymerwyr statudol
- helpu i lunio agendâu a threfnu lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth

Yr hyn NA fyddai'n ei wneud:

- ni fyddai'r Bwrdd Partneriaeth yn rhoi unrhyw gamau gweithredol ar waith – rôl y Tirweddau Cenedlaethol unigol fuasai hynny o hyd

Cyfansoddiad y Bwrdd Partneriaeth:

- Cadeirydd: y Gweinidog perthnasol (gallai fod yn Weinidog gwahanol yn dibynnu ar yr agenda)
- Cadeirydd y Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol
- 8 Cadeirydd cyrff llywodraethu'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE
- 8 swyddog arweiniol o'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE
- Swyddogion Llywodraeth Cymru o ystod o adrannau – a fo'n berthnasol i bob agenda
- Cyfoeth Naturiol Cymru – aelod o'r Bwrdd ynghyd ag uwch-swyddog
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Sefydliadau busnes ar lefel Cymru
- Y sector gwirfoddol ar lefel Cymru
- Cwmnïau Cyfleustodau (yr Ymgwymerwyr Statudol)
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (mae'n bosibl y bydd Comisiynwyr eraill yn cael eu gwahodd yn dibynnu ar gyfansoddiad yr agenda)
- Rhanddeiliaid eraill i'w gwahodd ar gyfer eitemau penodol o'r agenda.

Ysgrifenyddiaeth a Chyllid:

I'w darparu gan Lywodraeth Cymru – a fyddai'n sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng y partneriaid cenedlaethol ar y Bwrdd a chyda'r Pwyllgor Cenedlaethol.

Lleoliad :

Cyfarfodydd i'w cynnal yn y Parc Cenedlaethol neu'r AHNE sydd fwyaf addas ar gyfer yr eitemau ar yr agenda, er mwyn gallu ymweld â safleoedd mewn astudiaethau achos

Ffigur 18: Argymhelliad 31, rydym yn argymell gweithredu'r 'Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol' yn y modd canlynol

Diben:

Galluogi Tirweddau Cenedlaethol Cymru i ddarparu mwy na chyfanswm yr wyth ardal i Gymru, ac i ddatblygu diwylliant cadarnhaol o gydweithio er lles y genedl.

Yr hyn y byddai'r Pwyllgor Cenedlaethol yn ei WNEUD (ymhlith pethau eraill):

- ymdrechu bob amser i ychwanegu gwerth i Gymru drwy greu synergeddau rhwng y Tirweddau Cenedlaethol unigol
- rhoi llais cenedlaethol i 25% o Gymru yn yr wyth Tirwedd Genedlaethol
- nodi angen a chyfleoedd i gydweithio ar draws y teulu o Dirweddau Gwarchoddedig Cymru
- sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer pynciau megis: rhannu data, yr arfordir a morweddau, iechyd a llesiant
- helpu i gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y cyrff Tirweddau Cenedlaethol drwy rannu a datblygu arferion gorau
- cynnwys rhanddeiliaid mewn gweithdai cwmpasu a gweithgorau ar lefel genedlaethol gan gynnwys: Cyfoeth Naturiol Cymru, adrannau'r Llywodraeth megis Croeso Cymru, Cadw, Priffyrdd, Datblygu Economaidd a Thwristiaeth, Amaethyddiaeth, Diwylliant a Threftadaeth; sefydliadau busnes ar lefel Cymru, y sector gwirfoddol ar lefel Cymru, cwmnïau cyfleustodau
- gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o fideogynadledda er mwyn lleihau costau teithio ac amser
- trefnu cynhadledd flynyddol i hyrwyddo ymgysylltiad â Chadeiryddion ac aelodau cyrff llywodraethu'r AHNE a'r Parciau Cenedlaethol a rhanddeiliaid ehangach, a rhyngddynt a'i gilydd
- cydgysylltu (nid darparu) rhaglenni hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer aelodau a swyddogion (y cyrff Tirweddau Cenedlaethol ac awdurdodau ehangach) drwy asesiadau rheolaidd o anghenion
- rhoi'r cyfle i'r cyhoedd ddweud eu dweud o'r teulu o Dirweddau Gwarchoddedig

drwy gomisiynu arolygon cyhoeddus bob tymor Cynulliad

- helpu i hyrwyddo cyflawniadau a photensial teulu Cymru o Dirweddau Gwarchoddedig yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol – rôl ar gyfer y Cadeirydd yn arbennig
- cyd-drefnu'r cyswllt ag ardaloedd gwarchoddedig eraill yn nheulu'r IUCN, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, a rhannu arferion da â hwy
- negodi'r cytundebau cyllid ar gyfer y teulu o Dirweddau Gwarchoddedig gyda Llywodraeth Cymru
- cyfrannu at bolisi a ffurfio rhaglenni ar draws Llywodraeth Cymru – byddai'r Swyddog Polisi'n cyflawni'r gwaith ymchwil a chasglu gwybodaeth a'r Cadeirydd yn arwain ar hyrwyddo, ar y cyd ag aelodau o'r Pwyllgor Cenedlaethol
- cydgysylltu ceisiadau cyllid ar lefel Cymru, er mwyn creu synergedd ar gyfer pob un o'r wyth Tirwedd Genedlaethol – byddai'r Arbenigwr Codi Arian yn cynghori ar lefel Cymru ac yn cynorthwyo staff timau'r Tirweddau Cenedlaethol
- cynorthwyo'r wyth Tirwedd Genedlaethol i gynhyrchu adroddiad blynyddol cyfun ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru bob pedair blynedd, o fewn yr un amserlen â'r cylch cynlluniau rheoli pedair blynedd ar gyfer y cynlluniau statudol.

Yr hyn NA fyddai'n ei wneud:

- ni fyddai'r Pwyllgor Cenedlaethol yn rhoi unrhyw gamau gweithredol ar waith – rôl y Tirweddau Cenedlaethol unigol fyddai hynny o hyd

Cyfansoddiad y Pwyllgor Cenedlaethol:

- 8 Cadeirydd cyrff llywodraethu'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE
- 8 swyddog arweiniol y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE
- Cynrychiolwyr CNC (rydym yn argymhell Aelod o'r Bwrdd, ynghyd ag uwchswyddog)
- Rhanddeiliaid eraill i gael eu gwahodd mewn perthynas ag eitemau penodol ar yr agenda
- Cadeirydd:
 - Cadeirydd annibynnol ar gyfer y Pwyllgor – wedi ei benodi gan y Prif Weinidog yn dilyn cystadleuaeth gyhoeddus
 - y Cadeirydd i arwain yr arweinyddiaeth fewnol ac allanol a sicrhau bod 'ras i'r

brig' ymysg wyth tîm y Tirweddau Cenedlaethol

- ymrwymiad amser i'w gadarnhau – amcangyfrif o 4 diwrnod y mis
- Cadeirydd i dderbyn tâl ar gyfradd ddyddiol wedi'i meincnodi

(Cyfarfod bob yn chwarterol gydag un cyfarfod ar yr un diwrnod â chyfarfod blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol ac un cyfarfod ar yr un diwrnod â'r gynhadledd flynyddol.)

Staffio:

- Rheolwr Cydlynol (ni ddylai'r swydd wrthdaro â gwaith Prif Swyddogion Gweithredol y Parciau Cenedlaethol)
- Swyddog Cyfathrebu (dwyeithog – hanfodol)
- Swyddog Polisi
- Arbenigwr Codi Arian – gweithiwr ar ei liwt ei hun ar sail tâl cadw o bosibl
- Gweinyddwr – rhan-amser, rhannu rhwng y Pwyllgor a'r corff sy'n cynnal o bosibl
- Mae pob cyngor arbenigol a chyfreithiol angenrheidiol i'w gael gan y teulu o Dirweddau Cenedlaethol

Cyllid:

Rydym yn amcangyfrif cyllid craidd cymedrol o tua £275,000 ar gyfer staff, cadeirydd, argostau, teithio, rhent, cyhoeddiadau a chynnal y wefan.

Mae'r Parciau Cenedlaethol eisoes yn dyrannu tua £75,000 ar gyfer gweithio ar y cyd. Costau ychwanegol unrhyw gynlluniau a gytunwyd i'w cyllido drwy godi arian allanol a grantiau gan y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE.

8.4 Tirweddau Cenedlaethol a Llywodraeth Genedlaethol

8.4.1 O ystyried pwysigrwydd cenedlaethol tirweddau dynodedig Cymru rydym yn rhagweld proffil llawer uwch ar eu cyfer yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a'u pwyllgorau perthnasol graffu a thrafod cynlluniau statudol pob ardal, yn ogystal â monitro a chraffu ar berfformiad y Tirweddau Cenedlaethol er budd y cyhoedd a lles y genedl.

8.4.2 Bydd Fframwaith Llywodraethu'r Tirweddau Cenedlaethol yn creu atebolrwydd a thryloywder ychwanegol, ac yn rhoi sylw cliriach a mwy uniongyrchol i'r Tirweddau Cenedlaethol ym mholisi a bywyd gwleidyddol a diwylliannol Cymru. Bydd pob un o'r

prosesau hyn yn cael eu cysylltu â chyrrff rhyngwladol perthnasol, ac yn cyfrannu tuag atynt, a bydd gweithio mewn partneriaeth yn rhan annatod o'r dull hwn.

- 8.4.3 Bydd Llywodraeth Cymru, yn cael ei chynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru (a chyrrff cynghori perthnasol eraill) ac mewn ymgynghoriad â'r Cynulliad Cenedlaethol, yn gosod targedau perfformiad ar gyfer y Tirweddau Cenedlaethol sy'n deillio o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn cyd-fynd â hwy. Bydd y targedau a'r dangosyddion perfformiad hyn yn cael eu llunio ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru, gan gydnabod eu rôl fel arloeswyr blaenllaw ym maes rheoli tirweddau'n integredig. Byddem yn disgwyl iddynt gael eu hadolygu yn unol â'r Broses Rheoli Cynllunio Integredig.
- 8.4.4 Rydym hefyd yn rhagweld ymgysylltiad uniongyrchol y Gweinidog â'r Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol drwy gadeirio un o gyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth y Tirweddau Cenedlaethol bob blwyddyn (a nodir yn ein Hargymhelliad 30, Ffigur 17). Yn yr Alban, mae Gweinidogion yn cadeirio bwrdd partneriaeth y ddau Barc Cenedlaethol unwaith y flwyddyn, gan gynnal cysylltiad agos â'r ardaloedd a hwyluso trafodaeth o amgylch y bwrdd. Roedd y dull hwn yn apelio atom, ond teimlwn ei fod yn fwy priodol ar y lefel genedlaethol drwy Gymru yn hytrach nag yn lleol.

Argymhelliad 33

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar Gynlluniau Partneriaeth statudol pob un o Dirweddau Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

Argymhelliad 34

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth iddo esblygu ei bensaerniaeth fewnol ei hun, ystyried y berthynas rhyngddo a Thirweddau Cenedlaethol Cymru i sicrhau cymaint ag y bo modd o graffu ac atebolrwydd.

Argymhelliad 35

Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau a dangosyddion perfformiad ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru sy'n deillio o'r Nodau Llesiant ac yn cyd-fynd â hwy.

8.5 Adrodd a Chynllunio Integredig

- 8.5.1 Ar hyn o bryd mae'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol yn rhan o amrywiaeth o ymarferion cynllunio sy'n gorgyffwrdd, yn ogystal â'u dyletswyddau yn cynhyrchu eu cynlluniau rheoli pwrpasol eu hunain. Bydd nifer yr ymarferion cynllunio yn chwyddo fwyfwy yn sgil y broses hir a chynyddol o ddatblygu a gweithredu cynlluniau newydd yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) wedi iddo ddod yn ddeddf.
- 8.5.2 Felly, mae'n amserol ac yn fwy effeithlon i integreiddio'r ymarferion cynllunio hyn yn UN ymarfer Cynllunio Partneriaeth sy'n ymgorffori'r cynllun rheoli tirwedd ddynodedig yn ganolog, ond sydd hefyd yn cynnwys cynlluniau'n ymwneud â llesiant a rheoli adnoddau naturiol. Y mecanwaith allweddol ar gyfer integreiddio dimensiynau fertigol a llorweddol y fframwaith fydd Cynllun Partneriaeth statudol wedi'i wella'n sylweddol ar gyfer pob un o'r wyth Tirwedd Genedlaethol. Bydd y gwaith o'i baratoi, ei gyflwyno a'i roi mewn grym yn gyfrifoldeb i BOB UN o'r rhanddeiliaid a'r cyrff sy'n cyfrannu. Byddai Arweinyddiaeth yn cael ei freinio yng nghyrrff y Tirweddau Cenedlaethol.
- 8.5.3 Bydd hyn yn cael ei gyflwyno a'i adrodd drwy ddatganiadau gweithredu wedi eu hadeiladu i mewn i'r broses gynllunio partneriaeth statudol integredig, a fydd yn ymgorffori cynlluniau rheoli tirweddau dynodedig sy'n bodoli eisoes. Rydym yn disgwyl y bydd Cynlluniau Partneriaeth statudol pob ardal yn cael eu hintegreiddio gyda'r Cynlluniau Llesiant a'r Datganiadau Ardal newydd, ac yn cyfrannu'n sylweddol i Gynlluniau Datblygu Lleol yr ardal. Bydd y cyrff Tirweddau Cenedlaethol, mewn partneriaeth â'u rhanddeiliaid allweddol, yn ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol am greu a llunio'r cynllun hwn mewn ffyrdd sy'n ei wneud yn gyson â phrosesau cynllunio gofodol eraill. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o ddyblygu prosesau creu cynlluniau yn ogystal ag ychwanegu at y cynllun fel y prif gyfrwng ar gyfer cyflawni dibenion a dyletswyddau unigryw y Tirweddau Cenedlaethol. Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau diwygiedig i'r Tirweddau Cenedlaethol, bydd disgwyl hefyd i'r rhanddeiliaid eraill ystyried y Cynllun Partneriaeth statudol fel mynegiant cydlynol Cynlluniau Llesiant yn

seiliedig ar leoedd, cynlluniau ardal amgylcheddol integredig a Chynlluniau Datblygu Lleol.

- 8.5.4 Bydd hwn yn ymarfer cynllunio integredig a dyletswydd y corff Tirwedd Genedlaethol a'i bartneriaid fydd ei gynhyrchu, ei fonitro a'i gyflawni. Golyga hyn y bydd yr holl gyrff perthnasol (cyrff tirweddau dynodedig, rhanddeiliaid ac ymgymrwyr statudol) wedi eu rhwymo'n ymarferol yn ogystal â mewn egwyddor i'r cynllun rheoli oherwydd eu cyfraniad a'u hymrwymiad ar ddechrau'r broses gynllunio, a heb fod yn gyfyngedig i ddyfarniad cynigion datblygu neu drefniadau rheoli penodol ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Bydd y Cynlluniau Partneriaeth yn statudol, ond byddant hefyd yn hwyluso ac yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu cynaliadwy, fel y'i hymgorfforir yn y tri diben cydgloëdig a argymhellwyd gennym yng ngham un, ac sy'n cael eu trafod eto ym Mhennod 6.
- 8.5.5 Rydym yn ymwybodol iawn fod ehangu dibenion, ynghyd â chyfyngiadau ar adnoddau, a'r doreth o ymarferion cynllunio a'u beichiau gweinyddol cysylltiedig, yn golygu bod angen pwyslais cryf sy'n canolbwyntio ar gynllunio integredig, cydgysylltu ac integreiddio adrodd ar berfformiad. Yn wir, dylai ffurfio'r mecanwaith cyfathrebu canolog sy'n llifo ar hyd y sianeli fertigol a llorweddol yn ein model llywodraethu (Ffigur 16). Dylai'r broses o gynllunio partneriaeth anelu at wneud y canlynol:
- Darparu ymgysylltiad clir â rhanddeiliaid perthnasol (preifat, cyhoeddus a chymunedol) yn y broses o baratoi'r cynllun;
 - Darparu sylfaen ar gyfer cytuno ar y cynnwys sy'n cyd-fynd â chyflawniad y tri diben cydgloëdig newydd;
 - Bod yn gynllun gofodol integredig ar gyfer yr ardal sy'n arwain ac yn bodloni meini prawf cynlluniau llesiant, Cynlluniau Datblygu Lleol, nodau cenedlaethau'r dyfodol a datganiadau ardal amgylcheddol;
 - Cynnwys set allweddol o dargedau cenedlaethol a lleol, cynlluniau gweithredu a thargedau perfformiad y gellir eu monitro wedyn;
 - Bod yn broses y gellir ei chyfathrebu drwy sawl cyfrwng, yn lleol ac yn genedlaethol i ystod eang o gynulleidfaoedd;
 - Darparu datganiad gweithredu atodol sy'n darparu sail glir ar gyfer cydweithio a gweithio mewn partneriaeth (ynghyd â rolau a chyfrifoldebau clir) i gyflawni'r cynllun

Argymhelliad 36

Dylai bod yna Un ymarfer cynllunio partneriaeth statudol ar gyfer pob un o'r tirweddau dynodedig.

Argymhelliad 37

Dylai Cynllun Partneriaeth statudol ardal integreiddio'r cynllun rheoli, cynllun llesiant a datganiadau ardal adnoddau naturiol cyfredol.

8.6 Partneriaethau Lleol

- 8.6.1 Tirweddau wedi'u rheoli yw'r ardaloedd dynodedig, ac eiddo preifat yn bennaf, a chânt eu llunio gan amaethyddiaeth, coedwigaeth a thwristiaeth yn benodol. Felly mae'r gallu i reoli'r ardaloedd arbennig yn llwyddiannus yn dibynnu ar bartneriaethau cynhyrchiol gyda phawb sy'n effeithio arnynt.
- 8.6.2 Mae gan AHNE a Pharciau Cenedlaethol hanes hir a llwyddiannus ar y cyfan o ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid lleol. Mae adroddiad Land Use Consultants ar AHNE (LUC, 2013) yn dangos bod lefel uchel o ymddiriedaeth yn null yr AHNE o weithio mewn partneriaeth yn lleol. Cadarnhawyd hyn gan lawer o'r dystiolaeth a gawsom, ond roedd rhai cynrychiolwyr busnes yn fwy amheus, a châi hyn ei liwio'n arbennig gan rai o brofiadau eu haelodau o bryd i'w gilydd gyda cheisiadau cynllunio yn y Parciau Cenedlaethol.
- 8.6.3 Mae'r ystod o ddulliau o weithio mewn partneriaeth leol yn cael ei disgrifio ym Mhennod 5. Mae gan AHNE Gŵyr Bartneriaeth ffurfiol gyda'i haelodau'n cael eu hethol yng nghyfarfod fforwm blynyddol yr AHNE, ond mae AHNE Dyffryn Gwy yn gosod pob ffurf ar ei hymgysylltiad o dan ambarél eu 'Partneriaeth'. Yn ddiweddar, cynhaliodd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy broses recriwtio gystadleuol ar gyfer rolau diffiniedig penodol yn eu Partneriaeth AHNE. Mae'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn gweithredu amrywiaeth eang o fathau o weithio mewn partneriaeth, megis Adran Gyswilt Amaethyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sydd wedi bod yn allweddol wrth ddenu cyllid Ewropeaidd er mwyn galluogi ffermwyr i ymgymryd â nifer o brosiectau rheoli tir. Fodd bynnag, dywedodd cadeiryddion yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wrthym ei bod yn bryd i ni newid er mwyn ein cymunedau, er bod nifer o

ymatebwyr wedi dweud wrthym mai newid ymddygiad yw'r hyn sydd ei angen, yn hytrach na newid strwythurol o ran llywodraethu mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth.



Datblgu partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol drwy Brosiect Interreg y Cyngreiriau Gwledig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Codi proffil ein treftadaeth ddiwylliannol fel rhan o Gynllun Partneriaeth Tirwedd Dros Ddyffryn Gwy.



8.6.4 Chwiliasom am enghreifftiau o arfer da o bob cwr o'r byd ac argymhellwyd model Parc Naturel yn Ffrainc i ni sydd â dull mwy cymunedol o reoli. Soniodd Europarc wrthym am fodolau llywodraethu da mewn ardaloedd dynodedig yn Norwy a'r Swistir sy'n seiliedig ar feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau gwydn. Roeddent yn dweud mai'r model Almaenig oedd y gorau o ran effeithiolrwydd rheoli lle maent yn categoreiddio pob budd i'r gymdeithas yn glir, ac mae'r Ffindir ar flaen y gad gyda'i dull gwasanaethau ecosystemau. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn dweud bod cnewyllyn bychan o wrthwynebiad i ddull o weithredu ardal warchoddedig yn normal.

8.6.5 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth rydym yn dymuno gwella gweithio mewn partneriaeth yn lleol ar draws pob un o'r Tirweddau Dynodedig yn y modd canlynol:

Argymhelliad 38

Dylid sefydlu 'Partneriaethau' wedi'u creu'n ffurfiol ym mhob un o'r Parciau Cenedlaethol i fod yn rhan agos o'r gwaith o baratoi a chyflwyno'r Cynllun Partneriaeth statudol.

Argymhelliad 39

Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a ddylai gadeirio Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 40

Dylai fod perthynas wedi'i chytuno'n ffurfiol rhwng Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Argymhelliad 41

Dylai'r AHNE barhau i ddatblygu eu modelau gweithio mewn partneriaeth ddibynadwy, ond nid ydym yn teimlo y byddai dull 'un ateb addas i bawb' o fudd i'r AHNE.

8.6.6 Cynlluniwyd y set hon o argymhellion i adeiladu ar gysylltiadau cadarnhaol y tirweddau dynodedig ac i greu rhai newydd mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael â'u cryfderau a'u gwendidau cyfredol. Bydd y Tirweddau Cenedlaethol yn fwy perthnasol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Bydd ymgysylltiad lleoll gwell a mwy effeithiol rhwng yr holl randdeiliaid perthnasol. Bydd busnesau twristiaeth lleol a busnesau eraill yn benodol yn ei chael yn haws i gael llais. Bydd pawb, gan gynnwys y staff sy'n rheoli timau tirweddau dynodedig, yn teimlo bod cyfathrebu da, dwy ffordd, ystyrlon, ac yn allweddol, cyflawniad y Cynlluniau statudol ar gyfer yr ardaloedd, yn fwy effeithiol.

8.7 Meithrin perthynas ochrol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol

8.7.1 Mae angen cysoni dyletswyddau cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ardaloedd dynodedig i gyd-fynd â'r dibenion a'r ddyletswydd newydd a nodir ym Mhennod 6.

8.7.2 Prif gyfrifoldebau CNC fel y maent wedi eu nodi ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) ar hyn o bryd yw:

*“Ceisio cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru,
a*

Cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.”

(Bil yr Amgylchedd, a. 5(2))

8.7.3 Yn benodol, wrth gyflawni'r dibenion hyn dylai CNC ystyried dyletswyddau Tirweddau Dynodedig, yn enwedig o ran ystyried cydnerthedd ecosystemau a'i elfennau penodol:

- Yr amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau
- Y cysylltiadau rhwng ecosystemau
- Cyflwr ecosystemau
- Gallu ecosystemau i addasu
- Rôl gyfun ecosystemau fel cyfraniadau i'r tirweddau sy'n seiliedig ar leoedd.

8.7.4 Ar hyn o bryd ceir cyfres o rolau cynghori y mae CNC yn eu cyflawni ar ran Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud yn benodol â'r Tirweddau Dynodedig. Yr hyn nad yw'n glir yw a yw CNC yn cyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at dirweddau dynodedig yn llawn gan nad ydym wedi derbyn rhestr gynhwysfawr yn yr amser a roesom i CNC i ymateb. Ar hyn o bryd nid yw'r darlun yn gwbl gyflawn, ac rydym yn gobeithio y bydd hynny'n newid pan ddaw Bil yr Amgylchedd i rym.

Argymhelliad 42

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru lunio rhestr gynhwysfawr o'u pŵerau a'u dyletswyddau statudol mewn perthynas â thirweddau dynodedig Cymru a sicrhau ei bod ar gael i Lywodraeth Cymru.

- 8.7.5 Yn wyneb y newidiadau sy'n digwydd o fewn CNC a'u cyfrifoldebau statudol dros dirweddau, gallai'r ymarfer hwn fod yn ddadlennol a gallai helpu i sefydlu'r Fframwaith Tirweddau Cenedlaethol.
- 8.7.6 Gallodd CNC ddarparu rhestr fer o ddyletswyddau i ni yn eu tystiolaeth ar gyfer cam un. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i gynghori Gweinidogion ynghylch penodi Prif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, materion ariannol, ac asesu dynodiadau newydd posibl neu newidiadau i'w ffiniau. Rydym yn credu y dylai'r rhain aros ar yr amod eu bod yn ymwneud yn unig â'u dibenion diwygiedig o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gallai, a dylai Gweinidogion ymgynghori ag asiantaethau ac adrannau eraill i gael cyngor ynghylch portffolio polisi ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r tirweddau dynodedig.
- 8.7.7 Bydd CNC a'r awdurdodau lleol a chyfansoddol yn aelodau llawn o'r Bwrdd Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol, ac rydym yn argymhell hefyd y dylai CNC ymuno â'r Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol. Ar y llaw arall rydym yn disgwyl i CNC gynnwys a hyrwyddo pob un o'r tirweddau dynodedig, y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE, ar eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus priodol. Mae profiad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol wedi bod yn gymysg, felly rydym yn gobeithio y gellir dysgu gwersi a sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd ar gyfer cyflawni. Byddai CNC hefyd yn cynnwys y tirweddau dynodedig yn natblygiad yr Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd a'r Datganiadau Ardal perthnasol.

Argymhelliad 43

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys ac yn hyrwyddo'r tirweddau dynodedig ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol.

Argymhelliad 44

Bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw i'r Cynlluniau Partneriaeth statudol wrth gynnal eu hymarferion cynllunio yn eu hardaloedd.

- 8.7.8 Bydd CNC yn ffynhonnell bwysig o gyngor proffesiynol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a dylai'r tirweddau dynodedig elwa o hynny. Mae rhannu arbenigedd a data ym meysydd tirwedd a bioamrywiaeth yn hanfodol, yn enwedig ar gyfer yr AHNE.
- 8.7.9 Rydym yn canmol y rôl gadarnhaol a rhagweithiol y mae awdurdodau lleol perthnasol yn ei chwarae o ran cefnogi gwaith AHNE. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom na fyddai nifer o'r astudiaethau achos rydym yn tynnu sylw atynt yn Atodiad iv wedi digwydd oni bai am gefnogaeth yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, wrth i'r dulliau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus newid, ac wrth i awdurdodau lleol mwy o faint ymddangos, rydym yn ofni y gallai'r cysylltiadau a'r mecanweithiau cymorth hyn fod yn rhy fregus i'w cynnal. Rydym yn dymuno atgyfnerthu a lledaenu arferion da ar draws pob un o'r wyth Parc Cenedlaethol a'r AHNE yn sgil y newidiadau a ragwelir a chynghori awdurdodau lleol i ymgorffori'r canlynol:
- Y gyfres ddiwygiedig o ddibenion a dyletswyddau;
 - Rôl rhannu a chydweithredu rhwng staff awdurdodau lleol ac AHNE
 - Rôl rhannu a chydweithredu mewn perthynas â Chydreoli a Byrddau Llywio;
 - Rôl rhannu a chydweithredu mewn perthynas â chynhyrchu, monitro a chyflwyno'r Cynlluniau Rheoli Partneriaethau diwygiedig;
 - Rôl a chyfraniad ehangach AHNE yn darparu rolau corfforaethol awdurdodau lleol cyfredol a newydd.
 - Ansawdd cynrychiolaeth swyddogion a chynrychiolwyr etholedig awdurdodau lleol wrth reoli AHNE yn lleol ac yn genedlaethol.

Argymhelliad 45

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu data ac yn darparu cyngor proffesiynol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'r Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 46

Dylai awdurdodau lleol atgyfnerthu a lledaenu eu harferion cydweithio gorau yn yr AHNE ar draws pob un o'r wyth Parc Cenedlaethol a'r AHNE.

8.8 Blaengynllunio a Rheoli Datblygu

- 8.8.1 Roedd statws cynllunio o ran rheoli datblygu yn y Parciau Cenedlaethol yn bendant yn fater a oedd yn hollti barn; gwelsom mai ychydig iawn o dir canol a ildwyd gan y naill ochr a'r llall.
- 8.8.2 Roedd y sail resymegol dros ddileu pwerau cynllunio, a'u rhoi yn hytrach i awdurdodau lleol, yn amrywio. Weithiau roedd yn seiliedig ar brofiad anecdotaidd lleol, a thro arall ar ganfyddiad. Er enghraifft, roedd barn gref Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid yn seiliedig ar ei brofiadau gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- 8.8.3 Roedd barn arall, un a rennir gan nifer o gyfranwyr, nad oedd rhai o'r Parciau wedi gallu darparu lefel dderbyniol o wasanaeth yn eu hardal, a bod hynny'n cyfiawnhau cael gwared arnynt. Nid yw'r dystiolaeth gyfoes a gasglwyd gennym yn cefnogi'r canfyddiad hwn. Er y gallai fod wedi bod yn berthnasol yn y gorffennol, mae casgliadau adroddiad Land Use Consultants, "Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru" (LUC, 2012) a chanfyddiadau Comisiwn Williams ar Gyflenwi a Gwasanaethau Cyhoeddus (2014) wedi gweld gwelliant sylweddol ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd bellach ymhlith yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru.
- 8.8.4 Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom gan y sectorau amaethyddol a thirfeddiannol yn frith o fethiannau canfyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a phwysleisiwyd hyn i ni pan ddaethom wyneb yn wyneb â'u cynrychiolwyr. Ar draws y sector, sydd ag agwedd amwys fan lleiaf tuag at Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gall safbwyntiau amrywio o durio i lawr i'r raddfa leol/ranbarthol. Dywedodd un o gynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a siaradodd â ni fod cryn dipyn o gefnogaeth ymhlith y gymuned amaethyddol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- 8.8.5 Gwnaeth Ffederasiwn y Busnesau Bach sylw diddorol: mynegwyd pryder ganddynt am ddiffyg gallu adrannau cynllunio i ddeall anghenion y sector preifat. Roedd hyn yn cyferbynnu â chyfraniad cynrychiolydd o Gynghrair Twristiaeth Cymru a deimlai nad oedd hyn i'w weld mewn awdurdodau lleol chwaith, ac a rybuddiai rhag newid.
- 8.8.6 Roedd mwy o gonsensws yn y sector gwirfoddol. Cyflwynodd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig achos dros gadw swyddogaethau cynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Pe bai swyddogaethau cynllunio'n cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol, yn enwedig yr awdurdodau mwy o faint a argymhellir, roeddent yn arbennig o bryderus y byddai dealltwriaeth a phrofiad staff cynllunio'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael ei wanhau, ac yn cael ei golli dros amser. Roedd y pryder hwn yn cael ei rannu ar draws y sector.

- 8.8.7 Nododd CNC yn glir fod cadw swyddogaeth gynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn galluogi Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gyflawni gofynion cyfredol a dibenion arfaethedig yn y dyfodol. Roedd Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) Cymru, sy'n cynrychioli'r proffesiwn hefyd o'r farn y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw cynllunio yn ei gyfanrwydd. Roeddent yn bryderus ynghylch y gwahanol ddehongliadau posibl o bolisi mewn un Awdurdod Parc Cenedlaethol pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei rannu rhwng dau neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan arwain at anghysondeb.
- 8.8.8 Awgrymodd nifer o gyfranwyr y gellid gwneud y Parciau Cenedlaethol yn ymgynghorwyr statudol i'r Cydbwyllgorau Cynllunio arfaethedig, gan gadw swyddogaeth polisi cynllunio strategol (fodd bynnag, byddai eraill yn cael gwared ar y swyddogaeth hon hefyd). Wrth drafod y mater gyda Phrif Swyddog Gweithredol Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms, gwelsom fod gwneud hynny'n ychwanegu lefel arall o gymhlethdod at y broses gynllunio, ac nad yw'n arbed fawr ddim o ran adnoddau gan fod rhaid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gadw arbenigedd cynllunio a chapasiti er mwyn ystyried ceisiadau yn ei ardal.
- 8.8.9 Aethom ati ar y cam hwn o'r adolygiad â meddyliau agored, yn enwedig o ystyried y newidiadau cyd-destunol sy'n digwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr achos dros gael gwared ar bwerau cynllunio'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn argyhoeddi, ar sail enghreifftiau dyddiedig nad oedd yn adlewyrchu profiad ar hyn o bryd ac a oedd yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiad. Er bod problemau wedi digwydd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym yn argyhoeddedig fod y materion systemig wedi cael eu datrys. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad Land Use Consultants, argymhellion Comisiwn Williams, tystiolaeth CNC ac RTPI yn argyhoeddi. Roedd y dystiolaeth a gawsom gan yr Alban yn cryfhau yn ein meddyliau yr angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu holl swyddogaethau cynllunio, gan gynnwys eu swyddogaeth rheoli datblygiadau cynllunio. Mae gwneud hyn yn caniatáu

i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sy'n rheoli 20% o dirwedd Cymru, i gyflawni eu dibenion mewn modd mwy integredig. Er mai un arf ymhlith y nifer sydd eu hangen i gyflawni'r tri diben newydd fydd cynllunio o hyd, bydd yn cyflawni swyddogaeth allweddol ac yn sicrhau cysondeb ar draws ein Parciau Cenedlaethol.

Argymhelliad 47

Dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu polisi cynllunio strategol a'u swyddogaethau rheoli datblygiadau cynllunio.

Argymhelliad 48

Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu a chefnogi cyngor cynllunio cyn gwneud cais gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

8.8.10 Clywsom dystiolaeth yn sôn am lefel uchel o drosiant ymhlith swyddogion cynllunio ac aelodau etholedig awdurdodau lleol yn penderfynu ar geisiadau mewn AHNE, ac felly'r angen parhaus am hyfforddiant ar bwysigrwydd cenedlaethol a gofynion arbennig Tirweddau Cenedlaethol. Er mwyn i'r Parciau Cenedlaethol a'u Hawdurdodau chwarae rôl well, gydlynol a chyson wrth gyflawni pob un o'r tri diben arfaethedig, bydd angen digon o gefnogaeth ar eu swyddogion cynllunio i ddiwallu'r anghenion datblygiad proffesiynol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i aelodau Pwyllgor Cyflenwi AHNE a fydd angen rhagor o hyfforddiant ac addysg er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r dibenion yn well. Byddem yn disgwyl i'r Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol gydlynu'r gwaith hwn.

Argymhelliad 49

Dylai'r Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol gydgysylltu a helpu i rannu cost hyfforddiant ac addysg mewn materion cynllunio defnydd tir, yn enwedig ar gyfer cyflawni'r dibenion newydd.

- 8.8.11 Er bod y Gweinidog wedi gofyn yn benodol i ni edrych ar swyddogaeth gynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, soniwyd am rôl AHNE yn y dystiolaeth a ddaeth i law. Fel y nodwn ym Mhennod 5, er bod yr ardaloedd yn cael yr un lefel o warchodaeth â Pharciau Cenedlaethol, ceir prosesau ymgysylltu gwahanol rhwng AHNE ac adrannau cynllunio eu hawdurdodau lleol perthnasol. Nodwyd hyn yn adroddiad 2012, "Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru" (LUC, 2012), ynghyd â mater annibyniaeth swyddogion AHNE, y gallai eu statws fel gweithwyr a gyflogir gan yr awdurdod lleol effeithio ar eu penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau.
- 8.8.12 Rydym yn awyddus i wella statws Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o fewn y system gynllunio, ac er mwyn gwneud hynny rydym am i gyrff AHNE ddod yn ymgylgoreion statudol ar geisiadau cynllunio gydag effaith a allai fod yn sylweddol ar y nodweddion arbennig yn eu hardaloedd. Rydym hefyd yn credu bod dull cyfredol AHNE Dyffryn Gwy o gaffael a chomisiynu cyngor cynllunio ar y cyd (gydag AHNE Malvern Hills) yn annibynnol ar eu hawdurdodau lleol yn fodel o gydweithio yr hoffem ei weld yn cael ei ddatblygu ledled Cymru ac adnoddau'n cael eu neilltuo ar ei gyfer. Bydd y ddau ddull hwn gyda'i gilydd yn gwella ansawdd a maint y gwaith craffu a'r cyngor ynghylch datblygiadau mwyaf arwyddocaol yr AHNE, gan sicrhau fod penderfyniadau'n seiliedig ar well gwybodaeth a bod y canlyniadau'n cael eu gwella.

Argymhelliad 50

Cyrff AHNE i ddod yn ymgylgoreion statudol ar geisiadau cynllunio gydag effaith sylweddol bosibl ar nodweddion arbennig eu hardaloedd.

Argymhelliad 51

Datblygu a sicrhau adnoddau ar gyfer system o gyngor cynllunio annibynnol ar gyfer AHNE ledled Cymru.

- 8.8.13 Hefyd, carem wneud sylwadau ar un o argymhellion "Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru" (LUC, 2012). Roedd yr

awduron yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn genedlaethol ar ganlyniadau cynllunio'r ddau Barc Cenedlaethol a'r AHNE er mwyn sicrhau bod beirniadu penderfyniadau yn seiliedig ar ffeithiau yn y dyfodol. Carem gymeradwyo'r argymhelliad hwn. Mae cryn werth yn ei gyflawni yn rhan o'r gweithgaredd a ddeilliodd o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Am y tro cyntaf, byddai gan y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE gyfres o ddangosyddion canlyniadau cynllunio sy'n adlewyrchu eu statws yn y system gynllunio. Credwn y gallai'r Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol (y cyfeirir ato yn Argymhelliad 30 uchod) ddrafftio hwn fel gwaith ar y cyd.

Argymhelliad 52

Datblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau cynllunio'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Cymru.

8.8.14 Ar ôl gwneud yr argymhellion uchod, rydym yn awyddus i gloi'r adran hon â sylw a gawsom gan Brif Weithredwr un o Barciau Cenedlaethol yr Alban. Cawsom ein hatgoffa bod rheoli datblygiadau cynllunio yn broses wrthwynebol, gyda chollwyr ac enillwyr, ac nad oedd newid awdurdod cynllunio ardal yn datrys penderfyniad ynghylch cais cynllunio dadleuol, dim ond ei symud o un awdurdod i'r llall.

8.9 Cynrychiolaeth leol ac amrywiaeth

- 8.9.1 Yr adrannau perthnasol yng nghyfarwyddyd y Gweinidog ar gyfer yr adolygiad hwn ar gynrychiolaeth ac atebolrwydd lleol oedd ystyried:
- Trefniadau llywodraethu a rheoli'r tirweddau dynodedig hyn
 - Sut orau y byddai unrhyw gorff llywodraethu yn y dyfodol yn atgyfnerthu atebolrwydd a gallu lleol i wneud penderfyniadau,
 - Wrth ystyried cynrychiolaeth ac atebolrwydd dylid rhoi sylw i gydbwysedd y bwrdd o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.
- 8.9.2 Er mwyn ein helpu i gyflawni'r rhan hon o'n briff gofynasom am gyngor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Rydym wedi elwa o'u hadroddiad 'Penodi ar Fyrddau a Chyfraith Cydraddoldeb' (2014). Er mai trafod mater menywod ar fyrddau y mae'r canllaw hwn yn benodol, mae'n nodi bod llawer o'i gynnwys hefyd yn berthnasol wrth ystyried amcanion ehangach i gynyddu amrywiaeth ar fyrddau. Un o'i brif negeseuon yw bod y gyfraith yn rhoi cyfle i gwmnïau fynd i'r afael ag unrhyw

anfantais neu gyfranogiad anghymesur o isel ar fyrddau drwy alluogi neu annog ceisiadau o rannau o'r fath o'r gymdeithas, cyn belled â bod y dewis yn cael ei wneud ar sail teilyngdod.

- 8.9.3 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Mae ei Datganiad Amrywiaeth yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am ei swyddi cyhoeddus. Mae croeso arbennig i geisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, aelodau o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.
- 8.9.4 O ran anabledd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun 'Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl' ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn sicrhau cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae eu ffurflen gais hefyd yn galluogi ymgeiswyr i roi manylion am unrhyw anghenion penodol neu offer y gallant fod ei angen os cânt eu gwahodd i gyfweliad.
- 8.9.5 *Cyfansoddiad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol*
- 8.9.6 Roeddem yn falch o weld y camau cadarnhaol y mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu cymryd i gynyddu amrywiaeth ar eu byrddau. Rydym wedi clywed am ganlyniadau da'r rhaglenni peilot, a'r dulliau Mosaic, mentora a Llysgennad sy'n cael eu disgrifio ym Mhennod 5 a'r astudiaethau achos yn Atodiad iv.
- 8.9.7 Disgrifir model cynrychiolaeth cyfredol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ym Mhennod 5, gyda dwy ran o dair yn Gynghorwyr a enwebir gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol a thraean yn bobl wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cystadleuaeth agored o dan Egwyddorion Nolan.
- 8.9.8 Mae rhai ymatebion i'r Adolygiad hwn wedi awgrymu y dylid ystyried mwy o atebolrwydd lleol ar ran yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys ethol cyfran o aelodau'n uniongyrchol o bosibl, fel ym Mharciau Cenedlaethol yr Alban, er bod llawer o ymatebwyr eraill yn rhybuddio rhag etholiadau uniongyrchol, gan ofni y byddai protestwyr ynghylch un mater yn unig yn meddiannu'r awdurdod, ac oherwydd

y gost ychwanegol o gynnal etholiadau uniongyrchol mewn wardiau pwrpasol yn y Parciau Cenedlaethol i gyllideb yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

8.9.9 Roedd llawer o ymatebwyr i'n Hadolygiad yn bryderus ynghylch achosion o benodi Cynghorwyr i gynrychioli wardiau mewn Awdurdod o fannau sy'n bell y tu allan i'r Parc Cenedlaethol oherwydd y rheol cydbwysedd gwleidyddol. Argymhellodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylai Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fyw yn y Parc Cenedlaethol neu'n agos at ffin y Parc (Comisiwn Williams, t.43, 2014). Cafodd y mater sylw hefyd yn yr adolygiad ar gyflenwi gwasanaethau cynllunio yn Nhirweddau Dynodedig Statudol Cymru yn 2012.

8.9.10 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gawsom, rydym yn argymhell y camau canlynol i wella cynrychiolaeth ac atebolrwydd lleol:

Argymhelliad 53

Dylai pob Awdurdod Parc Cenedlaethol gynnwys: ½ Cynghorwyr Sir wedi'u henwebu, ¼ cynrychiolwyr y budd cenedlaethol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru drwy gystadleuaeth agored, a ¼ cynrychiolwyr y budd lleol wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored gan yr aelodau a restrir uchod.

8.9.11 Mae'r argymhelliad hwn yn cyfuno mwy o gynrychiolaeth leol o fewn ffiniau'r Tirweddau Cenedlaethol a mecanwaith ar gyfer sicrhau mwy o amrywiaeth drwy'r broses recriwtio ar yr un pryd.

Argymhelliad 54

Dylai prosesau recriwtio a phenodi ar gyfer aelodau 'budd cenedlaethol' a 'budd lleol' Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gynnwys arfer gorau i sicrhau amrywiaeth ymysg aelodaeth yr Awdurdod.

Argymhelliad 55

Datblygu a sefydlu'r camau cadarnhaol sydd wedi'u profi eisoes gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y tri Pharc Cenedlaethol er mwyn cynyddu amrywiaeth yn eu Hawdurdodau, hynny yw, dulliau Mosaic, mentora a Llysgennad.

Argymhelliad 56

Dylai Llywodraeth Cymru ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol ymhlith aelodau awdurdodau lleol mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol er mwyn cynyddu cynrychiolaeth leol. Felly dylai Cynghorwyr a benodir i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gynrychioli wardiau oddi mewn i ffin y Parc Cenedlaethol neu wardiau sy'n pontio'r ffin. [Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990.]

Argymhelliad 57

Dylid cael trefniadau adrodd ffurfiol rhwng Cynghorwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'u prif awdurdod lleol.

8.9.12 Cyfansoddiad pwyllgorau ffurfiol AHNE

8.9.13 Mae'r ystod o fodelau cynrychiolaeth ar bwyllgorau ffurfiol AHNE yn cael ei disgrifio ym Mhennod 5, paragraffau 5.7.9 i 5.7.13. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt brif bwyllgor sy'n cynnwys Cynghorwyr wedi'u henwebu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol sydd â phwerau pleidleisio, ynghyd â chynrychiolwyr partïon â diddordeb, sydd â phwerau pleidleisio mewn rhai achosion hefyd.

8.9.14 Dangosai ymatebion i'r Adolygiad fod y trefniadau presennol yn 'hynod o effeithiol a gwydn' (AHNE Dyffryn Gwy).

8.9.15 Rydym wedi ystyried y strwythur newydd ar gyfer pwyllgorau yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel y'i disgrifir ym Mhennod 5, paragraff 5.7.11, gyda Chydbwyllgor

yn cynnwys dau aelod Cabinet o bob un o'r tri awdurdod lleol cyfansoddol yn penodi rhai aelodau i'w Partneriaeth AHNE drwy gystadleuaeth agored. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol efallai y bydd angen adolygu eu model Cydbwyllgor ar ôl yr ad-drefnu arfaethedig ym maes llywodraeth leol, gan y gallai'r AHNE fod mewn un awdurdod lleol yn unig, neu ddau ar y mwyaf.

8.9.16 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gawsom, nid ydym yn pennu aelodaeth gyffredinol y Pwyllgor. Yn lle hynny, rydym yn argymhell y dylid gwneud penodiadau penodol i'r Pwyllgor er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr awdurdodau lleol cyfansoddol (sy'n aml yn bell oddi wrthynt yn ddaearyddol), cryfhau cynrychiolaeth o bwysigrwydd cenedlaethol y dynodiad, ac i sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol, gan barhau i gynnal cynrychiolaeth leol gref.

Argymhelliad 58

Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgor ffurfiol i oruchwylio rheolaeth yr AHNE ac i ddirprwyo cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros baratoi Cynllun Rheoli AHNE i'r Pwyllgor hwn (ond heb ddirprwyo ei gyfrifoldebau o dan ei ddyletswydd i ddibenion yr AHNE a chyflawni agweddau perthnasol ar y Cynllun Rheoli). Rydym yn argymhell ailenwi hwn yn 'Bwyllgor Cyflenwi AHNE' yn hytrach na'r enw arferol: Cydbwyllgor Ymgynghorol.

Argymhelliad 59

Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i bob Pwyllgor Cyflenwi AHNE i gynnwys o leiaf un aelod Cabinet o bob awdurdod lleol cyfansoddol, o leiaf ddau gynrychiolydd budd cenedlaethol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru drwy gystadleuaeth agored, ac o leiaf ddau gynrychiolydd budd lleol wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored gan weddill yr aelodau.

Argymhelliad 60

Dylai Llywodraeth Cymru ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol rhwng aelodau awdurdodau lleol ym mhwyllgorau ffurfiol AHNE er mwyn cynyddu cynrychiolaeth leol.

Felly dylai Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i bwyllgorau ffurfiol AHNE (yn ogystal ag aelodau'r cabinet yn adran Rx uchod) gynrychioli wardiau oddi mewn i ffin yr AHNE, neu sy'n pontio'r ffin. [Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990.]

Argymhelliad 61

Dylai'r prosesau penodi aelodau 'budd cenedlaethol' a 'budd lleol' pwyllgorau cyflenwi AHNE gynnwys arferion gorau o ran cydraddoldeb i sicrhau amrywiaeth ymysg aelodaeth y Pwyllgor.

Argymhelliad 62

Dylai'r AHNE fynd ati i ddysgu gwersi o raglenni peilot Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'u defnyddio i gynyddu amrywiaeth ymysg aelodaeth eu Pwyllgorau Cyflenwi. (Gallai Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol Cymru hwyluso dysgu o'r fath.)

Argymhelliad 63

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i fod yn gynghorydd allweddol i Bwyllgorau Cyflenwi AHNE.

Argymhelliad 64

Dylid cael trefniadau adrodd ffurfiol rhwng y Cynghorwyr ar Bwyllgorau Cyflenwi AHNE a'u prif awdurdodau lleol.

8.9.17 Mae'r gyfres hon o argymhellion wedi'i llunio i fanteisio ymhellach ar botensial ac angerdd ynghylch pwysigrwydd cenedlaethol a chyfleoedd lleol mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE, er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth wrth wneud

penderfyniadau, ac adeiladu pontydd cryfach rhwng y tirweddau dynodedig a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol .

8.10 Trefniadau ariannu

- 8.10.1 Credwn fod angen symleiddio trefniadau ariannu'r cyrff dynodedig. Mae'r dystiolaeth a gawsom, yn ogystal â'r dystiolaeth a gasglwyd yn sail i Bennod 5 yn dangos bod angen digon o gymorth er mwyn gallu perfformio'n effeithiol, gan gynnwys cymorth ariannol i gyflawni ar gyfer tirweddau dynodedig. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae AHNE yn arbennig o agored i'r perygl o weld eu cyllid sylfaenol yn cael ei danseilio oherwydd natur ddisgresiynol eu cyllid llywodraeth leol a chyllid CNC. Yn ogystal, nodwn fod llawer o'r cynlluniau mwyaf arloesol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn seiliedig ar symiau cymharol fach o arian prosiect. Mae AHNE wedi bod yn arbennig o weithgar ac entrepreneuriaidd yn hyn o beth.
- 8.10.2 Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae cyllid craidd gan y llywodraeth (sy'n hanfodol i'w llwyddiant parhaus) wedi crynhoi mewn cwlwm annatod o ffrydiau refeniw sy'n mynd drwy awdurdodau lleol a CNC mewn ffyrdd amrywiol. Rydym yn argymhell y dylid cael system gyllido symlach gyda mwy o gymelliadau ac rydym o'r farn y bydd hynny'n lleihau gorbenion a beichiau gweinyddol gan wella perfformiad unigol a chydweithredol yn sylweddol.

Argymhelliad 65

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r dyraniad grant craidd blynyddol i bob un o Dirweddau Cenedlaethol Cymru, a thrwy hynny gael gwared ar ardollau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol.

Argymhelliad 66

Dylai Llywodraeth Cymru frigidorri'r dyraniad craidd ar gyfer mentrau cydweithredol a chenedlaethol strategol a phenodol (sy'n cael eu dyrannu drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a grantiau cystadleuol fel y Gronfa Natur ar hyn o bryd).

Argymhelliad 67

Dylai Llywodraeth Cymru reoli atebolrwydd am gyllid craidd drwy broses adolygu flynyddol wedi'i gweinyddu yn ôl meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig â'r Nodau Llesiant a Chynlluniau Partneriaeth statudol y cyrff Tirweddau Cenedlaethol.

Argymhelliad 68

Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd i ddenu ffynonellau ariannu allanol. Bydd hyn yn galw am newid yn strwythurau rheoli mewnol a swyddogaeth y cyrff hyn ac yn achos AHNE, eu perthynas â'u hawdurdodau lleol partner.

Argymhelliad 69

Dylai'r cyrff Tirweddau Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd i gynhyrchu eu ffrydiau refeniw eu hunain drwy ddatblygu ystod ehangach o daliadau am wasanaethau ecosystemau yn unol â'u dibenion. Bydd eu gallu i ddefnyddio a denu cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a chyllid cysylltiedig o'r Undeb Ewropeaidd yn bwysig.

- 8.11.1 Mae Ffigur 19, ar y dudalen nesaf, yn ychwanegu haen o fanylder at Ffigur 16 er mwyn dangos yr elfennau sy'n cydberthyn yn y fframwaith llywodraethu newydd ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru fel yr argymhellir ym Mhenodau 7 ac 8, ac mae'n adlewyrchu'r holl argymhellion cysylltiedig. Canlyniad o'r dystiolaeth a ddaeth i law ac ystyriaeth ofalus y panel dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r fframwaith llywodraeth newydd. Credwn ei fod yn darparu fframwaith cadarn yn ei strwythurau a'i brosesau ar gyfer sicrhau perfformiad, arweinyddiaeth a chyfeiriad mwy effeithiol, a llais, atebolrwydd ac effeithlonrwydd cyhoeddus yr ardaloedd tirwedd. Yn hyn o beth mae'n ymgorffori dull o weithredu sy'n canolbwyntio llawer mwy ar bartneriaeth gyda mwy o gynrychiolaeth. Rydym hefyd wedi ystyried goblygiadau trawsffiniol AHNE Dyffryn Gwy ac yn teimlo y bydd y dull hwn yn gweithio yno hefyd.
- 8.11.2 Credwn fod y fframwaith llywodraethu newydd yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno'r gyfres ddiwygiedig o ddibenion yn eglur. Yn yr ystyr hwn mae'n mynd i'r afael â'r dadansoddiad o wendidau a archwiliwyd ym Mhennod 5 ac yn cael sylw manwl ym Mhenodau 6, 7 ac 8. Bydd hefyd yn cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad yn ein Tirweddau Cenedlaethol, gan eu galluogi i wireddu eu potensial ar gyfer Cymru gyfan.

Ffigur 19: Fframwaith Llywodraethu Tirweddau Cenedlaethol Cymru a Argymhellir

